Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
56/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
20/08/2020

# Ymchwil i lywio cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80038-943-4

Ymchwil i lywio anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir

Suzanne Pritchard, Liz Puntan, Lauren Royel ac Angus Campbell: Strategic Research and Insight Ltd.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Pritchard, S; Puntan, L; Royel, L. a Campbell, A. (2019). *Ymchwil i lywio anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) 56/2020.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/ymchwil-i-lywio-cymorth-y-dyfodol-ar-gyfer-darparu-addysg-gynnar-yn-y-sector-nas-cynhelir

STRATEGIC
RESEARCH & INSIGHT

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Ymchwil i Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif ffôn: 03000 256812
E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o ffigurau ..... 2
Rhestr acronymau ..... 3
1. Cyflwyniad a chefndir ..... 4
2. Canfyddiadau allweddol a phwyntiau i'w hystyried ..... 11
3. Methodoleg ..... 21
4. Addysg gynnar: cyflenwi cyfredol ..... 26
5. Addysg gynnar: cymorth ar gyfer y sector a rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ..... 32
7. Cefnogi buddiannau'r sector nas cynhelir ..... 93
8. Sylwadau i gloi ..... 100
Cyfeiriadau ..... 101
Atodiad 1: Canllaw pwnc ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol ..... 102
Atodiad 2: Arolwg ar-lein a ffôn ..... 107
Atodiad 3: Canllaw pwnc 'lleoliadau heb eu cynnal' ..... 116

**Rhestr o ffigurau**


Ffigur 1: Dadansoddiad o samplau'r arolygon ar-lein a dros y ffôn a gyflawnwyd yn ôl math o leoliad, rhanbarth, iaith a maint ........ 23

Ffigur 2: Ydych chi wedi cael eich awdurdodi gan eich awdurdod lleol i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen? ........ 26

Ffigur 3: Pam nad ydych yn ddarparwr addysg cofrestredig cymeradwy ar hyn o bryd? ..... 28

Ffigur 4: Ymwybyddiaeth o sefydliadau ymbarél a Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen 33

Ffigur 5: A ydych chi wedi derbyn unrhyw wybodaeth am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen neu unrhyw gymorth i'w darparu gan unrhyw un o'r canlynol? ........ 39

Ffigur 6: Pa wybodaeth neu gymorth ynglŷn ag addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ydych chi wedi'i dderbyn? ........ 40

Ffigur 7: Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth neu'r cymorth rydych wedi'i derbyn am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen? ........ 49

Ffigur 8: Oes unrhyw fathau o wybodaeth neu gymorth fod angen arnoch i'ch helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen nad ydych yn eu derbyn ar hyn o bryd? 53

Ffigur 9: Pa mor ymwybodol ydych chi o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch galluogi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd? ........ 70

Ffigur 10: Pa wybodaeth neu gymorth ydych chi'n credu y bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd? ........ 75

Ffigur 11: Yn yr hirdymor, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r syniad hwn? ........ 80

Ffigur 12: Pa fath o gymorth ydych chi'n meddwl y bydd angen arnoch efallai i baratoi ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn eich lleoliad? ........ 82

Ffigur 13: Pa mor ymwybodol ydych chi o'r newidiadau y bydd angen i chi/eich lleoliad eu gwneud i'ch helpu chi i gyfrannu tuag at y gwaith o gyflawni nodau Cymraeg 2050? ........ 85

Ffigur 14: Pa wybodaeth neu gymorth, os o gwbl, ydych chi'n credu y bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyfrannu at gyflawni nodau Cymraeg 2050? ........ 87

**Rhestr acronymau**

| **Acronym** | **Diffiniad** |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| MDPh | Meysydd Dysgu a Phrofiad |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGPBC | Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar |
| ALlWCau | Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar |
| AYBC | Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar |
| GDDBC | Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar |
| BCC | Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| SDCS | Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen |
| AFCS | Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen |
| CGMD | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| SGC | Safonau Gofynnol Cenedlaethol |
| CBGPBC | Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar |
| DAC | Darparwr addysg cofrestredig |
| SRI | Strategic Research and Insight |

# 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil a gynhaliwyd gan Strategic Research and Insight Limited (SRI) rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2019. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y safbwyntiau a ddarparwyd gan randdeiliaid a lleoliadau nas cynhelir a ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil.

**Nodau, amcanion a chwestiynau ymchwil**

1.2 Nod y prosiect oedd nodi'r blaenoriaethau, y cymorth i'r dyfodol a'r anghenion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cryfhau safle addysg gynnar o fewn y sector nas cynhelir yng Nghymru er mwyn galluogi'r sector i gymryd rhan mewn newidiadau ac ymateb ac addasu iddynt, wrth sicrhau bod lleoliadau yn parhau i gyflawni addysg gynnar o safon uchel.

1.3 O fewn y nod trosfwaol hwn, amcanion y prosiect oedd:

- Ymgynghori â rhanddeiliaid Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, yn bennaf yn y sector nas cynhelir, er mwyn deall y rhwystrau i gyflenwi ymarfer y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir yn effeithiol ac a yw'r dull cymorth presennol yn effeithiol ac yn gynaliadwy.
- Deall yr effaith a ddisgwylir yn sgil y cwricwlwm a threfniadau asesu newydd ar sefydliadau ymbarél a lleoliadau nas cynhelir a'r goblygiadau ar gyfer cymorth addysgol.
- Cyflwyno canfyddiadau mewn perthynas â chyfleoedd presennol a rhai'r dyfodol a'r heriau sy'n cael effaith ar y cymorth a ddarperir ar gyfer lleoliadau nas cynhelir sy'n cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen.

1.4 Ceisiodd y prosiect i ateb y cwestiynau ymchwil canlynol yn ogystal:

- Pa fath o gymorth a pha lefel ohono sydd eu hangen ar leoliadau nas cynhelir gan sefydliadau ymbarél i gyflenwi addysg gynnar?
- Oes angen meysydd cymorth ar leoliadau nad ydynt yn cael eu cyflenwi gan sefydliadau ymbarél ar hyn o bryd? Beth yw'r meysydd hyn?

- Oes unrhyw amrywiadau o ran y cymorth sydd ei angen yn ôl y math o leoliad nas cynhelir, categori iaith y lleoliad, daearyddiaeth, nodweddion cymdeithasol-ddemograffig, strwythur y sefydliad, maint y lleoliad neu nodweddion eraill?
- Beth yw'r canfyddiadau o ran goblygiadau posibl diwygio'r cwricwlwm ar ddarpariaeth? Beth yw'r goblygiadau a ragwelir?
- Beth yw cryfderau'r dull cymorth presennol drwy sefydliadau ymbarél nas cynhelir? Oes modd gwella ar y rhain? Ym mha ffyrdd?
- A yw'r sector nas cynhelir yn gallu ymateb i newidiadau mewn polisi addysg gynnar?
- Sut y dylid strwythuro cymorth fel y gellir ymateb orau i bolisïau trawsbynciol fel Cymraeg 2050?
- Sut y dylid strwythuro cymorth yn y dyfodol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd mewn lleoliadau nas cynhelir?
- Sut y gellir cynrychioli buddiannau'r sector nas cynhelir orau o fewn datblygiadau polisi addysg strategol ar lefel genedlaethol?

1.5 Archwiliwyd materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â'r holl gwestiynau uchod er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cynnwys unrhyw faterion cysylltiedig sy'n effeithio ar y sector nas cynhelir.

**Y Cyfnod Sylfaen**

1.6 Y Cyfnod Sylfaen (2008, diwygiwyd yn 2015) yw fframwaith addysg blaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer plant rhwng tair a saith mlwydd oed yng Nghymru. Gan ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn hyrwyddo “dull dysgu ac addysgu datblygiadol, arbrofol”.

1.7 Cyflwynir y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed – a adwaenir fel addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen – mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Mae'r term “sector nas cynhelir a ariennir” yn disgrifio pob lleoliad y tu allan i ysgol sy'n ddarparwr addysg cofrestredig ac sy’n derbyn arian gan yr awdurdod lleol i gyflenwi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r term hwn yn

cwmpasu ystod eang o leoliadau, a allai gynnwys (heb fod yn gyfyngedig iddynt) feithrinfeydd dydd preifat, cylchoedd meithrin, cylchoedd chwarae cyn-ysgol, cylchoedd chwarae a gofalwyr plant.

1.8 O fis Ionawr 2019, mae lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir wedi'u harolygu ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn, arolygiaeth ysgolion Cymru.

1.9 Gwnaeth adroddiad Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: adroddiad terfynol (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru, 2015) nodi rhai anghenion cymorth cychwynnol ar gyfer lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir er mwyn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys gwella hyfforddiant staff ac adnoddau cynorthwyol.

**Safonau gofynnol cenedlaethol**

1.10 Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn berthnasol i warchodwyr plant ac unrhyw ddarparwyr gofal dydd ar gyfer plant hyd at 12 oed. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofal plant, yn benodol y rheini sy'n gofalu am blant rhwng tair a saith oed, fod yn ymwybodol o egwyddorion ac ethos y Cyfnod Sylfaen, Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a'r saith Maes Dysgu, a'u cymhwyso, hyd yn oed os nad ydynt yn ddarparwyr addysg cofrestredig a ariennir i gyflenwi'r Cyfnod Sylfaen.

**Y Cynnig Gofal Plant**

1.11 Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru (y Cynnig) yn darparu 30 awr o ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer pob plentyn tair a phedair oed â rhieni cymwys sy'n gweithio[1].Mae'r 30 awr yn cynnwys darpariaeth gyffredinol bresennol addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed (rhwng deg a 30 awr yr wythnos ar hyn o bryd yn ddibynnol ar ddarpariaeth yr awdurdod lleol) gyda gweddill y 30 awr yn cael ei gyflenwi gan ofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

1.12 Er bod yr arian ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig yr un fath ar gyfer pob darparwr ar draws pob ardal, mae'r gyfradd ariannu ar gyfer darpariaeth addysg feithrin y

[1] Mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael yng Nghymru ers mis Medi 2017 mewn saith awdurdod lleol sy'n weithredwyr cynnar ac mae bellach wedi'i fabwysiadu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Cyfnod Sylfaen yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, yn ogystal â nifer yr oriau'r wythnos a ariennir.

**Cwricwlwm 2022**

1.13 Nododd Dyfodol Llwyddiannus, adolygiad yr Athro Graham Donaldson o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, fod ethos, egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gryfder mawr dull addysg Cymru ac y byddai ffocws ar Feysydd Dysgu a Phrofiad yn hytrach na phynciau ym mhob cyfnod o addysgu gorfodol yn adeiladu ar hyn.

1.14 Tra byddai'r cwricwlwm newydd yn cael gwared â chyfnodau a chamau, a 'brand' y Cyfnod Sylfaen, byddai egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cadw ac yn cael eu defnyddio hefyd drwy weddill y cwricwlwm ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 16 oed. Bydd canllawiau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020, ac fe gynigir y bydd gweithredu'r cwricwlwm newydd yn ofyniad cyfreithiol ym mis Medi 2022.

1.15 Yn 2017, cyflwynodd Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017–21 y cwricwlwm newydd gweddnewidiol ar gyfer Cymru. Mae'r ddogfen hon yn darparu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn effeithiol ac, er mai ysgolion oedd ei brif gynulleidfa darged, roedd amserlen cyflwyno'r cwricwlwm yn cynnwys bwriad i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i feithrinfeydd hyd at Flwyddyn 7 yn 2022.

1.16 Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynigion deddfwriaethol i gefnogi'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn yr ymgynghoriad Papur Gwyn Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol. Ymhelaethodd y ddogfen hon ymhellach ar gyfrifoldebau arfaethedig lleoliadau nas cynhelir a ariennir wrth gyflenwi'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys y disgwyliad y byddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas gynhelir a ariennir i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn astudio'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad.

**Cymraeg 2050**

1.17 Mae addysg gynnar yn allweddol er mwyn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel yr amlinellir yn ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae'r strategaeth hon yn nodi nod hirdymor i ‘[gyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â’r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl’.

1.18 Roedd Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol yn cynnwys cynigion i osod dyletswydd ar bob ysgol a lleoliad nas cynhelir a ariennir i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen i addysgu Cymraeg fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant rhwng tair ac 16 oed.

**Addysg a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar**

1.19 Mae rhagor o integreiddio rhwng addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant o dan Gynnig Gofal Plant Cymru yn darparu sylfaen ar gyfer newidiadau posibl dros y tymor hwy i’r gwaith o gyflenwi model addysg gynnar a gofal integredig yng Nghymru lle bydd bob plentyn yn derbyn profiad dysgu a gofal ysgogol o ansawdd uchel wrth fynychu unrhyw leoliad addysg a gofal.

1.20 Yn allweddol i'r dull addysg a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar, a amlinellir gan y Prif Weinidog ym mis Hydref 2019, yw y dylid cyflenwi'r ddarpariaeth gan ymarferwyr sy'n dilyn egwyddorion addysgeg addysg a gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar sydd wedi'u halinio i dystiolaeth am yr hyn sydd fwyaf effeithiol ar gyfer datblygiad plant. Byddai gweithredu'r model addysg a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael gwared â'r gwahaniaeth sy'n bodoli rhwng gofal plant, addysg, lleoliadau ac ysgolion. Prif ddaliadau'r dull hwn yw sicrhau un system addysg a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant hyd at bump oed sy'n cyflawni i'r un safonau ansawdd ar draws yr holl leoliadau addysg a gofal, sy'n darparu darpariaeth hygyrch a hyblyg i weddu i anghenion teuluoedd, ac sy'n cael ei chyflenwi gan weithlu proffesiynol y mae ei brofiad a'i arbenigedd yn cael eu gwerthfawrogi.

**Rôl Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen**

1.21 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant yn flynyddol i bob un o'r pedwar sefydliad ymbarél: Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Sefydliad Darparwyr Cyn-ysgol Cymru gynt), Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd

a’r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY).[2] Mae'r tri sefydliad cyntaf wedi derbyn arian ers 2003, ac mae'r olaf wedi derbyn arian ers 2008.

1.22 Cyflwynwyd y grant i ddarparu adnodd pwrpasol ar gyfer sefydliadau ymbarél er mwyn hwyluso a chefnogi'r gwaith o gyflenwi ac ehangu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn y sector nas cynhelir ac fe’i defnyddiwyd i gyflogi Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen ym mhob sefydliad.

1.23 Diben y swyddi hyn yw darparu cymorth, hyfforddiant, gwybodaeth am bolisi a chyngor ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen i aelodau'r sefydliadau. Mae hefyd yn ofynnol i’r swyddogion gysylltu â chymheiriaid mewn awdurdodau lleol ac ymgysylltu â rhwydweithiau a sefydliadau perthnasol eraill, ac yn fwy diweddar iddynt gynorthwyo â’r gwaith o gyflawni camau gweithredu Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen[3]. Mae'n ofynnol i’r sefydliadau gyflwyno adroddiad monitro ffurfiol ar y gweithgareddau a gyflenwyd a chynllun gwaith ar gyfer y dyfodol er mwyn llywio dyfarniadau a phenderfyniadau ynglŷn â chyllid yn y dyfodol.

**Y sector nas cynhelir yng Nghymru**

1.24 Mae gan y sector nas cynhelir yng Nghymru ddarpariaeth o ystod amrywiol, gan gynnwys lleoliadau fel gwarchodwyr plant, cylchoedd meithrin cyn-ysgol, cylchoedd meithrin a meithrinfeydd. Mae amcangyfrifon o faint y sector yn awgrymu bod mwy na 3,600 o'r darparwyr hyn ledled Cymru gydag ychydig yn llai na 600 yn cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

[2] Mae gan bob un o'r sefydliadau ymbarél ei wefan ei hun, y gellir cael mynediad iddi am ragor o fanylion am ei rôl.
[3] Wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2016, mae'r ddogfen hon ar gyfer ymarferwyr a rhanddeiliaid yn nodi camau gweithredu i gefnogi a rhannu dysgu ynghylch arferion effeithiol a datblygiad staff parhaus, wrth gynnal momentwm wrth gyflenwi'r Cyfnod Sylfaen.

| **Sefydliad ymbarél** | **Nifer sy'n cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen** | **Nifer yr aelodau yn gyffredinol (amcangyfrifedig ym mis Chwefror 2019)** |
|---|---:|---:|
| Mudiad Meithrin | 279 | 500 |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru | 81 | 480 |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | 227 | 700 |
| Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar | Un gwarchodwr plant wedi'i gofrestru ar hyn o bryd | 1,600 (ond amcangyfrifwyd bod 2,000 yng Nghymru yn gyffredinol, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar) |

## 2. Canfyddiadau allweddol a phwyntiau i'w hystyried

2.1 Casglodd yr ymchwil adborth gan leoliadau nas cynhelir a rhanddeiliaid o awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, sefydliadau ymbarél a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r anghenion cymorth yn y dyfodol ar gyfer cyflenwi addysg gynnar yn y sector nas cynhelir. Mae'r adran hon yn crynhoi'r dystiolaeth hon er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil allweddol.

**Pa fath o gymorth a pha lefel ohono sydd eu hangen ar leoliadau nas cynhelir gan sefydliadau ymbarél i gyflenwi addysg gynnar?**

**Mae angen hyfforddiant, adnoddau a chymorth arall**

2.2 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn tynnu sylw at angen am hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth ynghylch ystod eang o bynciau sy'n berthnasol i leoliadau, a modd o gyflenwi sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau. Mae angen i hyfforddiant a gwybodaeth arall gyfleu negeseuon cyson i leoliadau ynghylch cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

2.3 Mae angen darparu hyfforddiant ar adegau addas ac mewn lleoliadau addas er mwyn galluogi lleoliadau i'w fynychu a dylai hyn gynnwys hyfforddiant gyda'r hwyr ac ar benwythnosau ar gyfer rhai, er nad yw hyn yn addas ar gyfer y rheini sy'n gweithio oriau afreolaidd.

2.4 Yn aml, mae'n well gan bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb na hyfforddiant ar-lein gan ei fod yn galluogi lleoliadau i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau ar gyfer ymarfer effeithiol. Gall diffyg cyfarpar TGCh hefyd fod yn rhwystr i gael mynediad at hyfforddiant ar-lein. Fodd bynnag, mae'n well gan eraill hyfforddiant ar-lein felly dylid ystyried ystod lawn o opsiynau.

2.5 Mae nifer o leoliadau yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at hyfforddiant oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio talu am staff llanw a/neu gost yr hyfforddiant ei hun. Nid oes gan rai unrhyw ddewis ond cau'r lleoliad er mwyn galluogi staff i fynychu hyfforddiant, sy'n golygu eu bod yn colli arian ac yn creu anghyfleustod i rieni. Mae hefyd angen i staff allu dyrannu amser i weithredu'r negeseuon allweddol y maent yn eu dysgu o hyfforddiant, sy'n arwain at gost ychwanegol.

2.6 Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i sefydliadau ymbarél, awdurdodau lleol a chonsortia addysg gyflenwi hyfforddiant rheolaidd. Mae rhai lleoliadau wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoedd ar hyfforddiant a arweinir gan awdurdodau lleol / consortia.

2.7 O ganlyniad, awgrymodd nifer o leoliadau a rhanddeiliaid y dylai Llywodraeth Cymru wella mynediad lleoliadau at hyfforddiant a'i fuddion drwy ariannu staff llanw, cynllunio ac amser gweithredu.

**Cymorth ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd**

2.8 Awgrymodd sefydliadau ymbarél y byddai rhai lleoliadau nad ydynt yn cael eu harianni i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn elwa o gael cymorth gan Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn eu paratoi i ddechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol.

2.9 Dywedodd lleoliadau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd y byddai angen mwy o adnoddau, hyfforddiant ac arian i ehangu a/neu addasu eu hadeiladau er mwyn eu galluogi i ddechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

2.10 Yn ogystal, byddai angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad clir arnynt ar gynnwys a dulliau cyflenwi'r cwricwlwm ac ynghylch dogfennu cynnydd ac adborth plant, wedi'u teilwra yn ôl math o leoliad. Dylid cyfuno'r cymorth hwn ag ymweliadau rheolaidd gan athro ymgynghorol a fyddai'n darparu arweiniad a rhannu syniadau ar gyfer arferion effeithiol.

**Effaith materion ariannol**

2.11 Er nad yw'n berthnasol yn uniongyrchol i'r math o gymorth a ddarperir gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, mae materion ariannol yn bryder uniongyrchol i leoliadau a rhanddeiliaid o ran cynaliadwyedd y sector nas cynhelir yn y dyfodol.

2.12 Roedd yr anghysondeb o ran arian a dderbyniwyd gan leoliadau a gynhelir a nas cynhelir ar gyfer cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant yn fater allweddol. Mewn rhai achosion, mae arian y Cynnig wedi galluogi lleoliadau i

wella’r hyn a ddarperir ganddynt o ran addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae nifer o leoliadau yn ei chael hi'n anodd yn ariannol, ac mae eu sefyllfa wedi gwaethygu o ganlyniad i lefelau ariannu ar gyfer cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â nifer o randdeiliaid, maent wedi galw am addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen i gael ei hariannu mewn modd sy'n gyfartal â'r Cynnig Gofal Plant.

2.13 Gan dynnu sylw at yr anghysondeb mewn cyllid a dderbynnir gan leoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir ledled Cymru, mynegodd rhanddeiliaid yn ogystal y dylai awdurdodau lleol ledled Cymru ariannu'r holl leoliadau sy'n darparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn gyfartal, boed yn lleoliadau a gynhelir neu nas cynhelir a waeth beth yw eu lleoliad daearyddol.

2.14 Roedd rhai yn teimlo nad oedd dyraniad awdurdodau lleol o arian Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o hyd yn dryloyw neu yn unol ag anghenion y lleoliadau. Felly roedd lleoliadau a rhanddeiliaid yn teimlo y dylai awdurdodau lleol ymgynghori â lleoliadau yn y dyfodol ynglŷn â sut y dylid gwario'r arian yn unol â'u hanghenion a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â hynny.

**Oes angen meysydd cymorth ar leoliadau nad ydynt yn cael eu cyflenwi gan sefydliadau ymbarél ar hyn o bryd? Beth yw'r meysydd hyn?**

2.15 Yn gyffredinol, mae'r ymchwil yn awgrymu bod sefydliadau ymbarél yn diwallu anghenion cymorth eu lleoliadau. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd lle y gellid gwella'r cymorth. Mae gan y rhain oblygiadau ar gyfer gwaith cyflenwi gan sefydliadau ymbarél ond hefyd gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia addysg.

2.16 Mae cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn angen cymorth allweddol sydd heb ei ddiwallu ar gyfer llawer o leoliadau, a adroddwyd nad oedd ganddynt gymorth un i un, hyfforddiant, na chyngor ac arweiniad wrth gynnal gwaith asesu. Yn ogystal, tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i roi mwy o gymorth i leoliadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, ond nododd Llywodraeth Cymru fod defnydd awdurdodau lleol o’r arian ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol drwy'r Cynnig Gofal Plant yn anwastad.

2.17 Gwnaeth lleoliadau hefyd dynnu sylw at yr angen am gymorth ag agweddau ar gynnal busnes, gan gynnwys cyfrifeg, recriwtio a gweinyddiaeth.

2.18 Roedd cymorth TGCh a chyfleoedd i rannu arferion effeithiol wrth gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen â lleoliadau eraill hefyd yn brin. Deallir bod rhai awdurdodau lleol a chonsortia yn ehangu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir ar hyn o bryd er mwyn rhannu arferion effeithiol, ond mae'r gwaith hwn yn lled newydd.

2.19 Yn ogystal, nododd yr ymchwil rai anghenion sy'n ymwneud â chymorth, hyfforddiant a gwybodaeth, a diweddariadau i'r cwricwlwm mewn perthynas â'r Gymraeg. Trafodir hyn ymhellach o dan y cwestiwn ymchwil sy'n ymwneud â Cymraeg 2050 yn ddiweddarach.

**Oes unrhyw amrywiadau mewn angen yn ôl y math o leoliad nas cynhelir, categori iaith[4] y lleoliad, daearyddiaeth, nodweddion cymdeithasol-ddemograffig, strwythur y sefydliad neu faint y lleoliad ac ati?**

2.20 Yn arolwg y darparwr, er bod ychydig o leoliadau wedi crybwyll anghenion cymorth nas diwellir, roedd hyn yn fwy amlwg ymysg y cylchoedd chwarae cyn-ysgol ac yn llai amlwg mewn meithrinfeydd dydd. Roedd cyfradd y cylchoedd meithrin a'r gwarchodwyr plant a oedd yn adrodd anghenion nas diwellir hefyd yn isel.

2.21 Teimlai rhai rhanddeiliaid y dylai fod craidd cyffredin o gefnogaeth ar gael i bob lleoliad, waeth beth yw'r math, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu yn ôl yr angen.

2.22 Awgrymwyd bod lleoliadau â'r nodweddion canlynol yn wynebu heriau ychwanegol a oedd yn gofyn am fwy o gymorth:

- Lleoliadau mewn awdurdodau lleol a oedd â llai o arian i'w cefnogi
- Lleoliadau mewn ardaloedd gwledig
- Lleoliadau cyfrwng Cymraeg
- Lleoliadau sy'n derbyn plant o ystod oedran eang

[4] Diffiniwyd y categori iaith gan yr iaith y mae lleoliadau yn cyflenwi gofal plant ac addysg gynnar ynddi. Gweler yr atodiadau am fanylion llawn y geiriau a ddefnyddir yn holiadur arolwg y darparwr a chanllawiau pwnc.

- Lleoliadau sy'n derbyn plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol[5].

**Beth yw'r canfyddiadau o ran goblygiadau posibl diwygio'r cwricwlwm ar ddarpariaeth? Beth yw'r goblygiadau a ragwelir?**

2.23 Cyhoeddwyd fframwaith y cwricwlwm newydd hanner ffordd drwy'r ymchwil hon. O ganlyniad, nid oedd gan y rhan fwyaf o leoliadau a rhanddeiliaid lawer o amser i ddatblygu dealltwriaeth o sut y byddai angen iddynt addasu eu darpariaeth yn unol â'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd.

2.24 Roedd ymwybyddiaeth yn gymysg o ran y newidiadau y gallai fod angen eu gwneud ond roedd darparwyr addysg cofrestredig yn fwy ymwybodol na'r rheini nad ydynt yn ddarparwyr addysg cofrestredig. Roedd diffyg eglurder ymhlith lleoliadau o ran yr hyn byddai'n digwydd i'r Cyfnod Sylfaen yn y cwricwlwm newydd a sut y mae'n berthnasol i'r sector nas cynhelir, gan gynnwys oedran y plant y mae'n berthnasol iddynt a pha effaith y byddai'n ei chael ar y ddarpariaeth.

2.25 Cafwyd safbwyntiau cymysg o ran goblygiadau'r cwricwlwm newydd ar ddarpariaeth. Cafwyd teimlad cryf na fyddai angen i leoliadau addasu eu darpariaeth lawer os oeddent eisoes yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel oherwydd byddai'r cwricwlwm newydd yn gweithredu yn unol ag egwyddorion sy'n debyg i rai'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, awgrymwyd yn ogystal y byddai’r diffyg rhagnodi yn y cwricwlwm newydd o'i gymharu â’r trefniadau blaenorol yn gofyn am newid sylweddol mewn diwylliant ymysg lleoliadau.

2.26 Nododd yr ymchwil angen am fwy o waith ymgysylltu er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth glir, gyson a hygyrch am y cwricwlwm newydd drwy adnoddau, hyfforddiant a digwyddiadau.

**Beth yw cryfderau'r dull cymorth presennol drwy sefydliadau ymbarél? Oes modd gwella ar y rhain? Ym mha ffyrdd?**

**Cefnogi lleoliadau**

2.27 Roedd y rhan fwyaf o leoliadau yn gwerthfawrogi'r cymorth a gafwyd ganddynt gan eu sefydliadau ymbarél. Maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth, yr adnoddau, yr arweiniad a'r gefnogaeth bwrpasol a gawsant yn arbennig a'r cyfarfodydd a'r

[5] Plant a fagwyd yn defnyddio ieithoedd ar wahân i Saesneg, gan gynnwys y Gymraeg.

cynadleddau a gynhaliwyd gan sefydliadau ymbarél. Roedd derbyn e-byst a diweddariadau yn rheolaidd wedi helpu lleoliadau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pwysig. Gall arddull y Gymraeg ysgrifenedig a geir yn y canllawiau a ddarperir gan sefydliadau ymbarél weithiau fod yn anodd i leoliadau ei ddeall a dylai fod yn fwy hygyrch.

2.28 Roedd lleoliadau yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gadarn a oedd ganddynt â'u Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen a'i ddull cyfeillgar a chadarnhaol o weithredu. Roedd y rhan fwyaf o leoliadau hefyd yn gwerthfawrogi'r cyngor a chymorth roeddent yn eu derbyn gan eu Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen yn fawr iawn. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai cryfderau allweddol y cymorth a roddir gan Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen yw ei hyblygrwydd a'i natur ddwys ac wedi'i thargedu, sy'n galluogi lleoliadau i nodi a mynd i'r afael â meysydd gwannach. Amlygwyd hefyd allu Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen i harneisio a theilwra eu cymorth i ddiwallu anghenion staff â chyfrifoldebau gwahanol o fewn lleoliadau.

2.29 Teimlwyd bod Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen bellach yn cyflenwi mwy o hyfforddiant a digwyddiadau ar gyfer rhannu arferion effeithiol â lleoliadau, sy'n cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, dywedwyd bod maint y gefnogaeth uniongyrchol a ddarperir i leoliadau gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod angen ei chynyddu yn y dyfodol i'w galluogi nhw i godi safonau ansawdd, yn enwedig mewn perthynas â gofynion y cwricwlwm newydd ac arolygu deuol (Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn).

2.30 Yn unol â hyn, gwnaeth Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen adrodd y byddai angen iddynt ehangu eu gwybodaeth a'u harbenigedd ynghylch addysg gynnar, datblygu'r Gymraeg, a chefnogi lleoliadau i ymateb i arolygiadau Estyn yn y dyfodol.

2.31 Gwerthfawrogwyd y cymorth roedd lleoliadau yn ei dderbyn gan awdurdodau lleol / consortia addysg drwy eu hathrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar. Y cryfderau a nodwyd oedd y cymorth maent yn ei ddarparu sydd wedi'i deilwra'n unigol, eu hygyrchedd dros y ffôn neu drwy e-byst pan na cheir ymweliadau, cyflenwi hyfforddiant o safon uchel, a'u perthynas waith gadarnhaol â lleoliadau.

2.32 Oherwydd bod y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir yn derbyn llai o gymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar bellach, mae hyn yn cael effaith ar y

cymorth sydd ei angen gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r diffyg athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi achosi problemau ar gyfer rhai lleoliadau cyfrwng Cymraeg, sydd angen mynediad parhaus i gymorth cyfrwng Cymraeg. Ystyriwyd bod newid athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar â chymorth gan ysgolion cynradd lleol yn ddull llai effeithiol ble mae hyn wedi digwydd. Ar gyfer y dyfodol, roedd rhanddeiliaid a lleoliadau yn teimlo y byddai angen mwy o gymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar i'w helpu i gynnal ansawdd addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

**Cydweithredu a pherthnasau â rhanddeiliaid**

2.33 Gwerthfawrogwyd y gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ymbarél a Llywodraeth Cymru ond y gallai weithiau fod yn fwy cyson o ran ymgysylltu. Ystyriwyd bod gweithio ar y cyd wedi codi ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o anghenion a phryderon y sector nas cynhelir.

2.34 Ystyriwyd hefyd fod perthnasau gwaith cadarnhaol yn bodoli rhwng awdurdodau lleol, consortia addysg, athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, sefydliadau ymbarél a Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, roedd cryfder y perthnasau hyn yn amrywio fesul awdurdod lleol a chonsortiwm addysg. Lle'r oedd cyfathrebu wedi bod yn llai effeithiol rhwng y partïon hyn, roedd hyn wedi arwain weithiau at leoliadau yn derbyn negeseuon cymysg. Bydd cyfathrebu rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon yn darparu gwybodaeth gyson ar gyfer lleoliadau yn hanfodol yn y dyfodol.

2.35 Roedd safbwyntiau ynghylch perthnasau gwaith rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen eu hunain yn gymysg. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru berthnasau gwaith cryf nad oes angen eu gwella. Roedd eraill yn teimlo y dylai Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen rannu arferion a darpariaeth hyfforddiant effeithiol rhyngddynt yn fwy aml yn y dyfodol er mwyn cryfhau'r berthynas rhyngddynt ac ansawdd y cymorth y maent yn ei ddarparu i leoliadau.

**A yw'r sector nas cynhelir yn gallu ymateb i newidiadau mewn polisi addysg gynnar?**

2.36 Mae ymwybyddiaeth lleoliadau o addysg a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn isel iawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn cefnogi ei egwyddorion o ran cyflenwi addysg gynnar a gofal plant mewn modd di-dor.

2.37 Nodwyd nifer o fathau o gymorth er mwyn galluogi gwaith i baratoi ar gyfer addysg a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys hyfforddiant, cyllid, a chymorth gan athrawon ymgynghorol. Ystyriwyd bod cyflenwi'r cymorth yn gyfrifoldeb ar gyfer awdurdodau lleol, sefydliadau ymbarél a Llywodraeth Cymru.

2.38 Fel gyda mwyafrif y pynciau eraill a drafodwyd, ystyriwyd bod cysondeb rhwng lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir yn ystod ymgynghoriadau cynnar, hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth ariannol hefyd yn bwysig.

2.39 Er bod y sector nas cynhelir wedi addasu'n llwyddiannus i nifer o newidiadau mewn polisi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaeth rhai o'r ymatebwyr rybuddio y dylid cymryd gofal i beidio â gorlwytho lleoliadau â newidiadau newydd mewn polisi pan oeddent yn dal i weithio ar addasu i'r llwyth o bolisïau newydd a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Sut y dylid strwythuro cymorth fel y gellir ymateb orau i bolisïau trawsbynciol fel Cymraeg 2050?**

2.40 Ystyriwyd hyfforddiant, cymorth ar gyfer y Gymraeg a chymorth gan athrawon ymgynghorol fel y tri math gorau y gallai lleoliadau gael help er mwyn ymateb i nodau Cymraeg 2050 yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd. Teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r cymorth hwn ac y dylai sefydliadau ymbarél, â chymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia addysg, ei gyflenwi.

2.41 Mae angen hyfforddiant mewn lleoliadau lle mae staff yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg yn barod sy'n eu cefnogi i ddysgu geirfa Gymraeg mwy datblygedig. Mewn achosion lle mae'r staff yn deall ychydig iawn o Gymraeg neu ddim yn deall Cymraeg o gwbl, gwnaethant adrodd y dylai hyfforddiant ddechrau ar lefel sylfaenol. Gan ailadrodd pwyntiau a wnaed mewn mannau eraill, dylid cyflenwi hyfforddiant mewn modd hygyrch, ar adegau cyfleus ac mewn lleoliadau cyfleus.

2.42 Gwnaeth lleoliadau hefyd adrodd bod angen cymorth arnynt i annog rhieni i sylweddoli gwerth addysg Gymraeg a'u hannog i siarad mwy o Gymraeg yn y cartref. Yn ogystal, roedd gan nifer o leoliadau ddiffyg adnoddau Cymraeg fforddiadwy o ansawdd da fel llyfrau, posteri a CDau. Byddai galluogi mynediad i'r rhain yn ddefnyddiol.

2.43 Nodwyd bod angen mwy o staff gyda'r sgiliau iaith a chymwysterau cywir i gefnogi gyda chyflenwi Cymraeg 2050 a bod hyn yn peri her sylweddol mewn nifer o ardaloedd ar hyn o bryd.

**Sut y dylid strwythuro cymorth yn y dyfodol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd mewn lleoliadau nas cynhelir?**

2.44 Bydd canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu sydd ar ddod awdurdodau lleol, consortia a Llywodraeth Cymru â lleoliadau yn bwysig ar gyfer llywio strwythur y cymorth y byddant yn ei gyflenwi i leoliadau er mwyn eu galluogi i gyflenwi'r cwricwlwm newydd yn y dyfodol.

2.45 Pwysleisiwyd yr angen i leoliadau a gynhelir a nas cynhelir dderbyn gwybodaeth gyson a chymorth cyfartal gan awdurdodau lleol, consortia a sefydliadau ymbarél i'w galluogi i gyflawni'r cwricwlwm newydd i'r un safonau. Awgrymwyd gweithio mewn partneriaeth a chyflenwi hyfforddiant a gwybodaeth a rennir ar gyfer lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir fel un ffordd o gyflawni hyn. Dylai sefydliadau ymbarél, awdurdodau lleol a chonsortia rannu cyfrifoldeb ar gyfer ffurfio a chyflenwi'r holl hyfforddiant a gwybodaeth er mwyn sicrhau cysondeb.

2.46 Nododd lleoliadau nifer o fathau o gymorth sydd eu hangen arnynt i gyflenwi'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd, gan gynnwys:

- Hyfforddiant ar ymarfer effeithiol, cynllunio, dysgu arsylwadol, cynnwys y cwricwlwm, prosesau asesu, ac addasu'r cwricwlwm er mwyn galluogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael mynediad llawn ato
- Cyfres o gynadleddau neu sioeau teithiol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth am y cwricwlwm newydd â phob lleoliad ledled Cymru
- Adnoddau addas.

2.47 Dylai sefydliadau ymbarél, awdurdodau lleol, consortia addysg a Llywodraeth Cymru egluro pa gymorth y gallai lleoliadau ddisgwyl ei gael ac o ble y bydd yn dod er mwyn rheoli disgwyliadau a chynorthwyo â chynllunio.

**Sut y gellir cynrychioli buddiannau'r sector nas cynhelir orau o fewn datblygiadau polisi addysg strategol ar lefel genedlaethol?**

2.48 Nodwyd nifer o ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gynrychioli buddiannau'r sector nas cynhelir wrth greu polisïau yn y dyfodol:

- **Trin lleoliadau nas cynhelir fel lleoliadau sy'n gyfartal â lleoliadau a gynhelir ac annog rhanddeiliaid eraill i wneud yr un peth.** Mae anghydraddoldebau ymddangosiadol yn bodoli ar hyn o bryd rhwng y sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir o ran y math a maint o wybodaeth maent yn ei derbyn, canfyddiadau neu gamsyniadau am safonau eu darpariaeth, a gwerth eu cyfraniad tuag at gyflenwi addysg gynnar a gofal plant
- **Cynnwys lleoliadau nas cynhelir yn llawn mewn ymgynghoriadau am newidiadau posibl o ran polisïau ac ymarferion.** Mae gwelliannau yn y maes hwn wedi'u croesawu ac mae rhanddeiliaid yn credu ei fod yn hanfodol yr ymgynghorir yn gynnar ynghylch materion sy'n cael effaith ar leoliadau
- **Sicrhau bod polisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu yn gyson gan awdurdodau lleol ledled Cymru** er mwyn sicrhau bod yr holl leoliadau yn cael eu trin yn gyfartal a bod gan rieni ddewis go iawn o ran darpariaeth addysg gynnar
- **Ariannu'r addysg gynnar a'r Cynnig Gofal Plant yn gyfartal,** waeth beth yw amgylchiadau'r teulu
- **Ystyried gofynion proses arolygu Estyn ar leoliadau nas cynhelir**, gan fod nifer o leoliadau yn ei chael hi'n anodd eu bodloni ar hyn o bryd.
- **Parhau i ariannu sefydliadau ymbarél yn ddigonol er mwyn eu galluogi i barhau i gynorthwyo lleoliadau nas cynhelir**
- **Symleiddio ac egluro cymwysterau yn y sector addysg gynnar** er mwyn cefnogi lleoliadau i sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau a phrofiad cywir.

# 3. Methodoleg

## Trosolwg

3.1 Roedd y prosiect yn cynnwys y camau canlynol.

- Adolygiad desg o ddogfennau swydd-ddisgrifiadau ac adroddiadau monitro Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen
- Cyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn â rhanddeiliaid allweddol o'r canlynol:[6]
  - Llywodraeth Cymru (6)
  - sefydliadau ymbarél (8)
  - awdurdodau lleol (2)
  - chonsortia addysg[7] (2).
- Arolwg ar-lein o leoliadau nas cynhelir (166)
- Arolwg dros y ffôn o leoliadau nas cynhelir (50)
- Cyfweliadau manwl dros y ffôn â lleoliadau nas cynhelir (28).

3.2 Rhoddwyd cyfle i bob cyfranogwr gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Adolygiad o ddogfennaeth

3.3 Adolygwyd swydd-ddisgrifiadau presennol y pedwar Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen o bob un o'r sefydliadau ymbarél. Datblygwyd y rhain yn wreiddiol gan y sefydliadau ymbarél a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Roedd pob un yn amrywio er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau aelodaeth pob sefydliad. Yn ogystal, adolygwyd adroddiadau monitro chwarterol sy'n amlinellu crynodeb o weithgareddau a rhagamcanion Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd y gweithgareddau adolygu dogfennau hyn yn darparu cyd-destun a dealltwriaeth er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r arolygon a chanllawiau pwnc.

[6] Mae'r rhifau o fewn cromfachau yn dangos yr arolygon a gwblhawyd a dderbyniwyd / y cyfweliadau a gyflawnwyd

[7] Ceir pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru sy'n gyfrifol am wasanaethau gwella ysgolion ledled eu hawdurdodau lleol ac ysgolion perthnasol.

**Cyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn â rhanddeiliaid allweddol**

3.4 Cynhaliwyd cyfweliadau manwl wyneb yn wyneb ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb dros y Cyfnod Sylfaen, gofal plant a'r Gymraeg. Cynhaliwyd cyfweliadau manwl dros y ffôn ag uwch-reolwyr a Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen o bob un o'r sefydliadau ymbarél, a chydag uwch-staff o dimau Cyfnod Sylfaen a Blynyddoedd Cynnar yr awdurdodau lleol a chonsortia addysg. Cafodd cyfanswm o 18 cyfweliad manwl eu cynnal. Gwelir y canllaw pwnc lled-strwythuredig a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid yn Atodiad 1.

**Arolwg ar-lein o leoliadau nas cynhelir**

3.5 Cynhaliwyd arolwg ar-lein o leoliadau nas cynhelir gydag aelodau o'r sefydliadau ymbarél rhwng 8 a 30 Mai 2019. Roedd aelodau yn gymwys i gymryd rhan p'un a oeddent yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd ai peidio. Anfonwyd dolen at yr arolwg mewn e-bost cychwynnol i sefydliadau ymbarél, a wnaeth hyrwyddo'r arolwg wedi hyn trwy eu sianeli cyfathrebu arferol (cylchlythyrau, gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac apêl uniongyrchol lle bo hynny'n bosibl). Nodir y pynciau a gwmpasir yn yr arolwg ar-lein yn Atodiad 2.

3.6 Gan fod sampl yr arolwg ar-lein yn hunanddewisol, nid oedd yn bosibl sicrhau bod sampl gynrychiadol yn cael ei chasglu o'r pedwar math o leoliad nas cynhelir (meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, gwarchodwyr plant a chylchoedd chwarae cyn-ysgol) ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.


**Arolwg dros y ffôn o leoliadau nas cynhelir**

3.7 Cafodd yr ymateb i'r arolwg ar-lein hwb gan 50 o gyfweliadau dros y ffôn ag ymarferwyr o leoliadau nas cynhelir, yn defnyddio'r un cynnwys arolwg ag yn y fersiwn ar-lein, yn ystod mis Mai 2019. Darparwyd y wybodaeth am leoliadau a'u manylion cyswllt gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac roedd yn cynnwys y rheini a oedd yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd a'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny. Oherwydd y cafwyd llai o ymatebion gan feithrinfeydd dydd a chylchoedd chwarae cyn-ysgol i'r arolwg ar-lein, roedd y rhain yn ffocws arbennig ar gyfer y cyfweliadau ategol. Lle bo hynny'n bosibl, cafodd yr elfen o

orgyffwrdd rhwng yr arolygon ar-lein a dros y ffôn ei lleihau trwy groesgyfeirio data a gwaith sgrinio yn yr arolwg dros y ffôn. Ni nodwyd unrhyw ddyblygu.

3.8 Cyfunwyd canlyniadau'r arolygon ar-lein a dros y ffôn at ddibenion dadansoddi ac adrodd. Mae Ffigur 1 yn dangos y dadansoddiad o'r sampl arolwg gyfunedig a gyflawnwyd.

**Ffigur 1: Dadansoddiad o samplau'r arolygon ar-lein a dros y ffôn a gyflawnwyd yn ôl math o leoliad,[8] rhanbarth, iaith a maint**




Sampl = 216 o ymatebwyr i'r arolwg

**Cyfweliadau manwl dros y ffôn â lleoliadau nas cynhelir**

3.9 Cynhaliwyd cyfweliadau manwl dros y ffôn â rheolwyr neu arweinwyr o leoliadau nas cynhelir, yr oedd rhai ohonynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd ac roedd rhai ohonynt yn peidio â gwneud hynny. Rhoddodd y

[8] Nid yw nifer y lleoliadau sy'n rhan o'r sampl o arolygon ar-lein a dros y ffôn yn gwneud cyfanswm o 100% gan fod "math o leoliad" yn gwestiwn â nifer o atebion. Dewisodd chwech o'r 216 o ymatebwyr i'r arolwg fwy nag un math o leoliad.

cyfweliadau ar gyfer lleoliadau gyfle i gyfranogwyr drafod eu barn ynghylch cymorth presennol ac yn y dyfodol ar gyfer cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn fanwl. Roedd y mwyafrif yn hunanddewis drwy gwestiwn ar ddiwedd yr arolwg ar-lein a ofynnodd a oeddent yn fodlon cymryd rhan mewn ymarfer dilynol byr dros y ffôn. Roedd hyn yn cael ei ategu gan gysylltiadau ychwanegol a ddarparwyd gan sefydliadau ymbarél ar gyfer mathau o leoliadau a oedd yn llai niferus. Cynhaliwyd 28 o gyfweliadau manwl dros y ffôn gyda lleoliadau ledled Cymru – roedd nifer yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd ond nid oedd nifer bychan ohonynt yn gwneud hynny. Dosbarthwyd y cyfweliadau manwl ar draws y lleoliadau canlynol:

- Pum meithrinfa ddydd
- Naw cylch meithrin
- Chwe gwarchodwr plant
- Wyth cylch chwarae cyn-ysgol.

3.10 Gwnaeth y sampl hefyd ystyried:

- Categorïau iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog)
- Lleoliadau (ardaloedd trefol/gwledig/ymylol)
- Dangosyddion amddifadedd
- Strwythur a maint y sefydliad.

3.11 Gwelir y canllaw pwnc lled-strwythuredig a ddefnyddiwyd yn Atodiad 3.

3.12 Er gwaethaf yr anhawster a brofwyd wrth recriwtio cyfweleion mewn lleoliadau nas cynhelir, roedd yr ymchwil yn cynnwys sampl lled gytbwys o gyfweleion o bob un o'r pedwar math o leoliad ac o bob rhanbarth Cymru a oedd â nodweddion amrywiol. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod ystod o safbwyntiau a phrofiadau wedi'u casglu o wahanol fathau o leoliadau.

**Cyfyngiadau o ran yr ymchwil**

3.13 Casglodd yr arolwg ar-lein safbwyntiau o leoliadau nas cynhelir ledled Cymru. Fodd bynnag, mae maint y sampl yn lled isel, o ystyried bod hyd at 4,000 o leoliadau

gofal plant ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae oddeutu 3,300 ohonynt yn aelodau o un neu fwy o sefydliadau ymbarél, a 216 o ymatebwyr yn unig a wnaeth gwblhau’r arolwg i ddarparwyr ar-lein neu dros y ffôn. Mae hyn yn golygu, er bod canfyddiadau'r arolwg yn arwydd o'r anghenion cymorth sydd eu hangen ar leoliadau nas cynhelir ar gyfer cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, fod nifer o leoliadau eraill o hyd na rannodd eu profiadau a'u barn.

3.14 O ganlyniad i’r niferoedd bach o ymatebwyr yn ôl math o leoliad yn yr arolwg ffôn ac ar-lein, ni ellir cymryd y safbwyntiau a fynegwyd fel bod o reidrwydd yn gynrychioliadol o bob math o leoliad ledled Cymru yn gyffredinol. Mae nifer o'r siartiau yn yr adroddiad hwn yn dangos canlyniadau'r arolwg ar-lein yn ôl math o leoliad. Gan fod maint y sampl ar y lefel is-grŵp hon yn gymharol fach mewn termau ystadegol, dylid ystyried y canlyniadau yn ofalus. Dangosir nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn yn gyffredinol ac ar gyfer pob is-grŵp o dan y siartiau. Dylid ystyried siartiau â sampl gyffredinol neu is-grŵp o 50 neu lai o ymatebwyr yn ofalus ac mae'r rhain wedi'u nodi lle bo'n briodol.

3.15 Roedd cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid a lleoliadau yn cynnwys meintiau sampl bach a wnaeth cyfyngu ar yr ystod o fewnwelediadau yr oedd modd eu cael ganddynt. Darparodd y cyfweliadau hyn fewnwelediad gwerthfawr i safbwyntiau a phrofiadau ond maent ond yn arwydd o'r rheini a gafodd eu cyfweld heb fod o reidrwydd yn nodi safbwyntiau ehangach y sector a rhanddeiliaid eraill.

# 4. Addysg gynnar: cyflenwi cyfredol

4.1 Yn yr adran hon, amlinellir y canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â chyflenwi addysg gynnar ar sail ymatebion i'r arolwg ar-lein a gwblhawyd gan leoliadau a chyfweliadau manwl dilynol dros y ffôn â lleoliadau a rhanddeiliaid.


**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Mae rhai lleoliadau wedi drysu ynghylch gofynion cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen
- Mae nifer o leoliadau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn glynu at yr egwyddorion o dan y safonau gofynnol cenedlaethol
- Roedd 55% o leoliadau nad ydynt wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd fel darparwr addysg cofrestredig wedi ystyried dod yn ddarparwr addysg cofrestredig ond nid yw llawer ohonynt yn gwybod digon o ran yr hyn sydd ynghlwm
- Mae rhesymau dros beidio â chyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth, rhesymau ariannol a chyfyngiadau gan yr awdurdod lleol

**Darpariaeth addysg gynnar gyfredol**

4.2 Gofynnwyd i'r lleoliadau a oedd yn ymateb i'r arolwg ar-lein am eu statws fel darparwr addysg cofrestredig.

**Ffigur 2: Ydych chi wedi cael eich awdurdodi gan eich awdurdod lleol i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen?**




Sampl o 216 = 22* o gylchoedd chwarae cyn-ysgol; 62 o gylchoedd meithrin; 67 o feithrinfeydd dydd; 68 o warchodwyr plant (*rhybudd – sampl isel)

4.3 Gwnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg o leoliadau cylchoedd chwarae cyn-ysgol (95%), cylchoedd meithrin (82%) a meithrinfeydd dydd (78%) ddatgan eu bod yn ddarparwyr addysg cofrestredig ar hyn o bryd. Gwnaeth 29% o warchodwyr plant gadarnhau eu bod yn ddarparwyr addysg cofrestredig a'u bod yn cael eu harolygu ar y cyd gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).


4.4 Ar sail data Estyn ac AGC, roedd 18 o'r 28 lleoliad a gafodd eu cyfweld yn fanwl yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, ac nid oedd deg ohonynt yn gwneud hynny. Ar y dechrau, dywedodd dau o'r deg lleoliad nad oeddent yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd eu bod yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, yn ystod cyfweliadau manwl, daeth yn amlwg nad oeddent wedi'u hariannu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Atgyfnerthodd hyn ganfyddiadau'r arolwg, gan awgrymu bod rhai lleoliadau wedi'u drysu ynglŷn â gofynion cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

4.5 Dywedodd rhai lleoliadau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd eu bod yn glynu at egwyddorion y Cyfnod Sylfaen o dan y safonau gofynnol cenedlaethol. Tynnodd rhai sylw at y ffaith eu bod yn teilwra'u darpariaeth at ddiddordebau'r plant ac at yr hyn maent yn ei ddysgu yn yr ysgol er mwyn hwyluso'r cyfnod pontio. Gwnaeth rhai o'r rhanddeiliaid bwysleisio hefyd fod lleoliadau nad oeddent yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn aml yn darparu gofal plant o ansawdd uchel yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

> “[Maent] yn cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen, ond nid ydynt yn derbyn cyllid ar ei gyfer a dyna'r gwahaniaeth, ac nid ydynt yn cael eu harolygu gan Estyn arno i'r un safon ag y byddent gan Estyn. Mae gofal plant o ansawdd yng ngofal plant o ansawdd. Mae gofal plant o ansawdd yn ymgorffori egwyddorion y Cyfnod Sylfaen felly maent yn gwneud hyn yn barod; maent yn cynllunio ac yn defnyddio proffiliau'r Cyfnod Sylfaen i asesu, a'r unig beth nad yw'n digwydd yw'r cyllid sy'n dilyn hynny.” (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Rhesymau dros beidio â bod yn ddarparwr addysg cofrestredig**

**Ffigur 3: Pam nad ydych yn ddarparwr addysg cofrestredig cymeradwy ar hyn o bryd?**




Sampl = 39 o ymatebwyr (rhybudd – sampl isel)

4.6 Roedd 55% o leoliadau nad oeddent wedi'u cymeradwyo fel darparwr addysg cofrestredig ar hyn o bryd wedi ystyried dod yn un. Dywedodd oddeutu hanner (54%) o'r rheini a oedd wedi ystyried dod yn un 'nad oeddent yn gwybod digon o ran yr hyn y mae'n ei olygu'. Dywedodd oddeutu traean (33%) nad oeddent wedi'u cymeradwyo gan nad oedd eu 'hawdurdod lleol yn caniatáu i ddarparwyr nas cynhelir i ddarparu addysg gynnar'.

4.7 Yn ystod cyfweliadau manwl, dywedodd lleoliadau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd fod hyn oherwydd un neu fwy o'r rhesymau canlynol, sydd yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg yn fras:

**<u>Rhesymau ariannol</u>: dywedodd nifer nad oedd yn hyfyw yn ariannol i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen oherwydd y cyfraddau is a dalwyd ar gyfer**

**cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o'i gymharu â gofal plant (trafodir ariannu anghyfartal addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant mewn man arall – gweler tudalen** *Error! Bookmark not defined.***).**

Cyfyngiadau gan awdurdodau lleol**: dywedodd nifer o leoliadau nad oedd rhai awdurdodau lleol yn caniatáu i leoliadau nas cynhelir gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, neu fynnu eu bod yn gwneud hyn, a bod yr addysg hon yn cael ei chyflenwi'n gyfan gwbl mewn ysgolion.[9] Nododd rhai lleoliadau fod yr angen dros ddefnyddio nifer o leoliadau i gwmpasu gofal plant ac addysg gynnar yn cyfyngu ar ddewis rhieni a bod hyn yn arwain at gost ychwanegol, tarfiad ac anghyfleustra. Mae rhai o'r farn y gall hyn olygu nad yw rhieni yn cael yr addysg gynnar y mae ganddyn nhw hawl iddi.**

Diffyg ymwybyddiaeth o addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen**: nid yw rhai lleoliadau yn eglur o ran beth yw addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, beth sydd angen ei wneud i'w chyflenwi, a sut i gofrestru fel darparwr addysg cofrestredig.**

Cael mynediad at hyfforddiant**: dywedodd gwarchodwyr plant sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain fod hyn yn broblem benodol iddynt a bod dod o hyd i staff i gyflenwi ar eu cyfer er mwyn mynychu hyfforddiant yn anodd. Mae talu ar gyfer cyrsiau priodol a staff llanw hefyd yn broblem.**

Sgiliau a chymwysterau**: dywedodd rhai lleoliadau nas cynhelir eu bod yn cael eu cynnal gan gyn-athrawon neu eraill sydd â'r sgiliau a chymwysterau cywir i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Canfuwyd bod ganddynt fantais naturiol dros eraill nad oes ganddynt y sgiliau a chymwysterau hyn.**

Lleoliad sy'n agos at ysgol gynradd**: roedd ychydig o leoliadau wedi'u lleoli ger neu ar yr un safle ag ysgol gynradd sydd yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn barod. Gallai plant fynd at y darparwyr hyn ar gyfer yr hawl gofal plant ac i'r ysgol ar gyfer addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai achosion, mae lleoliadau yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddarparu trefniant cydgysylltiedig.**

[9] Dau awdurdod lleol yng Nghymru yn unig sydd yn gwrthod caniatáu lleoliadau nas cynhelir i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe).

4.8 Roedd gan leoliadau syniadau tebyg o ran y rhesymau pam nad oedd lleoliadau wedi'u cymeradwyo ar gyfer addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Roedd y rhan fwyaf yn ansicr ynglŷn â maint y galw sy'n bodoli ymysg lleoliadau ond roedd rhai, yn enwedig sefydliadau ymbarél, yn teimlo y byddai mwy o leoliadau yn dymuno dod yn gofrestredig petaent yn cael yr hawl gan eu hawdurdodau lleol a phetaent yn derbyn yr hyfforddiant a chymorth cywir i wneud cais i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y gallai lleoliadau mewn ardaloedd gwledig ystyried bod y syniad yn fwy dymunol oherwydd bod llai o gystadleuaeth. Rhesymau eraill a nodwyd gan randdeiliaid pam nad oedd lleoliadau wedi'u cofrestru oedd:

Cyllid**: dyma'r prif reswm a ddyfynnwyd gan randdeiliaid. Hyd yn oed pe bai awdurdodau lleol yn fodlon ariannu darparwyr newydd i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, nid oes llawer o gymhelliant ariannol ar gyfer lleoliadau i wneud hynny.**

Prosesau tendro**: roedd rhai yn teimlo bod y broses ymgeisio yn gallu bod yn annymunol i ddarparwyr posibl a bod ganddi ogwydd mewn rhai ardaloedd tuag at leoliadau mwy, sy'n fwy hyfyw yn ariannol, yn hytrach na lleoliadau sy'n llai o faint. Gallai hyn leihau'r dewis i rieni yn ogystal.**

Canfyddiadau o ran ansawdd y ddarpariaeth**: nododd rhai bod camsyniad ymysg rhai awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni nad yw darpariaeth nas cynhelir mor dda ag y mae mewn lleoliadau a gynhelir.**

Cadw lleoliadau presennol yn weithredol**: gall hyn weithiau fod yn flaenoriaeth dros annog mwy o leoliadau i ddechrau** cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

Y broses arolygu deuol**: mae hyn yn creu baich gweinyddol ychwanegol ar gyfer lleoliadau a gall fod yn frawychus.**

Cymwysterau: nododd rhanddeiliaid fod rhai lleoliadau wedi'u drysu ynglŷn â pha gymwysterau sydd eu hangen arnynt i ddechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ffaith nad yw cymwysterau yn drosglwyddadwy rhwng y sectorau gofal plant ac addysg hefyd yn broblem.

4.9 Petai mwy o leoliadau nas cynhelir yn dechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, byddai hyn yn arwain at oblygiadau ar gyfer lleoliadau a gynhelir, yn ôl nifer o randdeiliaid.

> "Rydych yn cael eich cyfyngu o ran nifer y lleoliadau sy'n gallu cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen am ei bod yn fath o farchnad sy'n cael ei harwain gan niferoedd. Ar gyfer y plant yw nifer y lleoedd a ariennir. Mae hynny yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n gallu ei chyflenwi yn awtomatig. Ni allwch greu lleoedd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Pa gymorth byddai ei angen i alluogi lleoliadau i ystyried dod yn ddarparwr addysg cofrestredig?**

4.10 Dywedodd lleoliadau a oedd wedi ystyried cael eu cymeradwyo y byddai angen cymorth arnynt i'w galluogi i ddechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chanllawiau clir ynghylch:

- **Cynnwys y cwricwlwm a dulliau cyflenwi, wedi'u teilwra yn ôl y math o leoliad. Gellid cyflenwi hyn drwy gyrsiau wedi'u cyfuno â chyswllt a chymorth rheolaidd gan gynghorydd neu athro ymgynghorol a allai rannu syniadau o ran ymarfer effeithiol a darparu arweiniad ar welliannau petai eu hangen.**
- **Dogfennu cynnydd y plant ac adborth – er enghraifft, drwy broses hygyrch iawn fel system fewngofnodi i gofnodi gweithgareddau dyddiadur dyddiol. Gallai rhai cael eu hannog i beidio â chael eu cymeradwyo oherwydd canfyddiadau am y llwyth gwaith fyddai'i angen i reoli'r asesu a dogfennaeth sydd ynghlwm ar hyn o bryd drwy broffil y Cyfnod Sylfaen.**

4.11 Dywedodd rhai lleoliadau y byddai hefyd angen cyllid cyfalaf neu gymorth grantiau arnynt i ehangu eu safleoedd er mwyn gallu dechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

## 5. Addysg gynnar: cymorth ar gyfer y sector a rôl Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen


5.1 Gofynnwyd i leoliadau am eu hymwybyddiaeth o sefydliadau ymbarél a rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen a pha gymorth y cawsant ganddynt a chan rhanddeiliaid eraill. Rhoddodd rhanddeiliaid eu safbwyntiau yn ogystal ar sut mae rôl Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf a beth fyddai'i angen o bosibl yn y dyfodol o fewn cyd-destun darpariaeth arall sydd ar gael i ddarparwyr.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Mae darparwyr addysg cofrestredig fel arfer yn fwy ymwybodol na darparwyr nad ydynt yn gofrestredig fod sefydliadau ymbarél yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen
- Mae rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen wedi dod yn fwy heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae adnoddau wedi'u hymestyn
- Mae cryfderau cymorth gan Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys cymorth hyblyg a chymorth sydd wedi'i deilwra ar gyfer lleoliadau, hyfforddiant a digwyddiadau
- Y meysydd allweddol sydd angen cymorth yw hyfforddiant, adnoddau a gwybodaeth gyson
- Mae'n anodd cael mynediad at hyfforddiant oherwydd y gost a'r effaith ar adnoddau a hoffai sefydliadau ymbarél ehangu'r hyfforddiant a gynigir
- Mae nifer yn teimlo y dylai rhai lleoliadau nad ydynt yn ddarparwyr addysg cofrestredig allu cael mynediad at adnoddau
- Ceir anghydbwysedd o ran gwerth canfyddedig y sector nas cynhelir o'i gymharu â'r sector a gynhelir
- Mae materion ariannol yn cael effaith fawr ar gynaliadwyedd y sector
- Mae anghenion cymorth ychwanegol yn cynnwys rhoi cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, gweinyddiaeth fusnes a TGCh, a'r Gymraeg.

## Sefydliadau ymbarél a rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen

**Ffigur 4: Ymwybyddiaeth o sefydliadau ymbarél a Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen**




Sampl o 216 = 62 o gylchoedd meithrin 22* o gylchoedd chwarae cyn-ysgol; 67 o feithrinfeydd dydd; 68 o warchodwyr plant (*rhybudd – sampl isel)

5.2 Cylchoedd meithrin oedd y mwyaf ymwybodol o'r holl fathau o leoliadau fod sefydliadau ymbarél yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi cymorth i addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen (84%) ac o rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen (76%). Roedd ymwybyddiaeth o Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ychydig yn llai na'r ymwybyddiaeth fod sefydliadau ymbarél yn cael eu hariannu er mwyn rhoi cymorth i addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar draws pob math o leoliad.

5.3 Roedd 71% o'r rheini a ddywedodd eu bod yn ddarparwyr addysg cofrestredig yn yr arolwg hefyd wedi dweud eu bod yn ymwybodol fod sefydliadau ymbarél yn cael eu hariannu ar gyfer rhoi cymorth i addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, o'u cymharu â 48% o'r rheini nad ydynt yn ddarparwyr addysg cofrestredig. Yn yr un modd, dywedodd 65% o ddarparwyr addysg cofrestredig eu bod yn ymwybodol fod

cymorth ar gael gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, o'u cymharu â 38% o'r rheini nad ydynt yn ddarparwyr addysg cofrestredig.

5.4 Yn y cyfweliadau manwl, roedd pob lleoliad yn ymwybodol o sefydliadau ymbarél ond roedd yr ymwybyddiaeth ynglŷn â rôl Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ychydig yn fwy amrywiol. Tra oedd y rhan fwyaf yn ymwybodol fod sefydliadau ymbarél yn cyflogi aelod dynodedig o staff i roi cymorth iddynt, nid oedd rhai ohonynt yn gwybod bod yr aelod o staff hwn yn rhoi cymorth i leoliadau yn benodol er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen neu gefnogi’r gwaith o wneud hyn.

> “Roeddwn yn ymwybodol fod rhywun yn dod i mewn i roi cymorth gyda'r Gymraeg, a bod rhywun yn dod i mewn i roi cymorth gyda holl drefniadau’r cylch/pwyllgor. Nid wy'n ymwybodol o unrhyw un sy'n dod i mewn yn arbennig i helpu gyda darpariaeth yr hawl addysg gynnar.” (Cyfweliad â lleoliad)

**Safbwyntiau rhanddeiliaid ar rôl Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen nawr ac yn y dyfodol**

5.5 Gofynnwyd i randdeiliaid ynglŷn â sut roedd rôl Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf; sut byddai angen iddi newid yn y dyfodol; a sut gellid cryfhau gweithio ar y cyd rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru.

5.6 Nid oedd gan ychydig o randdeiliaid lawer o fewnwelediad i rôl Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen, gan ddweud bod Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen yn modelu a rhoi cyngor ar ymarfer effeithiol yn y gorffennol ond bod ganddynt dueddiad bellach i ddarparu mwy o gymorth mewn perthynas â hyfforddiant, gwaith monitro, hunanwerthuso ac arolygiadau.

5.7 Dywedodd eraill fod rôl Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen wedi newid yn eithriadol yn y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod y llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol, yn ogystal â maint y gwaith mewn partneriaeth rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

5.8 Gwnaeth nifer sylwadau ar y cydberthnasau gwaith cadarnhaol sydd wedi datblygu rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen a Llywodraeth Cymru. Yn enwedig,

gwnaethant werthfawrogi’r cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gwaith ymchwil a arweiniwyd neu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a nodwyd bod gwell dealltwriaeth bellach ganddi ynglŷn ag anghenion a phryderon y sector nas cynhelir drwy ei hymagwedd tuag at waith mewn partneriaeth.

> "Ar y dechrau, nid oedd llawer o strwythur na threfn o ran yr hyn rydym yn ei wneud. Mae ein cydberthynas ag adran y Cyfnod Sylfaen yn y llywodraeth bellach yn dda iawn. Rydym wedi profi ein hunain ac wedi datblygu'r gydberthynas ac rydym bellach yn ymddiried yn ein gilydd. Mae'r llywodraeth bellach yn gofyn i ni wneud llawer mwy o waith ymchwil ac ymgynghori, gan eu bod yn fwy agored i wrando ar ein barn. Ni phrofais gymaint o gydweithrediad pan ddechreuais y swydd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.9 Dywedodd ychydig o randdeiliaid hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r gydberthynas waith gadarn sydd ganddynt â Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, a oedd wedi’i hwyluso gan gonsortiwm Cwlwm.[10] Byddent hefyd yn hoffi cael cydberthynas gadarn gyson a rhyngweithiadau yr un mor ystyrlon â holl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, gan nad yw hyn bob amser yr achos ar hyn o bryd.

5.10 Nododd rhai Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen y byddent wedi rhoi cymorth llawer mwy uniongyrchol i leoliadau o dan reolaeth darparwyr addysg cofrestredig yn y gorffennol. Un rheswm dros y newid sydd wedi bod yw'r cynnydd yn nifer y lleoliadau nad oedd ganddynt ganiatâd bellach i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen gan eu hawdurdodau lleol. Amlinellodd un arall ostyngiad yn yr adnoddau a oedd ar gael at y diben hwn.

5.11 Nododd nifer o randdeiliaid fod Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen bellach yn arwain mwy o ddigwyddiadau ar gyfer lleoliadau sy’n canolbwyntio ar rannu arfer effeithiol. Yn ddiweddar, roedd y digwyddiadau hyn wedi cynnwys siaradwyr sy’n arbenigo mewn addysg gynnar, a oedd o fudd arbennig i leoliadau yn ôl barn rhanddeiliaid.

[10] Mae Cwlwm yn gonsortiwm a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys y pum sefydliad ymbarél sy'n arwain ar ofal plant yng Nghymru. Mae'r consortiwm yn casglu Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen a sefydliadau ymbarél at ei gilydd i rannu arfer effeithiol a chynllunio cymorth ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Mae Cwlwm yn cynnwys ffrwd cymorth Cymraeg neilltuedig ond mae hefyd yn rhoi cymorth i leoliadau mewn modd cyfannol er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel.

5.12 Teimlodd nifer o randdeiliaid o sefydliadau ymbarél fod y lleoliadau yn gwerthfawrogi'r cymorth uniongyrchol eu bod yn ei dderbyn gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen yn fawr, a'i bod yn drueni fod y cymorth hwn wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, gwnaethant nodi hefyd fod lleoliadau'n gwerthfawrogi'r cyfle i rannu arferion effeithiol drwy ddigwyddiadau hyfforddi cydweithredol, a bod y digwyddiadau yn haws eu cydlynu na'r cymorth uniongyrchol.

> "Dywedwn fod y cymorth un i un wedi gostwng oherwydd lleoliad, amser ac ariannu teithio… [Mae wedi dod] yn fwy seiliedig ar hyfforddiant a chymorth, sy'n gweithio'n well yn ôl pob golwg na mynd allan i leoliadau un i un. Er bod hynny'n effeithiol iawn, mae lawer yn haws, o ran amser, cyllid a dosbarthiad, casglu clwstwr o ymarferwyr at ei gilydd mewn un lle ar yr un pryd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.13 Ni feddyliodd rhai rhanddeiliaid fod angen i rôl Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen newid o lawer yn y dyfodol oherwydd byddai ethos sylfaenol y rolau hyn yn aros yr un peth, waeth beth fo unrhyw newidiadau i bolisi.

> "Y plant yw'r flaenoriaeth, addysg o safon mewn amgylchedd dysgu o safon gydag athrawon o safon. Mae'r pethau hynny yr un peth, beth bynnag yw'r cwricwlwm. Mae angen ar blentyn tair oed yr hyn sydd angen ar blentyn tair oed, a datblygiad plant yw datblygiad plant. Does dim ots beth mae'r cwricwlwm yn ei wneud neu'n ei ddweud, yr un peth yw hynny." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.14 Awgrymodd rhanddeiliaid eraill ffyrdd y byddai angen i rôl Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen newid yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

**Rhoi mwy o gymorth a hyfforddiant**

5.15 Dywedodd rhanddeiliaid fod angen cymorth a hyfforddiant, yn enwedig ynghylch datblygu'r Gymraeg ac mewn ymateb i ganfyddiadau arolygon Estyn, i alluogi lleoliadau i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel. Byddai hyn yn galluogi Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen i ddiweddaru a chynyddu eu gwybodaeth yn rheolaidd, a fyddai'n gofyn am fwy o fuddsoddiad mewn staff a hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru.

5.16 Teimlodd un rhanddeiliad y byddai mynychu gweithgareddau hyfforddi a datblygu ochr yn ochr â lleoliadau nas cynhelir ac a gynhelir o fudd i Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen eu hunain er mwyn diweddaru eu gwybodaeth am gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ac i sicrhau bod pawb ynghlwm yn derbyn negeseuon cyson ynglŷn â pholisi ac arfer.

> "Yr hyn sydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yw rhannu digwyddiadau a sioeau teithiol ar arfer da – unrhyw beth sy'n golygu y gall pobl ddod yn llu … addysgeg y Blynyddoedd Cynnar o ansawdd uchel iawn, a all siarad â'r swyddogion datblygu a'r cynorthwywyr addysgu ac arweinwyr lleoliadau am bethau pwysig iawn … gallwch roi'r diweddaraf i swyddogion yn y negeseuon allweddol eich bod am eu gyrru ymlaen." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Gwrando ar leoliadau a chyfleu eu hadborth i Lywodraeth Cymru**

5.17 Pwysleisiodd randdeiliaid o sefydliadau ymbarél eraill yr angen am waith partneriaeth parhaus a chyfathrebu effeithiol ar ddatblygiadau yn y sector.

> "Bydd angen mwy o gysylltiad rhyngom ni a Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac ein bod hefyd yn sicrhau ein bod yn gwrando yn ystod y cyfnod nesaf o newid anferth ar yr hyn y mae [lleoliadau] yn ei ddweud, ac ein bod yn ei drosglwyddo nôl i'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chonsortia, er mwyn dweud yn gwmws yr hyn sy'n digwydd ledled y wlad. Mae'r cysylltiad hwnnw yn bwysig iawn." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Gweithio'n agosach gydag athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar**

5.18 Dywedodd rhanddeiliaid y gallai gweithio'n agosach sicrhau bod eu rolau'n parhau i ategu ei gilydd a'u bod yn cyflenwi negeseuon cyson i leoliadau. Gallai'r cyfarfodydd presennol rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ac athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar gael eu hymestyn i ganolbwyntio'n benodol ar hyn.

**Cryfhau cydweithio rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru**

5.19 O ran cryfhau cydweithio rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru, argymhellodd rhanddeiliaid y canlynol:

- Rhannu arferion effeithiol yn fwy rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, yn lle gorfod cwrdd yn fwy rheolaidd. Gellid defnyddio sianeli sydd eisoes yn bodoli fel gwefannau Llywodraeth Cymru ac Estyn ar gyfer hyn.
- Rhannu'r gwaith o gyflenwi hyfforddiant drwy gydol y sector nas cynhelir i sicrhau bod pawb yn ei dderbyn ledled Cymru.

5.20 Nododd nifer o sefydliadau ymbarél fod Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen eisoes yn cydweithio yn rheolaidd drwy Cwlwm ac yn cyfathrebu drwy e-bost ar sail ad hoc. Roeddent yn cwrdd hefyd â Llywodraeth Cymru ar wahân a gyda'i gilydd i drafod materion amrywiol. Yn ogystal, roedd Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen o ar draws y sefydliadau ymbarél yn mynychu cynadleddau, digwyddiadau a hyfforddiant ei gilydd o bryd i’w gilydd.


5.21 Yng ngoleuni'r ffurfiau presennol hyn ar gyswllt, ni theimlodd ychydig o sefydliadau ymbarél fod angen gweithredu i gryfhau cydweithio rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen gan eu bod yn credu, fel aelodau Cwlwm, eu bod eisoes yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd.

5.22 Nodwyd hefyd fod gan bob Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen gylch gwaith amrywiol a llwyth gwaith uwch, yn ogystal â rôl a swydd wahanol yn ei sefydliad. Cwestiynodd rhai pa mor fuddiol byddai cydweithio pellach rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen.

**Cymorth i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen**

5.23 Yn bennaf, roedd ffynonellau cymorth a adroddwyd yn yr arolwg ar-lein yn unol ag aelodaeth sefydliadau ymbarél ar draws mathau o leoliad. Yn yr arolwg, dywedodd 5% o gylchoedd chwarae cyn ysgol nad ydynt wedi derbyn unrhyw gymorth er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, o gymharu â 57% o warchodwyr plant. Cafodd hyn ei yrru'n bennaf gan ddarparwyr addysg cofrestredig, gyda 67% o ddarparwyr addysg anghofrestredig yn dweud nad ydynt wedi derbyn unrhyw gymorth.

**Ffigur 5: A ydych chi wedi derbyn unrhyw wybodaeth am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen neu unrhyw gymorth i'w darparu gan unrhyw un o'r canlynol?**





Sylfaen o 207 = 21* o gylchoedd chwarae cyn-ysgol; 62 o gylchoedd meithrin; 67 o feithrinfeydd dydd; 60 o warchodwyr plant (*rhybudd – sampl isel)

5.24 Dywedodd oddeutu hanner (52%) o gylchoedd chwarae cyn-ysgol eu bod wedi derbyn cymorth gan Blynyddoedd Cynnar Cymru. Dywedodd oddeutu tri o bob pedwar ymatebydd (73%) o gylchoedd meithrin eu bod wedi derbyn cymorth gan Mudiad Meithrin, sef y ffynhonnell o gymorth uchaf wedi'i nodi. Roedd meithrinfeydd dydd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi derbyn cymorth gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (30%) neu Blynyddoed Cynnar Cymru (24%), tra oedd gwarchodwyr plant yn fwy tebygol o ddweud y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) (35%).

5.25 Ar draws yr holl fathau o leoliadau, dywedodd 18% eu bod yn derbyn cymorth o ffynonellau eraill. Y ffynonellau eraill hyn oedd awdurdodau lleol (9%), athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar (7%) a Dechrau'n Deg (2%).

**Ffigur 6: Pa wybodaeth neu gymorth ynglŷn ag addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ydych chi wedi'i dderbyn?**




Sampl = 134 o ymatebwyr

5.26 Hyfforddiant (72%) oedd y math o gymorth mwyaf cyffredin a dderbyniwyd gan ymatebwyr i'r arolwg. Dywedodd tua hanner o ymatebwyr eu bod wedi derbyn cymorth ar gyfer deunyddiau, adnoddau a chanllawiau (51%) neu gymorth gan athrawon ymgynghorol (49%). Derbyniwyd cymorth ariannol gan oddeutu chwarter (28%) o'r ymatebwyr i'r arolwg, a gynyddodd i 51% o'r rheini o gylchoedd meithrin. Derbyniwyd cymorth yn y Gymraeg gan 27% o ymatebwyr, a gynyddodd i 37% ymysg ymatebwyr cylch meithrin.

5.27 Yn y cyfweliadau manwl, nododd y rhan fwyaf o leoliadau fod sefydliadau ymbarél yn darparu cymorth drwy wneud y canlynol:

- Hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Ymweliadau gan Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu weithiwr datblygu'r sefydliad
- Cynnal cyfarfodydd a chynadleddau i'r rhwydwaith
- Cyfeirio lleoliadau at yr wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau perthnasol

- Cyflenwi adnoddau
- Darparu cymorth penodol er mwyn datrys problemau neu fynd i’r afael ag anghenion penodol.

5.28 Atgyfnerthodd randdeiliaid sy’n sefydliadau ymbarél eu bod yn darparu'r math hwn o gymorth i leoliadau nas cynhelir er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Dywedodd y rhan fwyaf hefyd eu bod yn darparu cymorth tebyg ond llai dwys ac aml i aelodau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â gofyniad y Cyfnod Sylfaen i weithio yn unol â’r safonau gofynnol cenedlaethol. Nododd un sefydliad ymbarél fod darparwyr addysg cofrestredig fel arfer yn derbyn cymorth wedi’i deilwra drwy ymweliadau gan Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen, ond byddai lleoliadau nad ydynt yn ddarparwyr addysg cofrestredig yn derbyn cymorth ad hoc dros y ffôn neu drwy e-bost.

5.29 Mae darparu llai o gymorth i leoliadau nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn rhwystredigaeth ar gyfer y rhan fwyaf o randdeiliaid o sefydliadau ymbarél. Byddent yn hoffi estyn yr un cymorth i ddarparwyr addysg anghofrestredig ond nid oes ganddynt ddigon o adnoddau i wneud hyn.

5.30 Mae un sefydliad ymbarél yn rhoi cymorth yn bennaf i ddarparwyr addysg anghofrestredig ar hyn o bryd, ond mae'n darparu cymorth ymarferol, pwrpasol i leoliadau er mwyn adeiladu capasiti fel eu bod yn barod i ddechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, os bydd y cyfle'n codi.

> "Mae hynny'n ymwneud â galluogi sefydliadau i fod mewn sefyllfa lle gallent gyflenwi’r Cyfnod Sylfaen petai'r awdurdod lleol yn rheoli'r cyllid. Mae'n ymwneud â gwella safon, sut rydych yn ymgorffori'r egwyddorion, ac edrych ar asesiadau ac edrych ar gynllunio ar gyfer dysgu … Gyda gwaith y Cyfnod Sylfaen, nid ydym yn gallu newid sefyllfa’r awdurdod lleol ar a fydd yn rhoi cyllid ai peidio, ond yr hyn gallwn ei wneud yw galluogi [ein haelodau] fel y gallwn sicrhau, os oes newid mewn awdurdod lleol, nad ydynt mewn sefyllfa lle maent wedi cwympo tu ôl." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cymorth a dderbyniwyd gan leoliadau mewn manylder**

5.31 Yn ystod y cyfweliadau manwl â lleoliadau, dywedodd ymatebwyr eu bod wedi derbyn amrywiaeth o hyfforddiant gan sefydliadau ymbarél. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Defnyddio ceginau mwd
- Llesiant yn y Blynyddoedd Cynnar
- Y Gymraeg. Dywedodd nifer o gylchoedd meithrin fod Mudiad Meithrin wedi darparu pecyn cymorth a hyfforddiant trochi Cymraeg "Croesi'r Bont" iddynt. Roedd yr elfen o hyfforddi staff yn cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb a deunyddiau cymorth yn cynnwys geirfa Gymraeg a syniadau y gallai staff fynd â nhw adref i'w darllen a'u defnyddio gyda phlant. Dywedodd ychydig o leoliadau fod yr elfen o gymorth hefyd yn cynnwys tracio cynnydd y plant o ran dysgu Cymraeg.

5.32 Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau fod Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen yn ymweld â nhw tua unwaith y tymor. Ni dderbyniodd eraill ymweliadau oni bai eu bod wedi gofyn amdanynt, ond derbyniwyd cylchlythyr rheolaidd a chanllawiau ad hoc gan eu corff ymbarél. Nododd nifer o leoliadau hefyd y gallent gysylltu â Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen pe bai angen unrhyw gymorth ychwanegol y tu allan i'w hymweliadau.

5.33 Croesawodd ychydig o leoliadau ddull anffurfiol ac ymlaciol yr ymweliadau gan Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Yn ystod ei ymweliadau, trafododd Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen yr anghenion o ran cymorth fel arfer a sut y gallai helpu o ran mynd i'r afael â nhw. Mewn rhai achosion, roedd Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen hefyd wedi helpu aelodau staff i gwblhau eu gwiriadau ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

5.34 Mewn rhai achosion, darparodd Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen hyfforddiant hefyd. Dywedodd un feithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg ei bod wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg gan Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar Cymru, a oedd hefyd wedi rhannu adnoddau ategol a syniadau ar gyfer arfer effeithiol gyda staff.

5.35 Dywedodd nifer o leoliadau eu bod wedi mynychu cyfarfodydd rhwydwaith a chynadleddau a gynhaliwyd gan sefydliadau ymbarél. Mae'r rhain fel arfer yn canolbwyntio ar bynciau penodol, sydd wedi cynnwys hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliadau a chyflenwi arferion effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd dau leoliad nad oeddent yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd wedi derbyn hyfforddiant gan PACEY ar sut i addasu eu darpariaeth i'r Cyfnod Sylfaen.

> "Gweithdy o ddwy awr [yn cwmpasu] y saith maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a sut y gallwch addasu’r rhain i leoliad gwarchod plant. Er enghraifft, pe byddet yn gwneud gweithgaredd mor syml â phlannu hadau, sut y gallwch gynnwys y saith maes hynny wrth wneud y gweithgaredd hwnnw." (Cyfweliad â lleoliad)

**Cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill**

5.36 Tynnodd lleoliadau sylw at y ffaith hefyd fod sefydliadau ymbarél yn eu cyfeirio at yr wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau perthnasol drwy ddiweddariadau rheolaidd drwy e-bost a llyfrynnau. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gydag arolygiadau. Cyfeiriodd nifer o leoliadau hefyd at wefan eu sefydliad ymbarél, a oedd yn ffynhonnell wybodaeth, gyngor ac arweiniad ddefnyddiol yn eu barn nhw.

5.37 Rhoddodd sefydliadau ymbarél adnoddau i leoliadau hefyd. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar annog y defnydd o Gymraeg o fewn lleoliadau.

5.38 Nododd nifer o leoliadau fod eu sefydliadau ymbarél wedi eu helpu i ddatrys problemau neu fynd i’r afael ag anghenion penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cysylltu â'r awdurdod lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ran lleoliad i'w helpu i ddatrys problem gyda chofrestru
- Cysylltu ag AGC i ddatrys problem gyda chyfleusterau lleoliad
- Cydweithio â lleoliad ac awdurdod lleol i ddatrys mater yn ymwneud â chyllid addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen
- Cefnogi lle â chymorth ar gyfer plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys dysgu un i un

- Helpu lleoliad i ddatrys problemau eu bod wedi eu profi gyda'u hathro ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar
- Brocera sesiynau therapi lleferydd wedi eu teilwra ar gyfer plentyn oedd yn mynychu lleoliad

**Cymorth gan ffynonellau eraill**

5.39 Dywedodd lleoliadau yr oeddent wedi derbyn gwasanaethau cymorth eraill gan nifer o randdeiliaid, a bod lleoliadau yn cael eu cyfeirio atynt yn aml gan sefydliadau ymbarél. Mae'r prif feysydd o gymorth a ddarperir wedi eu hamlinellu isod. Mae'r rhain, wedi'u cyfuno â chymorth oddi wrth Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen y sefydliadau ymbarél, yn ffurfio sylfaen y cymorth sydd ar gael i leoliadau nas cynhelir ac yn rhoi cyd-destun er mwyn deall bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

**Hyfforddiant**

5.40 Yn ogystal â hyfforddiant drwy sefydliadau ymbarél, dywedodd nifer o leoliadau eu bod hefyd yn derbyn hyfforddiant gan ffynonellau eraill i'w helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Hyfforddiant gan y consortia addysg ar y cwricwlwm newydd ac addysgeg effeithiol yn y Blynyddoedd Cynnar
- Hyfforddiant gan sefydliad allanol Addysg Gynnar ar arfer rhagorol yn y Cyfnod Sylfaen a dysgu yn yr awyr agored.

5.41 Ailadroddodd ychydig o randdeiliaid eu bod yn cyflenwi hyfforddiant gorfodol a dewisol ar gyfer lleoliadau a oedd yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar amrywiaeth o bynciau perthnasol yn rheolaidd. Cynigodd rhanddeiliaid eraill sesiynau cymorth galw heibio lle gallai staff o leoliadau nas cynhelir ac a gynhelir ddod a thrafod unrhyw broblemau neu ymholiadau.

5.42 Adroddodd y rhan fwyaf o leoliadau eu bod wedi derbyn mathau gwahanol o gymorth gan ffynonellau eraill. Dywedodd nifer eu bod yn dod o hyd i ddeunyddiau, adnoddau a chanllawiau yn annibynnol o wefan Llywodraeth Cymru ac o'u hawdurdodau lleol a/neu gonsortia addysg. Canolbwyntiodd y deunyddiau,

adnoddau a chanllawiau hyn ar y canlynol:

- Y cwricwlwm newydd
- Newidiadau i ddarpariaeth gofal plant
- Datblygiadau lleol
- Prosesau arolygu
- Cyfleoedd hyfforddi sydd ar ddod
- Adnoddau yn y Gymraeg fel caneuon a phosteri.

5.43 Dywedodd ychydig o randdeiliaid eu bod yn darparu cymorth pwrpasol yn y Gymraeg i leoliadau, er bod hyn wedi gorffen mewn un ardal oherwydd bod aelod o staff wedi gadael a neb wedi cael ei osod yn ei le.

5.44 Rhoddodd nifer o randdeiliaid gymorth TGCh i leoliadau hefyd er mwyn iddynt lanlwytho dogfennau Estyn a dogfennau hanfodol eraill.

> "Ar gyfer lleoliadau sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd, mae'n rhaid i ni ei wneud ein hunain yn aml. Bydd y lleoliad yn rhoi ei holl ddogfennaeth iddynt ac mae'r tîm yn ei lanlwytho eu hunain. Mae'n broblem fawr pan ddaw i Estyn … gan nad oes mynediad i'r rhyngrwyd yno a bod dim dyfais ganddynt er mwyn ei lanlwytho – mae'n her ychwanegol i'n tîm." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Rhwydweithio a rhannu arferion da**

5.45 Adroddodd ychydig o leoliadau yn yr un ardal eu bod yn cymryd rhan mewn rhwydwaith i leoliadau nas cynhelir a arweinir gan awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys arweinwyr lleoliadau nas cynhelir yn cwrdd bob hanner tymor i drafod a rhannu gwybodaeth berthnasol. Yn ddiweddar, roedd trafodaethau’r cyfarfodydd rhwydwaith wedi canolbwyntio ar newidiadau i brosesau arolygu ar gyfer lleoliadau.

5.46 Mae ychydig o randdeiliaid yn rhoi cyfleoedd tebyg i leoliadau nas cynhelir rannu arfer effeithiol.

> "Mae gennym dri lleoliad sy'n arweinwyr a nhw sy'n cefnogi lleoliadau eraill. Mae'n ymwneud yn llawer ag arweinyddiaeth, felly y pethau byddant yn gwybod amdanynt yn drylwyr o ran AGC ac Estyn. Mae’r arweinwyr yn rhoi cymorth i

leoliadau a nodwyd ac mae'r rheini'n cael cymorth ychwanegol gan y lleoliadau hynny." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.47 Nodwyd gan ychydig o leoliadau nas ariennir fod rhwydweithiau cymheiriaid ad hoc hefyd yn ffynhonnell gymorth lle rhannwyd syniadau ac arfer effeithiol mewn ffordd anffurfiol wrth fynychu hyfforddiant lleol a arweinir gan yr awdurdod lleol. Roeddent wedi cynnal rhwydweithiau o gymorth anffurfiol gyda gwarchodwyr plant lleol eraill y tu hwnt i'r sesiynau hyfforddi, a oedd wedi bod yn ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth ac arweiniad. Nododd eraill eu bod yn defnyddio grwpiau Facebook ar gyfer lleoliadau o'r un fath ledled Cymru er mwyn rhannu syniadau.

"Trwy fynychu cwrs [yn ymwneud â diogelu] yn ogystal â chwrs ar reoli heintiau, rydw i wedi siarad â gwarchodwyr plant eraill ynglŷn â'r hyn maent yn ei wneud a sut maent yn gweithredu, sut maent yn cynllunio eu diwrnodau a phethau tebyg." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cymorth ariannol**

5.48 Dywedodd nifer o leoliadau eu bod wedi derbyn cymorth ariannol i'w helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Fel arfer, roedd hyn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar gan awdurdodau lleol. Roedd rhai lleoliadau wedi defnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar i brynu amrywiaeth o adnoddau addysgol, cyfarpar TGCh fel gliniaduron a chyfarpar er mwyn dysgu yn yr awyr agored ac i ariannu hyfforddiant staff. Nid oedd gan leoliadau eraill unrhyw lais o ran sut mae eu hawdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid i gefnogi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn eu hardal. Derbyniodd yr holl leoliadau a oedd hefyd yn cyflenwi'r rhaglen Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant gyllid neilltuedig ar gyfer hyn gan eu hawdurdodau lleol.

5.49 Roedd ychydig o leoliadau wedi derbyn cyllid drwy grantiau cymuned. Nododd nifer o leoliadau hefyd eu bod yn derbyn cymorth ariannol ychwanegol drwy weithgareddau i godi arian a arweiniwyd gan eu pwyllgorau rheoli a rhieni plant sy'n defnyddio'r lleoliadau ar hyn o bryd.

### Cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

5.50 Adroddodd y rhan fwyaf o leoliadau a ariennir i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen eu bod yn cael cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar drwy awdurdodau lleol neu gonsortia addysg, gan gynnwys ymweliadau, e-byst a galwadau ffôn rheolaidd. Yn ôl y lleoliadau, roedd y cymorth hwn yn eu helpu i baratoi ar gyfer arolygiadau a nodi arfer da a meysydd i'w gwella. Mae rhai athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar hefyd yn darparu deunyddiau, adnoddau a chanllawiau ac yn darparu hyfforddiant ar bynciau fel y cwricwlwm newydd neu gyflenwi addysg gynnar i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

5.51 Nododd ychydig o leoliadau o dan yr un awdurdod lleol fod cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sy'n siarad Cymraeg wedi dod i ben tua dwy flynedd yn ôl gan fod yr aelod o staff perthnasol wedi gadael ac na chafodd ei swydd ei llenwi. Sylwodd lleoliadau eraill ar ostyngiad yn y lefel o gymorth sydd ar gael gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, gyda'r cymorth hwn yn cael ei ddisodli gan gymorth ar gyfer addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a ddarperir gan ysgol gynradd gyfagos neu ddod i ben yn gyfan gwbl.

5.52 Gwnaeth rhanddeiliaid dynnu sylw at y newidiadau hyn hefyd, gan nodi, yn y gorffennol, fod yr holl leoliadau wedi derbyn symiau gweddol gyfartal o gymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar. Roedd toriadau yn y cyllid yn golygu bod awdurdodau lleol a chonsortia yn blaenoriaethu cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer lleoliadau nas cynhelir ar sail y statws Coch Melyn Gwyrdd, yn unol ag anghenion y lleoliad.

### Cymorth arall a dderbynnir gan leoliadau

5.53 Nododd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru nad ydynt yn cyflenwi cymorth uniongyrchol i leoliadau er mwyn iddynt gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Yn lle, maent yn darparu cyllid drwy lifoedd amrywiol i sefydliadau ymbarél, awdurdodau lleol a chonsortia addysg i alluogi iddynt gefnogi lleoliadau. Gwnaethant amlinellu eu bod yn rhoi cymorth i leoliadau ar hyn o bryd drwy wneud y canlynol:

- Mireinio strategaeth y gweithlu (fel y trafodwyd mewn man arall)

- Cydweithio â sefydliadau ymbarél i roi cymorth busnes i leoliadau drwy Busnes Cymru

5.54 Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid eu bod yn rhoi llai o gymorth i leoliadau nas cynhelir nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd o'i gymharu â'r rheini sydd yn ei chyflenwi. Ond gwnaeth rhanddeiliaid eraill adrodd eu bod yn darparu cymorth i leoliadau nas ariennir yn y ffyrdd canlynol:


- Eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd partneriaeth gofal plant a fynychwyd hefyd gan leoliadau a ariennir i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen lle bo awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth am bolisïau perthnasol sydd ar ddod a datblygiadau mewn arferion
- Cyflenwi hyfforddiant statudol o ran newidiadau i ddeddfwriaeth
- Cyflenwi hyfforddiant ychwanegol ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen
- Ymweld â nhw i asesu effeithiolrwydd eu darpariaeth gofal plant a nodi unrhyw anghenion cymorth perthnasol.

5.55 Amlinellodd nifer o randdeiliaid y byddent yn hoffi gwneud mwy i roi cymorth i leoliadau nas cynhelir nad ydynt yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, ond roedd diffyg adnoddau ganddynt i wneud hyn.

> "Mewn byd delfrydol, byddem yn gallu agor ein cynnig dysgu proffesiynol i'r holl leoliadau, p'un a ydynt yn cael eu hariannu neu beidio, ond nid oes gennym y capasiti i wneud hynny. Eto, mae'n fater o ddychwelyd i fodelau hŷn lle bo gennych ddigon o unigolion i gefnogi lleoliadau ar sylfaen o 10%, neu a ydych yn dweud wrth y lleoliadau hynny, “Gofalwch am eich plant o ran gofal plant, datblygu iaith a chydberthnasau, a pheidiwch â becso am yr ochr addysg ohoni?" (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Defnyddioldeb cymorth ac anghenion cymorth eraill er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen**

**Ffigur 7: Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth neu'r cymorth rydych wedi'i derbyn am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen?**




Sampl = 96 o ymatebwyr (hyfforddiant); 68 o ymatebwyr (deunyddiau, adnoddau ac arweiniad); 65 o ymatebwyr (cymorth gan athrawon ymgynghorol); 47 o ymatebwyr (cyfeirio); 40 o ymatebwyr (darparu cyfarpar)[11]

5.56 Ystyriodd cyfran uwch o ymatebwyr a dderbyniodd gymorth gan athrawon ymgynghorol ei fod yn 'hynod ddefnyddiol' (54%) o'i gymharu â ffyrdd eraill o gymorth.

**Defnyddioldeb cymorth gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, nawr ac yn y dyfodol**

5.57 Gwerthfawrogwyd y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan eu sefydliadau ymbarél gan y mwyafrif o leoliadau. Darganfuont fod yr wybodaeth, adnoddau ac arweiniad a dderbyniwyd gan y sefydliadau ymbarél yn ddefnyddiol, yn ogystal â'r cyfarfodydd a chynadleddau a gynhaliwyd ganddynt.  Yn enwedig, gwerthfawrogodd lleoliadau'r cymorth pwrpasol a ddarparwyd gan eu sefydliadau ymbarél. Teimlodd rhai ohonynt

[11] O ganlyniad i niferoedd isel y sampl, mae'r siart uchod ond yn cynnwys y pum ffordd fwyaf poblogaidd o dderbyn cymorth gan ymatebwyr i'r arolwg. Cadarnhaodd mwyafrif sylweddol o ymatebwyr i'r arolwg fod yr holl gymorth a dderbyniwyd ganddynt er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn hynod ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Ni ddywedodd unrhyw ymatebwr i'r arolwg fod unrhyw gymorth a dderbyniwyd yn 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl'.

fod ganddynt yr holl gymorth sydd ei angen a'u bod yn gwybod sut i fynd ati i ddod o hyd i gymorth ychwanegol pan fo angen.

5.58 Amlinellodd nifer o randdeiliaid o sefydliadau ymbarél ba mor anodd oedd cyflenwi cymorth cyson i'w holl aelodau gyda'r lefelau presennol o adnoddau. Adroddodd un rhanddeiliad o sefydliad ymbarél fod y pecyn cymorth cyfan a gyflenwyd ganddo yn effeithiol, a'i bod yn bwysig iddo barhau i gyflenwi'r holl elfennau ohono.

> "Dwi'n meddwl mai'r pecyn cymorth cyfan ydyw, mae'r holl beth yn cyfrannu at gymorth effeithiol. Os ydym yn tynnu un elfen o'r cymorth hwnnw, ni fydd y gweddill mor effeithiol bellach … mae'r lleoliadau yn gwerthfawrogi pob peth eu bod yn ei dderbyn." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.59 Nodwyd gan leoliadau fod nifer o feysydd cymorth a oedd yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'r rhain wedi eu hamlinellu isod yn unol â unrhyw sylwadau perthnasol gan randdeiliaid.

**Cadw'n gyfredol**

5.60 Roedd derbyn y diweddaraf mewn e-byst rheolaidd gan sefydliadau ymbarél a oedd yn cyfeirio lleoliadau at wybodaeth ac adnoddau perthnasol yn eu helpu i i gadw'n gyfredol â datblygiadau pwysig. Mae'r diweddariadau hefyd yn ffordd hygyrch i'r holl aelodau staff gadw'n gyfredol â datblygiadau yn lle dibynnu ar arweinwyr i raeadru'r wybodaeth hon.

**Dull defnyddiol a hyblyg**

5.61 Nododd nifer o leoliadau eu bod yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a dull dymunol eu Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen a'i barodrwydd i'w helpu.

> "Mae'n ffynhonnell wych o gyngor a chymorth. Os oes unrhyw beth nad ydym yn sicr ohoni, unrhyw hyfforddiant fod angen i ni chwilio amdano, polisïau fod angen i ni eu gweithredu o bosib, mae'n yno i'n helpu bob tro. Mae'n yno i'n helpu bob tro. Os nad yw'n gallu rhoi'r ateb i ni, gall yn bendant ein rhoi yn y cyfeiriad cywir." (Cyfweliad â lleoliad)

5.62 Nododd nifer o randdeiliaid sy'n sefydliadau ymbarél hefyd mai un o gryfderau'r cymorth a ddarparwyd gan Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen oedd bod y

berthynas waith gref eu bod wedi datblygu â lleoliadau yn pwysleisio y byddent yn hoffi rhoi mwy o gymorth i leoliadau.

"Byddem wrth ein bodd yn rhoi mwy o'r cymorth rydym eisoes yn ei ddarparu. Rydym yn meddwl ei fod yn dda iawn ar gyfer lleoliadau sydd eisiau cymorth ac enghreifftiau wyneb yn wyneb. Dydyn ni ddim yn credu mewn dal dwylo pobl, rydym yn credu mewn rhoi'r offer iddynt gyflawni'r swydd, ond roedd hyn weithiau yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb a byddem yn dwlu ar gynyddu gwaith o'r fath oherwydd rydym yn gwybod ei fod yn werthfawr. Y cam nesaf yw bod yn hygyrch bob tro dros y ffôn neu drwy e-bost ac yn barod i siarad, barod i gael ein cyfeirio at unigolyn lleol, sy'n rhywbeth ein bod yn ceisio ei wneud." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.63 Yn debyg, teimlodd ychydig o randdeiliaid sy’n sefydliadau ymbarél y dylai lleoliadau nas cynhelir nad oeddent yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd dderbyn cymorth gan Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol i sicrhau bod yr holl blant yn derbyn yr un cymorth i'w paratoi i ddechrau yn yr ysgol, waeth beth y math o leoliad a fynychwyd ganddynt.

"Byddai'r sector nas ariennir mewn sefyllfa well petai'n cael cymorth gan Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen, gan nad oes ganddo athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a byddai Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen mewn sefyllfa well i’w cefnogi a'u paratoi. Ar ddiwedd y dydd, yr hyn a fyddai'n ddelfrydol byddai i bawb sicrhau bod y plant yn derbyn yr un safon o ddysgu ac addysgu cyn cael mynediad i addysg ffurfiol, a dydy hynny ddim yn digwydd gan fod gennym yr elfen ariannol ac anariannol hon." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.64 Amlinellodd un rhanddeiliad sy’n sefydliad ymbarél mai rhan o gymorth Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen a oedd yn arbennig o effeithiol oedd ei allu i addasu'r arweiniad a roddwyd i staff gwahanol mewn lleoliadau yn dibynnu ar eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd hyn yn gofyn am ystod eang o wybodaeth gyfredol ynglŷn â gofal plant a chyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â rheoliadau a safonau perthnasol.

"Mae yna ddwy haen i hyn. Mae hefyd yn ymwneud â bod yn ymwybodol o’r rheoliadau, oherwydd o safbwynt meithrinfa ddydd, mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhan

fach iawn o gyflawniad cyflawn eu busnes, felly mae angen i [Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen] sicrhau [eu bod yn] gyfredol ac yn ymwybodol o reoliadau'r Arolygiaeth Gofal hefyd … Mae angen i Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen fod â llawer o wybodaeth o'r ddwy agwedd, o'r agwedd fusnes yn ogystal â'r agwedd addysg gynnar." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Meysydd a nodwyd i'w gwella**

5.65 Er iddynt werthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd gan eu Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, argymhellodd rhai lleoliadau ychydig o feysydd penodol y byddent yn hoffi iddynt gael eu gwella. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Mwy o gymorth yn benodol i addysg sy'n canolbwyntio ar sut i gyflawni arfer effeithiol yn addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen
- Gwybodaeth gan sefydliadau ymbarél sy'n fwy hygyrch - er enghraifft, defnyddio termau Cymraeg sy'n haws eu deall
- Mwy o arweiniad ar arfer effeithiol yn addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd
- Arweiniad ychwanegol a chymorth o ran cyflawni addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen i'r safonau angenrheidiol, yn enwedig pan oedd arolygiadau Estyn ar y gweill

**Cydweithio a phartneriaethau gan randdeiliaid wrth ddarparu cymorth**

5.66 Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y cydberthynas gwaith cadarnhaol rhwng Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen / sefydliadau ymbarél ac awdurdodau lleol / consortia addysg, a oedd o'u safbwynt nhw yn bwysig iawn o ran hwyluso gwaith partner a'r gwaith o ddarparu negeseuon a chymorth cyson i leoliadau nas cynhelir ar bynciau fel cyflwyno'r Gymraeg, gofal plant, a chydweithio ag athrawon ymgynghorol.


"Mae'n gweithio'n dda os oes gan [Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen] gydberthynas da ag athrawon ymgynghorol, oherwydd eich bod yn mynd mewn i leoliad yn gwybod yn union yr hyn rydych eisiau ei gyflawni ac yn gwybod yr hyn mae'r athrawon ymgynghorol yn ystyried bod angen i'r lleoliad ei gyflawni. Mae'n ei gwneud yn haws oherwydd eich bod yn gallu cael yr ymweliad â ffocws hwnnw gyda'r rheolwr a'r ymarferydd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.67 Fodd bynnag, tynnodd ychydig o randdeiliaid sylw at y ffaith fod cysondeb amrywiol wrth rannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, consortia addysg a sefydliadau ymbarél, a allai weithiau arwain at leoliadau yn derbyn gwybodaeth wahanol. Mae cyfarfodydd ac e-byst rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth a sicrhau bod lleoliadau'n derbyn yr un negeseuon ar yr un pryd wedi dechrau mynd i'r afael â hyn a dylent barhau.

> "Mae'r cydberthnasau â'r athrawon ymgynghorol yn wahanol iawn, yn dibynnu ar yr awdurdod lleol … Mae'n weddol wahanol yn y cyfarfodydd gyda'r consortia rhanbarthol, gan nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn ymddangos bob tro fel ei bod yn cael ei rhannu ar lawr gwlad â'r athrawon ymgynghorol, ac mae hyn weithiau yn achosi bach o wrthdaro, oherwydd bydd athrawon ymgynghorol yn dweud 'pam nad oes unrhyw un wedi dweud hwnna wrthon ni?', ond, yn y gwraidd, y mater yw bod yr wybodaeth heb gael ei rhaeadru. Dyna pam mae'r cyfarfodydd [rheolaidd] mor bwysig, lle bo pawb yno gyda'i gilydd a gallwn drafod y materion hyn." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

### Anghenion cymorth y dyfodol

**Ffigur 8: Oes unrhyw fathau o wybodaeth neu gymorth fod angen arnoch i'ch helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen nad ydych yn eu derbyn ar hyn o bryd?**




Sampl 142 = 21* o gylchoedd chwarae cyn ysgol; 52 o gylchoedd meithrin; 20* o warchodwyr plant 52 o feithrinfeydd dydd (*rhybudd - sampl isel)[12]

[12] Gofynnir y cwestiwn hwn i ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd eu bod yn ddarparwyr addysg cofrestredig cymeradwy. Yn bosib o ganlyniad i'r dryswch ymysg gwarchodwyr plant ynglŷn ag a oeddent yn derbyn cyllid i

5.68 Dywedodd 31% o ymatebwyr fod mathau o wybodaeth neu gymorth yr oedd eu hangen arnynt ond nid oeddent yn eu derbyn ar hyn o bryd i’w helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Y mwyaf tebygol i ddweud hyn oedd ymatebwyr cylchoedd chwarae cyn ysgol (38%), er y dywedodd 48% o ymatebwyr o'r math o leoliad hwn nad oeddent yn colli unrhyw fathau o wybodaeth na chymorth.

5.69 Mae'r cymorth sydd ei angen ar leoliadau ond nad ydynt yn eu derbyn ar hyn o bryd i’w helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys cyllid (29%), mwy o hyfforddiant a gwybodaeth (19%), diweddariadau o ran y cwricwlwm (16%) a chymorth ar gyfer y Gymraeg (6%).

**Disgrifiad manwl o anghenion cymorth y dyfodol**

5.70 Rhoddodd lleoliadau wybodaeth fwy manwl ynglŷn ag agweddau amrywiol ar y cymorth yr oeddent yn cael mynediad iddo ar hyn o bryd a sut y gallai fod angen i hyn newid yn y dyfodol. Gwnaeth rhanddeiliaid hefyd ddarparu mewnbwn sydd wedi'i ymgorffori yn y pynciau canlynol, a amlinellir yn fanwl yn y tudalennau canlynol:

- Hyfforddiant a rhwystrau i fynediad
- Deunyddiau, adnoddau ac arweiniad
- Cyllid a chymorth ariannol
- Cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar
- Cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol
- Busnes a gweinyddiaeth
- Rhannu arfer effeithiol a rhwydweithio.

---

gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, roedd dros hanner (55%) y gwarchodwyr plant a ymatebodd i'r arolwg heb wybod a oes unrhyw fathau o gymorth sydd eu hangen arnynt ond nid oeddent yn eu derbyn ar hyn o bryd i’w helpu i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

**Safbwyntiau ar hyfforddiant a rhwystrau i fynediad**

5.71 Trafododd nifer o leoliadau effeithiolrwydd yr hyfforddiant yr oeddent wedi'i derbyn gan ffynonellau eraill, yn ogystal ag ychydig o anghenion hyfforddi sydd heb eu diwallu. Tynnodd llawer mwy o sefydliadau sylw at faterion ehangach yn ymwneud â hyfforddiant, gan gynnwys lleoliad, amseru, modd, cost, argaeledd a mynediad. Yn ogystal, gwnaeth y rhanddeiliaid nifer o sylwadau ynglŷn â defnyddioldeb yr hyfforddiant a dderbyniwyd gan leoliadau.

5.72 Dywedodd ychydig o leoliadau fod cynnwys yr hyfforddiant a roddwyd gan ddarparwr allanol wedi helpu i loywi sgiliau a rhoi hwb i'w hyder o ran cyflenwi addysg gynnar. Roedd sawl lleoliad hefyd yn cael yr hyfforddiant a ddarperid gan eu hawdurdodau lleol a chonsortia addysg yn ddefnyddiol. Teimlodd rhanddeiliaid sy'n sefydliadau ymbarél hefyd fod yr hyfforddiant eu bod yn ei roi yn ddefnyddiol wrth helpu lleoliadau i gynnal safonau a chadw'n gyfredol o ran newidiadau neu ddatblygiadau, ac er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn rhwydweithio ac ymgynghoriadau.

5.73 Awgrymodd un rhanddeiliad y dylai hyfforddiant yn y dyfodol geisio ehangu gwybodaeth staff lleoliadau am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Golygodd anghysondeb wrth ddarparu hyfforddiant yn y gorffennol fod gan staff mewn rhai lleoliadau ddiffyg gwybodaeth fanwl am hyn. Roeddent yn teimlo y dylai'r hyfforddiant hwn gael ei roi gan sefydliadau ymbarél ac athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar.

5.74 Roedd lleoliadau hyfforddi yn broblem ar gyfer rhai lleoliadau o ganlyniad i'r pellter yr oedd angen iddynt deithio, er bod safon yr hyfforddiant fel arfer yn werth yr ymdrech.

5.75 O ran amserau'r hyfforddiant, roedd barn amrywiol gan leoliadau. Byddai sawl lleoliad yn hoffi i'r sesiynau hyfforddi gael eu cynnal gyda'r nos neu ar benwythnosau i ganiatáu i fwy o staff eu mynychu. Ond dywedodd eraill y byddai'r nos neu benwythnosau yn lletchwith, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio gyda'r nos neu ar benwythnosau, gan gynnwys rhai cylchoedd chwarae a gwarchodwyr plant.

> "Ni fyddai'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn gallu mynd i unman cyn saith o'r gloch yn y nos. Yr un peth ydyw o ran dydd Sadwrn a dydd Sul. Dwi'n gweithio

52 wythnos y flwyddyn. Os bydd patrymau sifft [fy nghleient] yn cwympo ar y penwythnos, yna bydd rhaid i mi weithio ar y penwythnos. Fel dwi'n dweud, mae'n anodd. Pryd bynnag y byddwch yn ei gynnal, bydd rhywun na fydd yn gallu mynd bob tro." (Cyfweliad â lleoliad)

5.76 O ran y modd o gyflenwi, nododd nifer o leoliadau eu bod cael hyfforddiant yn fwy defnyddiol pan gafodd ei gyflwyno wyneb yn wyneb yn lle ar-lein. Dywedon nhw ei fod yn galluogi i'r holl fynychwyr dderbyn negeseuon cyson a dehongli cynnwys yn yr un modd. Ychwanegon fod sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb yn rhoi'r cyfle iddynt holi cwestiynau, gweld enghreifftiau ymarferol o arfer effeithiol, a rhannu syniadau gyda staff o leoliadau eraill nas cynhelir. Tynnodd rhai lleoliadau sylw hefyd at y ffaith nad yw pawb yn gallu cael mynediad i gymorth a chynadleddau ar-lein.

5.77 Fodd bynnag, roedd rhai lleoliadau yn ei chael yn haws dod o hyd i amser ar gyfer hyfforddiant ar-lein, er yr hoffent i hwn gael ei ategu gan wybodaeth hygyrch wedi'i hargraffu fel y gall lleoliadau ei darllen a'i hystyried yn eu hamser eu hunain. Mae rhwystrau i hyfforddiant ar-lein a nodwyd gan leoliadau yn cynnwys mynediad i dechnoleg a chael hyd i ofal plant er mwyn rhyddhau eu hamser i allu cymryd rhan.

5.78 Cafodd y gost o alluogi staff i fynychu hyfforddiant ei godi fel problem gan nifer o leoliadau. Dywedodd nifer eu bod wedi gorfod cau am y dydd er mwyn galluogi staff i fynychu hyfforddiant oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio staff llanw ar eu cyfer, a bod hyn hefyd yn peri trafferth a rhwystredigaeth i rieni. Gwnaethant nodi nad yw'r swm a delir gan eu hawdurdod lleol yn talu am y costau staffio llawn, a bod asiantaethau staff yn gofyn gormod o ran pris. Mae hyn yn arwain at leoliad yn colli arian pan fo staff yn mynychu hyfforddiant. Nodwyd gan eraill eu bod yn methu fforddio talu staff i fynychu hyfforddiant.

"Yn aml iawn, os nad oes digon o staff gennych, rhaid i chi gau'r cylch meithrin, sy'n golygu colli refeniw. Golyga fod staff ddim yn cael eu talu gan eu bod yn mynychu cwrs. Mae'r rhieni yn dechrau gwylltio gan fod dim gofal plant ganddynt ar y diwrnod hwnnw." (Cyfweliad â lleoliad)

5.79 Cafodd cost yr hyfforddiant ei hamlygu gan ychydig o leoliadau fel elfen sy'n rhwystro staff rhag ei wneud hefyd. Awgrymodd nifer o leoliadau y dylai Llywodraeth

Cymru ariannu'r holl hyfforddiant yr oedd angen ar staff lleoliadau nas cynhelir i'w helpu i roi eu polisïau ar waith.

> "Siaradais â'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr wythnos hon. Mae ei hyfforddiant bellach mor ddrud ei fod yn cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei gyfrannu at yr hyfforddiant … Mae gennym ein hyfforddiant misol, sy'n costio ffortiwn ac sy'n defnyddio'r holl gyllideb hyfforddiant, yn anffodus. Mae angen i unrhyw bolisi ar ein cyfer fod ag elfen o hyfforddiant iddo." (Cyfweliad â lleoliad)

5.80 Nododd nifer o sefydliadau ymbarél y byddent yn hoffi ehangu'r hyfforddiant eu bod yn ei gynnig i'w holl aelodau ac nid yn unig i'r rheini a oedd yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, ond roeddent yn sylweddoli y byddai hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

5.81 Nododd sefydliadau hefyd, er bod awdurdodau lleol a chonsortia addysg yn ariannu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi defnyddiol, y cawsant drafferth yn dod o hyd i'r amser ac adnoddau ychwanegol er mwyn trafod a gweithredu'r negeseuon allweddol o'r hyfforddiant a fynychwyd gan y staff. Byddent felly yn croesawu ychydig o gyllid ychwanegol er mwyn addasu a diweddaru eu darpariaeth o addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

5.82 Gwnaeth rhanddeiliad y sylw cysylltiedig y dylai staff o leoliadau nas cynhelir gael amser cynllunio neilltuedig er mwyn canolbwyntio ar gynllunio a gwella'u darpariaeth, fel sy'n wir mewn ysgolion.

> "Nid yw staff [mewn lleoliadau nas cynhelir] yn cael yr amser CPA hwn [cynllunio, paratoi ac asesu] y mae athrawon yn ei gael. Dychmygwch athro ysgol sydd ag amser unwaith yr wythnos ac sy'n gwybod bod ganddo'r amser i wneud y gwaith cynllunio hwnnw a dal lan ag asesiadau. Wel, nid oes gan staff [mewn lleoliadau nas cynhelir] yr amser hwnnw. Wrth i'r gwaith papur gynyddu, os oes ganddynt bwyllgor sy'n deall a bod ganddynt y cyllid, yna byddai'n bendant o fudd i gael ychydig o amser cynllunio, neu gael amser i ddal lan â'r asesiadau - mae hynny'n gwneud byd o wahaniaeth." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.83 Cododd argaeledd hyfforddiant fel problem gan leoliadau. Er bod yr awdurdod lleol a'r consortiwm addysg yn cynnal hyfforddiant priodol a pherthnasol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir (er yn llai aml nawr nag mewn blynyddoedd blaenorol), prin

oedd y lleoedd ar gyrsiau hyfforddi. Amlygodd rhai lleoliadau'r angen i gynyddu nifer y cyrsiau hyfforddi ar gyfer lleoliadau nas cynhelir i alluogi mwy o staff i elwa arnynt.

"Dwi'n meddwl yr oedd yna ugain cwrs a gynhaliwyd gan y [consortiwm addysg] a llwyddom i gael lle ar dri ohonynt gan nad oedd lleoedd gwag. Mae'r holl [awdurdodau lleol] yn ceisio cael lle ar yr un cwrs. Galw eithriadol o fawr a dim hanner digon o hyfforddiant." (Cyfweliad â lleoliad)

5.84 Dywedodd nifer o leoliadau eu bod yn brwydro i alluogi'r holl aelodau staff i gael mynediad at hyfforddiant. Esboniodd nifer ohonynt fod staff yn aml wedi gorfod colli sesiynau hyfforddi pe bai aelod arall o staff yn absennol o'r gwaith ar ddiwrnod yr hyfforddiant yn annisgwyl, oherwydd ni allent gwrdd â'u cymhareb staff fel arall. Cafodd hyn ei waethygu gan y ffaith fod y rhan fwyaf o gyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnal yn ystod y diwrnod gwaith.

"Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi cyfleoedd digonol ar gyfer datblygiad personol i bawb, ond mae ffin denau wedyn rhwng gallu ariannu'r cymhwyster a'u rhyddhau er mwyn iddynt allu mynd i’w wneud, gan hefyd gael staff llanw ar eu cyfer yn y lleoliad a chynnal y gymhareb staff i blant. Mae'n eithaf heriol i ni." (Cyfweliad â lleoliad)

5.85 Cododd y broblem o gefnogi lleoliadau nas cynhelir i gael mynediad at hyfforddiant gan nifer o randdeiliaid hefyd. Nododd sawl un fod nifer o aelodau staff yn gweithio rhan-amser, a'i fod yn her i leoliadau eu galluogi i fynychu hyfforddiant wrth fodloni eu cymarebau staff:plant ar yr un pryd. Cafodd trosiant uchel o aelodau staff ei nodi hefyd fel rhwystr i gyflenwi hyfforddiant cyson i leoliadau, yn ogystal â'r ffaith fod staff ond yn cael eu talu am yr amser eu bod yn treulio gyda'r plant. Cafodd y mater o ariannu staff llanw er mwyn i aelodau staff fynychu hyfforddiant ei amlygu fel un ffordd y gallai Llywodraeth Cymru uwchsgilio'r sector.

"Yn amlwg, gall ysgolion anfon eu hathrawon ar gyrsiau sabothol ac, yn syml, dydy hynny ddim ar gael i'r sector hwn. Os ydynt eisiau'r cydraddoldeb hwnnw ar draws y ddau sector, mae angen iddynt sicrhau bod gan y sector hwn hefyd gyfleoedd i uwchsgilio ei hun." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Safbwyntiau ar ddeunyddiau, adnoddau ac arweiniad**

5.86 Yn ôl nifer o leoliadau, ni dderbyniodd lleoliadau nas cynhelir gyfanswm cyfartal o ddeunyddiau, adnoddau nac arweiniad â lleoliadau a gynhelir gan eu hawdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad pwysig ynglŷn â'r cwricwlwm newydd, newidiadau i'r Cynnig Gofal Plant, a newidiadau i ddarpariaeth addysg leol sydd ar y gweill. Teimlodd lleoliadau fod hyn yn annheg, ac y dylai lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir dderbyn yr un wybodaeth.

5.87 Cafodd y mater o sicrhau bod yr wybodaeth o ran cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn hawdd ei deall, gan gynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru, ei godi fel problem.

5.88 Credodd rhai rhanddeiliaid y gallai cysondeb, ansawdd ac argaeledd yr adnoddau a ddarparwyd i leoliadau gan Lywodraeth Cymru, sefydliadau ymbarél, awdurdodau lleol a chonsortia addysg gael eu gwella. Roedd hyn yn ymwneud â'r holl leoliadau nas cynhelir, ac nid yn unig y rheini oedd yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd.

> "Nid oes unrhyw beth yn rhwystro Llywodraeth Cymru rhag datblygu cyfres o ddeunyddiau a'u rhoi ar Hwb a rhoi mynediad i Hwb i ddarparwyr gan mai ni sy'n rhedeg Hwb. Nid oes unrhyw reswm dros beidio â gallu gwneud hyn. Nid oes unrhyw reswm chwaith pam na allai awdurdodau lleol na'u swyddogion datblygu wneud ychydig mwy o ymdrech pe baent eisiau. Yn y pendraw, bydd yn fater o adnoddau. Y sefydliadau ymbarél - gallen nhw wneud mwy hefyd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Safbwyntiau ar gyllid a chymorth ariannol**

5.89 Roedd lleoliadau a oedd yn derbyn cymorth ariannol ychwanegol gan eu hawdurdodau lleol ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn ddiolchgar am hyn. Mewn rhai achosion, roedd wedi eu galluogi i brynu adnoddau i wella'r gwaith o gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, sef gwaith ni fyddent wedi gallu ei fforddio fel arall. Nododd lleoliadau eraill fod cyllid ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ond wedi galluogi iddynt aros ar agor a heb ymestyn i dalu cost unrhyw adnoddau ychwanegol.

"Mae'n wych ein bod yn derbyn bach o arian ychwanegol … [ond] nid yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran yr hyn ein bod yn gallu fforddio prynu neu gynnal ar gyfer y plant, mae hynny'r un peth … mae'n golygu ein bod ychydig yn fwy cynaliadwy o ran nad ydym mewn dyled cyn cychwyn mis Medi eto. Rhaid inni bob tro godi arian i gadw lefelau cyllid rhag cwympo ac i brynu syniadau addysgol o ansawdd uchel ar gyfer y plant a gweithgareddau, felly ni ddywedwn ei fod wedi gwella'n lleoliad mewn unrhyw ffordd, mae ond yn ei gynnal, ac mae'n helpu i gynnal yr hyn sydd gennym yma." (Cyfweliad â lleoliad)

5.90 Tynnodd rhai lleoliadau sylw at yr angen am gymorth ariannol ychwanegol i brynu adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys, er enghraifft, deunyddiau defnyddiadwy fel papur a phaent a ddefnyddir yn ddyddiol.

5.91 Roedd ychydig o leoliadau wedi siomi bod eu hawdurdodau lleol heb wario eu cyllid Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar mewn ffyrdd a oedd yn diwallu eu hanghenion, gan ddweud nad oedd unrhyw un wedi ymgynghori â nhw ynglŷn â sut y dylid gwario'r cyllid i wella cyflenwad addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Mewn achosion eraill, er yr oedd awdurdodau lleol wedi gofyn i leoliadau sut y byddent yn hoffi defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, cafodd ei wario mewn ffyrdd eraill, a achosodd rwystredigaeth. Byddai leoliadau yn hoffi cyfrannu'n fwy a chael gwell tryloywder o ran penderfyniadau ynghylch cyllid awdurdodau lleol.

"Nid oes gennym unrhyw ddweud o ran sut rydym yn gwario'n harian. Yr awdurdod lleol sy'n dweud hyn wrthyn ni. Nid ydym yn gweld yr arian … Roeddwn eisiau cornel llythrennedd a llyfrau. Ond cafodd yr arian ei wario drosom." (Cyfweliad â lleoliad)

5.92 Gwnaeth nifer o leoliadau sylwadau yn yr arolwg ar-lein a'r cyfweliadau manwl ar y gyfradd uwch yr oeddent yn credu iddi gael ei thalu gan yr awdurdod lleol ar gyfer lleoedd gofal plant o'i chymharu â lleoedd addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a sut roedd hyn yn cael effaith arnynt yn ariannol. Maent yn ystyried hyn yn annheg gan ei fod yn effeithio ar 'werth' ymddangosiadol addysg gynnar ac mae hyn yn drysu rhieni. Pwysleisiodd lleoliadau y byddent yn hoffi gweld cyllid ar gyfer gofal plant

sy'n cyfateb i leoedd yn addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Amlygodd nifer o leoliadau broblemau ariannol a phryderon ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor yn eu lleoliad, gan gynnwys y gallu i barhau i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen gan fod rhai lleoliadau yn gwneud colled yn hyn o beth. Mae newidiadau diweddar i gyfraniadau pensiwn a'r isafswm cyflog wedi codi pwysau ar eu sefyllfaoedd ariannol. Gan nad yw hyn yn fater o ystyriaeth uniongyrchol o ran llywio rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen, mae'n fater hanfodol i'r sector sydd angen cael sylw drwy gyfrwng polisi a rhanddeiliaid yn cydweithio mewn partneriaeth.

5.93 Tynnodd rhai lleoliadau sylw at y ffaith fod angen cyllid ychwanegol ar gyfer amser digyswllt hefyd i gwblhau'r maint sylweddol o waith papur a oedd yn angenrheidiol wrth gyflenwi gofal plant ac addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

> "Mae Sir y Fflint yn treialu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a hawl bore oes ar hyn o bryd. Mae 30 awr yn dod o'r un adran. Byddai hyn llawer yn haws. Maent yn cael eu trin yn yr un modd o ran cyfradd yr awr. Cyfradd yr awr i ni oedd £2.50 yr awr. Nid yw hyn yn cynnwys amser digyswllt - mae gwirioneddol angen i ni gael ein talu am hynny hefyd." (Cyfweliad â lleoliad)

5.94 Amlygodd lleoliadau eraill eu bod yn colli allan yn ariannol gan fod ysgolion yn gallu codi ffi lai na hwy i roi gofal cofleidiol ac addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Roedd hyn er gwaethaf gallu gwarchodwyr plant i gynnig gofal mwy hyblyg nag ysgolion. Roedd colli plant i ysgolion yn gyrru rhai gwarchodwyr plant allan o'r proffesiwn oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio gweithredu bellach.

5.95 Adleisiodd rhanddeiliaid y problemau hyn o ran cymorth ariannol a ddarperir i leoliadau er mwyn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Roeddent yn deall amharodrwydd rhai lleoliadau i ddechrau cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen neu i barhau i'w chyflenwi pan oeddent yn cael ychydig o gymorth ariannol i'w wneud, yn enwedig mewn cymhariaeth â'r cyllid roeddent yn ei dderbyn ar gyfer cyflenwi gofal plant a Dechrau'n Deg.

5.96 Soniodd nifer o randdeiliaid hefyd am annhegwch eu cred fod lleoliadau nas cynhelir yn derbyn llai o gyllid na lleoliadau a gynhelir, a bod cyllid a'r oriau a ariennir (a'r cyfle) ar gyfer cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, gan arwain at anghysondeb o ran darpariaeth ledled Cymru.

Nodwyd bod hyn yn gosod risgiau i gynaliadwyedd y gwaith o gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn y sector nas cynhelir.

> "Mae mwy a mwy o gwynion o ran y posibilrwydd y bydd lleoliadau nas cynhelir sy’n cael eu hariannu yn camu nôl oddi wrth y Cyfnod Sylfaen ac yn dweud na fyddant yn ei wneud, ac na fyddant yn rhoi'r lleoedd, byddant ond yn canolbwyntio ar ofal plant gan fod £4.50 yn cyfateb yn fwy i fodel eu busnes." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar**

5.97 Roedd y rhan fwyaf o leoliadau yn fodlon ar y cymorth eu bod yn ei dderbyn ar hyn o bryd gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, yn enwedig y cyfleoedd oedd ynghlwm wrth yr ymweliadau i drafod cynnydd ac unrhyw faterion oedd wedi codi. Roedd ymweliadau â lleoliadau yn galluogi staff cymorth i ddeall yn llwyr sut mae lleoliadau yn gweithredu ac ennill dealltwriaeth dda o'u hanghenion.

5.98 Gwerthfawrogwyd agweddau eraill ar gymorth athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar gan leoliadau:

- Mynediad hwylus: drwy ffôn neu e-bost pan fo angen rhoi cymorth ychwanegol pan fo lleoliadau’n wynebu heriau a rhwystrau newydd
- Dull gweithredu pwrpasol: hyfforddiant i adlewyrchu anghenion staff unigol neu anghenion y plant, e.e. hyfforddiant ar awtistiaeth neu'r Gymraeg
- Cymorth ar gyfer arolygiadau: dehongli'r adborth
- Cydberthnasau gwaith cadarn: roedd lleoliadau yn fwy parod i addasu eu harfer yn unol ag arweiniad gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar pan oedd cydberthnasau cadarnhaol yn bodoli.

5.99 Roedd gostyngiadau diweddar o ran maint y cymorth a’r math ohono gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar wedi achosi problemau i staff mewn rhai lleoliadau, yn enwedig lle'r oedd cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sy’n siarad Cymraeg wedi ei golli ac wedi ei ddisodli â chymorth gan unigolion nad oeddent yn siarad Cymraeg, nad oedd mor ddefnyddiol oherwydd rhwystrau ieithyddol. Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd fod diffyg athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sy’n siarad Cymraeg yn her ar gyfer lleoliadau

cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer sefydliadau ymbarél ar lefel ymarferol iawn. Er enghraifft, os yw'r lleoliad yng nghanol arolygiad Estyn, nid yw athro ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn gallu deall yr wybodaeth a'r cyngor o ran y camau nesaf.

5.100 Mewn rhai achosion, roedd lleoliadau oedd yn derbyn cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn y gorffennol bellach yn derbyn cymorth gan ysgol gynradd gyfagos ond roeddent yn ei chael bod cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn fwy cyson, amrywiol ac effeithiol na'r cymorth iddynt ei gael gan yr ysgol. Yr elfennau o gymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sydd fwyaf buddiol ym marn y lleoliad oedd rhannu a modelu arfer effeithiol, nad oedd yr ysgol yn ei wneud cymaint.

> "I mi, roedd [cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar] llawer yn fwy buddiol i ni fel lleoliad. Eu syniadau, y ffordd yr oeddent yn eu gweithredu - byddent yn gwneud gweithgaredd gyda'r plant. Roedd yn galluogi aelodau staff i ddysgu ganddynt hefyd. Nawr rydym wedi cael ein trosglwyddo i gael y cymorth hwnnw gan yr ysgol leol, nid yw mor gadarn ag yr oedd … Nid yw'n gyson iawn. Rydym yn mynd ychydig wythnosau heb weld ein hathro." (Cyfweliad â lleoliad)

5.101 Dywedodd nifer o leoliadau y byddent yn croesawu mwy o gymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar i'w galluogi i barhau i gyflenwi addysg gynnar o ansawdd uchel ond roeddent yn cydnabod nad oedd llawer o amser gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar. Byddai mwy o adnoddau yn helpu i godi safonau drwy roi cymorth pwrpasol i leoliadau a rhannu arfer effeithiol.

5.102 Gwelodd nifer o randdeiliaid broblemau gyda'r llai o gymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a dderbynnir gan leoliadau a'u defnydd anghyfartal gan awdurdodau lleol a chonsortia ledled Cymru. Roeddent yn gwerthfawrogi'r heriau a wynebir gan awdurdodau lleol a chonsortia o ran rheoli cyllidebau sy'n lleihau ond roeddent yn teimlo bod hyn yn arwain at rai lleoliadau yn peidio â chael y cymorth oedd ei angen arnynt. Nodwyd bod angen i linellau atebolrwydd ar gyfer cymorth gan athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar fod yn gliriach rhwng awdurdodau lleol a chonsortia addysg i sicrhau bod yr holl leoliadau yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

"Mae hefyd yn cysylltu â'r cwestiwn ai'r awdurdod lleol sy'n arwain ar hyn o hyd neu a yw'n faes y mae'r consortiwm rhanbarthol wedi cymryd cyfrifoldeb amdano. Y risg yw a yw tystiolaeth ai peidio i ddangos bod lleoliadau dros y blynyddoedd diweddaraf yn derbyn llai a llai o'r 10% hwnnw. Effaith bosib hynny yn amlwg yw y gall safon yr hyn sy'n cael ei gyflenwi yn gostwng." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.103 Mae derbyn cyngor anghyson wedi bod yn broblem ar gyfer rhai lleoliadau, gydag athro ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn argymell un ffordd o wneud pethau ac eraill fel Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu arbenigwyr eraill yn argymell dull arall o weithio. Roedd hyn wedi creu tensiwn rhwng athrawon cynnar y Blynyddoedd Cynnar a staff lleoliadau.

**Cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol**

5.104 Tynnodd nifer o leoliadau sylw at yr angen ar gyfer cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a hyfforddiant arbenigol ar sut orau i'w cefnogi o fewn y lleoliad. Roedd hyn yn cynnwys asesu plant ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn penderfynu ar y cymorth oedd ei angen. Er enghraifft, mewn un achos, roedd awdurdod lleol wedi cael trafferth o ran cynnal asesiad addas ei hun ond heb wrando ar safbwyntiau'r lleoliad ar hyn. Teimlodd y lleoliad fod hyn oherwydd nad oedd yn cael ei ystyried yn 'gyfartal' ag ysgol.

"Does dim cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae angen cymorth arnom gydag asesiadau anghenion dysgu ychwanegol, ond nid oes gan yr awdurdod lleol y sgiliau i roi cymorth â hyn. Y llynedd, cawsom gymorth un i un ar gyfer un plentyn. Roedd hynny wedi i'r awdurdod lleol ddweud wrthym fod dim angen arno. Nid oedd ein barn yn cael ei hystyried mor ddifrif â barn ysgol." (Cyfweliad â lleoliad)

5.105 Dywedodd nifer o leoliadau y byddent yn croesawu mwy o gymorth wedi'i deilwra i anghenion unigol y plant ac wedi'i gyflenwi ar sail un i un o'r adeg pan fo'r plant yn dechrau yn y lleoliad. Nododd rhai fod y math hwn o gymorth yn gynyddol anodd i gael mynediad ato.

"Mae mwy o gymorth ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn hanfodol … Bob tymor mae gennym ddau neu dri phlentyn sydd angen cymorth un i un, boed

ag awtistiaeth, parlys yr ymennydd neu epilepsi … Mae nifer y therapyddion lleferydd ac iaith wedi ei dorri. Dywedon wrthym yr wythnos ddiwethaf fod cyllid ar gyfer cymorth un i un o fewn y lleoliad yn dod i ben, felly ni fydd plant ag anghenion ychwanegol yn derbyn cymorth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd pan fo gennych 28 o blant mewn lleoliad a bo dau ohonynt ag anghenion ychwanegol, gan eich bod yn cymryd aelodau staff oddi wrth weddill y plant." (Cyfweliad â lleoliad)

5.106 Roedd ychydig o randdeiliaid yn cydnabod bod ariannu digon o gymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn her ac roeddent yn croesawu'r cymorth ychwanegol bod sefydliadau ymbarél wedi ei roi. Roedd un rhanddeiliad yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar leoliadau er mwyn diwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol ond bod defnydd awdurdodau lleol o gyllid pwrpasol Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn yn anghyson.

**Agweddau ar redeg busnes, TGCh a gweinyddiaeth**

5.107 Mae hyn yn cynnwys cymorth mwy cyffredinol gyda swyddogaethau busnes fel cyfrifeg a recriwtio. Argymhellodd rhai lleoliadau y gallai'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan Busnes Cymru neu Lywodraeth Cymru.

5.108 Cydnabuwyd gan nifer o randdeiliaid yr angen ar gyfer cymorth TGCh ychwanegol ar leoliadau, a amlygodd broblemau ynghylch cysylltedd mewn rhai lleoliadau.

"Nid yw llawer o leoliadau yn gallu cael mynediad i TG. Weithiau, os neuadd eglwys ydyw, nid oes ganddi TG. Gallwch roi 'dongl' iddynt ond os nad ydynt yn gallu ei fforddio, gall fod yn broblem iddynt." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.109 Nodwyd gan leoliadau a rhanddeiliaid fod cymorth ymarferol a gweinyddol yn faes sy'n gofyn am gymorth pellach, yn enwedig gydag arolygiadau Estyn.

**Rhannu arfer effeithiol a rhwydweithio**

5.110 Byddai leoliadau yn hoffi gweld mwy o gyfleoedd i rannu syniadau ac arfer effeithiol gyda lleoliadau eraill nas cynhelir drwy ymweliadau â lleoliadau eraill, er enghraifft, a allai roi cymariaethau defnyddiol a nodi meysydd i'w gwella.

5.111 Soniodd nifer o randdeiliaid eu bod wrthi'n ceisio cyfuno cyfleoedd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir ac a gynhelir er mwyn iddynt dderbyn yr un wybodaeth a hyfforddiant ar yr un pryd, a allai helpu i rannu arfer da a rhoi negeseuon cyson o ran cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen. Roeddent yn cydnabod bod hyn yn fwlch presennol yn y cymorth a roddir gan yr holl bartïon.

"[Dylai'r] holl ymarferwyr o fewn y Cyfnod Sylfaen, boed yn rhai nas cynhelir neu’n rhai a gynhelir, fynychu'r un hyfforddiant. Nid ydym wedi cyflawni hyn eto ac rydw i'n meddwl ei fod yn drueni gan fod yna golled fawr o ran rhannu arfer ac mae yna lawer i'w ddysgu gan leoliadau a gynhelir a nas cynhelir y gellid ei rannu.” (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Amrywiad o ran anghenion cymorth fesul lleoliad**

5.112 Gofynnwyd i randdeiliaid a oedd anghenion cymorth yn amrywio o ran math o sefydliad, lleoliad, cyfrwng iaith, maint, neu unrhyw nodweddion eraill. Teimlodd ychydig o randdeiliaid nad oed anghenion cymorth yn amrywio’n enwedig o ran nodweddion, gan nodi y dylai'r holl leoliadau dderbyn cymorth craidd cyson a phwrpasol, ynghyd ag unrhyw gymorth ychwanegol yr oedd ei angen ar leoliadau er mwyn diwallu eu hanghenion unigol eu hunain.

"Dylai'r man cychwyn fod bod pawb yn derbyn cyfanswm craidd o wasanaeth a chymorth ac amser.  Wedyn, byddai'r lleoliadau hynny sydd angen ychydig yn fwy yn derbyn mwy ar ben hynny. Ond ni ddylai fod eich bod yn torri mewn un man er mwyn rhoi mwy i fan arall. Dylai fod yn sylfaen gyffredin. Oherwydd, fel arall, ni fydd gennych y cyffredinrwydd hwnnw." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.113 Amrywiodd yr anghenion cymorth ar gyfer cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn unol â chyfanswm ac ansawdd y cymorth a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol, a allai amrywio'n sylweddol ledled Cymru, yn ôl rhanddeiliaid.

"Mae'r holl beth yn dibynnu ar faint o gyllid sydd gan yr awdurdodau lleol. Efallai bydd gennych awdurdod lleol sydd â chyllid hyfforddi cyfyngedig iawn, ac un arall sydd â gwarged ac sy'n rhoi lawer o hyfforddiant ac amrywiaeth o hyfforddiant." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.114 Nododd ychydig o randdeiliaid fod anghenion cymorth yn amrywio o ran math o sefydliad, maint, cyfrwng iaith a lleoliad a, lle byddant yn bodoli, effeithiolrwydd y pwyllgorau rheoli. Argymhellon fod lleoliadau o'r un fath sy'n gweithredu mewn lleoliadau tebyg yn tueddu bod ag anghenion cymorth tebyg. Oherwydd hyn, roedd yr awdurdod lleol / consortiwm addysg fel arfer yn rhoi hyfforddiant grŵp a sesiynau gwybodaeth fesul rhanbarth a math o leoliad. Helpodd hyn i sicrhau bod yr hyfforddiant a'r wybodaeth a roddwyd yn benodol i anghenion y lleoliad. Roedd lleihau amser teithio hefyd yn cynyddu gwerth am arian a chyfleustod ar gyfer lleoliadau.

> "Mae gan bob lleoliad anghenion gwahanol. Nid yw'n fater o ateb sy’n addas i bawb. Rydym yn ceisio tyrru'r lleoliadau at ei gilydd cymaint â phosibl. Felly, mae eithaf llawer o'n lleoliadau yng ngogledd y sir, sy'n fwy gwledig, ac maent yn tueddu bod yn lleoliadau Cymraeg iaith gyntaf, felly bydd pawb yn y tîm yn cwrdd mewn lle canolog ac rydym yn dod â’r lleoliadau hynny at ei gilydd, ac maent yn cydweithio ac yn helpu ar bethau fel cynllunio, hunanwerthuso neu hyfforddiant sydd wedi digwydd a sut mae hynny wedi mynd. Rydym yn ceisio dod â nhw at ei gilydd mewn clystyrau hefyd fel bod dim angen iddynt deithio mor bell, a hefyd maent yn cwrdd â lleoliadau tebyg neu sydd â safbwyntiau tebyg." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.115 Mae'n bosib fod gan leoliadau mewn ardaloedd gwledig hefyd anghenion cymorth mwy dwys, yn ôl rhanddeiliaid. Argymhellodd rhai y dylai awdurdodau lleol a chonsortia addysg ymgynghori â lleoliadau gwledig i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel.

> "Dydw i ddim yn meddwl bod dealltwriaeth dda iawn o anghenion y Blynyddoedd Cynnar mewn ardaloedd [gwledig]. Rydych yn siarad am boblogaeth fwy gwasgaredig yn ddaearyddol, gyda niferoedd llai o blant yn yr amrediad oedran hwnnw yn ôl pob tebyg. Nid yw penderfyniadau o ran lle rydych yn mynd a sut rydych yn cael mynediad i bethau bob amser am ansawdd y gwasanaethau; mae weithiau yn ymwneud ag agosrwydd, weithiau mae'n ymwneud ag awydd i gadw cyfleuster penodol yn y gymuned ar agor. Rydw i'n meddwl, os ydych yn gofyn i'r

consortia reoli hyn, a dyna'r peth y dylwn ni fod yn ei wneud oherwydd dylent fod yn ei redeg, dylent fod yn gallu ei reoli'n lleol." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.116 Awgrymodd rhanddeiliaid eraill fod anghenion cymorth yn amrywio gydag amrediad oedran a chefndir y plant oedd yn mynychu'r lleoliad. Dywedon nhw fod cyflenwi darpariaeth ddi-dor o ansawdd uchel yn fwy heriol os oes gan leoliadau amrediad oedran eang, yn enwedig lle bo cyllid yn dod trwy’r rhaglen Dechrau'n Deg neu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

"Bydd yn dibynnu ar y cydbwysedd rhwng grwpiau oedran. O fewn y [lleoliad], mae gennych fabanod o chwe wythnos hyd at blant oedran ysgol. Mae angen i chi sicrhau bod y staff hynny â'r sgiliau hynny i roi sylw i’r holl elfennau, er mwyn cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen o fewn yr amgylchedd hwnnw. O gofio nad yw rhai o'r lleoliadau hyn yn cyflenwi’r Cyfnod Sylfaen yn unig, mae'n bosib y bydd ganddynt blant nad ydynt yn gymwys ar gyfer lleoedd a ariennir oherwydd nad ydynt wedi cyrraedd yr oedran, a rhai plant o’r rhaglen Dechrau'n Deg, felly mae gennych leoliad ag economi gymysg. (Cyfweliad â rhanddeiliad)

5.117 Nododd rhai rhanddeiliaid y gallai cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen fod yn fwy heriol lle nad yw prif iaith y plant yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yn wahanol i hyn, mae un sefydliad ymbarél wedi cynhyrchu arweiniad ar gyflewni addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gyfer rhieni sydd ag ystod o ieithoedd gwahanol. Hefyd, mewn ardaloedd mwy difreintiedig, roedd gan rieni drafferth weithiau yn deall sut roedd lleoliadau yn cefnogi addysg gynnar eu plant.

"Pan fo ganddynt bum neu chwe iaith wahanol o fewn eu lleoliad a bod ganddynt y rhwystrau iaith hynny gyda phlant a theuluoedd, gall fod yn fwy heriol iddynt gyflenwi darpariaeth effeithiol o'r Cyfnod Sylfaen nag y byddai ar gyfer lleoliad nad oes ganddo'r rhwystrau iaith hynny … Hefyd, o dro i dro o fewn lleoliadau ac ardaloedd Dechrau'n Deg, gellir cael sefyllfa lle mae angen mwy o gymorth ar rieni i ddeall yr hyn rydych yn ei wneud o fewn y lleoliad." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

## 6. Addysg gynnar: y dyfodol

6.1 Yn yr adran hon, amlinellir y canfyddiadau allweddol sy'n berthnasol i gwestiynau am ddatblygiadau sector ar y gweill a sut y gallant effeithio ar leoliadau nas cynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys y cwricwlwm newydd, Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, a Cymraeg 2050.


**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Mae yna ddryswch ynglŷn â gofynion y cwricwlwm newydd rhwng lleoliadau a'r newidiadau y byddai'n rhaid iddynt eu gwneud. Mae rhanddeiliaid yn enwedig yn teimlo bod angen codi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth glir, gyson a hygyrch. Maent yn awgrymu bod bylchau yn nealltwriaeth y lleoliadau o faterion, gan gynnwys eglurder o ran pa oedran y byddai plant yn cael mynediad at y cwricwlwm, natur lai cyfarwyddol y cwricwlwm newydd, datganiadau 'yr hyn sy'n bwysig', a’r Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Mae ymwybyddiaeth o Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn isel iawn ymhlith y rhan fwyaf o leoliadau ond mae'r rhan fwyaf yn cefnogi'r egwyddorion o ddarpariaeth ddi-dor o addysg a gofal plant cynnar.
- Mae angen cymorth bellach ar leoliadau i arfogi staff ac annog rhieni i gefnogi’r gwaith o gyflwyno Cymraeg 2050.
- Mae angen mwy o ymgysylltu, ymgynghori, gwybodaeth a hyfforddiant ar y materion polisi a datblygiadau sector hyn.

### Y cwricwlwm newydd

6.2 Gofynnwyd i leoliadau am eu hymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd a rhoddodd rhanddeiliaid hefyd eu barn ar ganfyddiadau o ymwybyddiaeth y sector.

**Ffigur 9: Pa mor ymwybodol ydych chi o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch galluogi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd?**




Sampl 215 = 22* cylchoedd chwarae cyn ysgol; 62 o gylchoedd meithrin; 67 o feithrinfeydd dydd; 67 o warchodwyr plant (*rhybudd - sampl isel)

6.3 Roedd ymwybyddiaeth ymhlith lleoliadau yn gymysg mewn perthynas â'r newidiadau oedd eu hangen er mwyn cyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd. Roedd y rhan fwyaf (90%) o ymatebwyr i'r arolwg o gylchoedd chwarae cyn ysgol o leiaf ychydig yn ymwybodol o'r newidiadau oedd angen eu gwneud, a gwarchodwyr plant (51%) oedd y lleiaf ymwybodol ohonynt.

6.4 Roedd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ddarparwyr addysg cofrestredig yn fwy ymwybodol o'r newidiadau yr oedd angen iddynt eu gwneud (74% yn o leiaf ychydig yn ymwybodol) o'u cymharu â darparwyr addysg anghofrestredig (49% yn o leiaf ychydig yn ymwybodol).

6.5 Ymchwiliwyd i ymwybyddiaeth ymhellach yn y cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid a lleoliadau. Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau fod ganddynt ymwybyddiaeth sylfaenol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd, er bod gan ychydig iawn wybodaeth fanwl amdanynt. Roedd y rheini a oedd wedi mynychu hyfforddiant yn ei

gael yn ddefnyddiol. Dywedodd nifer eu bod yn gwbl anymwybodol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd a'r newidiadau y byddai angen iddynt eu gwneud i'w cyflenwi neu eu cefnogi.

6.6 Roedd y rheini â rhai ymwybyddiaeth yn cael gwybod trwy'r dulliau canlynol:

- Hyfforddiant a redwyd gan y consortia neu awdurdodau lleol yn y flwyddyn ddiwethaf (nodwyd gan ychydig yn unig)
- Gwybodaeth gychwynnol a roddwyd gan awdurdodau lleol neu sefydliadau ymbarél ar amserlenni
- Trafodaethau ag athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, athrawon ymgynghorol neu eraill
- Eu hymchwil eu hunain ar-lein neu drwy ofyn i eraill.

**Dryswch ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r Cyfnod Sylfaen yn y cwricwlwm newydd**

6.7 Yn ystod y cyfweliadau manwl, nododd lleoliadau a rhanddeiliaid fod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â pha oedran y byddai plant yn dechrau cael mynediad i'r cwricwlwm newydd. Meddyliodd rhai y byddai'n berthnasol i blant tair blwydd oed ac yn hŷn, a meddyliodd eraill ei fod ar gyfer plant sy'n bump oed neu'n hŷn. Roeddent yn disgwyl i fersiwn ddiweddaraf o'r cwricwlwm gael ei chyhoeddi a oedd yn berthnasol i amrediad oedran y plant oedd yn mynychu eu lleoliad.

> "Rydw i wedi edrych ar y cwricwlwm newydd ar gyfer 2022. Ar hyn o bryd, mae'n seiliedig ar blant tair blwydd oed … Edrychon ni a rhai grwpiau eraill arno mewn cyfarfod rhwydwaith a theimlon nad yw wir yn myfyrio ar ein grŵp oedran. Byddech wedi mawr gobeithio erbyn iddo ddechrau y byddent wedi'i addasu i'n hamrediad oedran." (Cyfweliad â lleoliad)

6.8 Ym marn rhai lleoliadau, roedd eu consortia yn ansicr o ran sut i roi hyfforddiant i leoliadau nas cynhelir gan eu bod nhw, hefyd, ar ddeall bod y cwricwlwm ond yn berthnasol i'r rheini oedd yn bum mlwydd i 16 oed.

> "Nid oes un cam cynnydd ar gyfer sector y Blynyddoedd Cynnar o gwbl oherwydd eich bod yn dechrau gyda'r dosbarth derbyn. Ffug hysbysebu? Ydynt

wedi anghofio amdanom? Pwy a ŵyr? "Sut gallant hysbysebu'r cwricwlwm newydd fel dechrau'n dair oed pan fo'r plant tair oed heb hyd yn oed wedi eu cynnwys ynddo gwn i ddim … Siaradais â'm hathro cyswllt ddoe ynglŷn â hyn, dweud y gwir, ac ein cynllun oedd dechrau cyflwyno'r pethau hyn ym mis Medi, gan weithio gyda meysydd dysgu, felly ar hyn o bryd rydym yn gwneud saith ohonynt, ond o fis Medi yn mynd i chwe maes dysgu, gan gwmpasu'r pedwar diben, ond ni allwn wneud hynny oherwydd does dim gennym i'w seilio arno." (Cyfweliad â lleoliad)

6.9 Nodwyd y byddai digwyddiadau ymgysylltu Llywodraeth Cymru a gynlluniwyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau a nodi anghenion cymorth y dyfodol, a fyddai'n mynd rhywfaint o'r ffordd i ddileu dryswch ynglŷn â newidiadau'r dyfodol.

"Mae llawer o sôn am ysgolion yn dechrau o bump oed. Mae'n hawdd drysu mewn perthynas â hynny. Mae'r sibrydion ynghylch newyddion drwg yn dechrau lledaenu llawer yn gynt na'r negeseuon calonogol. Mae pobl yn tueddu dychryn, gan ddweud bod y Cyfnod Sylfaen yn diweddu. Yr un peth [ydyw] o ran asesu. Nid yw'r asesiad statudol cyntaf yn dechrau tan bump oed felly ni fydd nifer o leoliadau yn ei ystyried yn berthnasol iddynt." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Codi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd**

6.10 Yn ystod y cyfweliadau manwl, nid oedd rhai lleoliadau ag ymwybyddiaeth isel iawn o'r newidiadau ar y gweill yn pryderu oherwydd roeddent yn disgwyl derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gan awdurdodau lleol, consortia addysg, Llywodraeth Cymru a/neu sefydliadau ymbarél yn bell cyn i'r cwricwlwm gael ei roi ar waith. Roedd eraill yn pryderu ychydig yn fwy ac yn cwestiynu pam nad oeddent wedi derbyn mwy o wybodaeth erbyn hyn.

6.11 Teimlodd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod gan leoliadau nas cynhelir rai ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd ond dim dealltwriaeth fanwl.

"Maent yn gallu siarad am eu darpariaeth a sut mae'n cyd-fynd â'r pedwar diben hwnnw. Yr hyn nad ydynt yn ymwybodol iawn ohono eto yw unrhyw beth sy'n ymwneud â datganiad 'yr hyn sy'n bwysig' a'r meysydd profiad dysgu newydd. Dydw i ddim yn poeni cymaint am y meysydd profiad dysgu, ni fydd hynny'n

broblem, ond gall dod i ddealltwriaeth o ddatganiad 'yr hyn sy'n bwysig' fod yn drafferthus." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.12 Soniodd nifer o randdeiliaid eu bod wedi gwneud penderfyniad amlwg i beidio â dweud wrth leoliadau am y newidiadau mewn manylder eto er mwyn osgoi eu gorlwytho ond eu bod yn bwriadu rhoi hyfforddiant manwl yn y dyfodol agos pan fo'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn gliriach a phan nad ydynt yn rhoi cymorth ar gyfer pethau eraill. Er enghraifft, roedd rhai rhanddeiliaid wedi blaenoriaethu cadw lleoliadau'n gyfredol â'r newidiadau diweddar i brosesau arolygu Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) oherwydd rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith cyn lansio fframwaith y cwricwlwm.

"Dydyn ni ddim wedi sôn lot amdani eto, oherwydd byddwn yn cynnal cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru lle y byddant yn cyflwyno pethau fel pecynnau cymorth. Felly, roeddem yn meddwl y byddem yn darganfod beth yn union sydd ynghlwm, a byddem wedyn yn cymryd camau o'r fan honno a chael gwybod pa hyfforddiant sydd ei angen ar leoliadau ac yn y blaen." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.13 Roedd rhanddeiliaid yn amau bod nifer y lleoliadau oedd ag ymwybyddiaeth fanwl yn isel oherwydd y diffyg gwybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn gan awdurdodau lleol, consortia addysg a sefydliadau ymbarél.

"Y teimlad dwi'n ei gael o hynny yw y bydd nifer bach iawn o leoliadau blaengar iawn â gwybodaeth dda sydd yn deall am beth mae'r cwricwlwm newydd. Mae'r rhai eraill ond yn aros am lu o waith papur i'w bwrw i ddweud wrthynt beth y mae. Mewn ffordd, er gwaetha'r drafodaeth ynghylch addysg, nid wyf yn meddwl ei fod yn hynod annhebyg i'r sefyllfa y bydd nifer o ysgolion yn ei chael mewn tair wythnos pan fo'r gwaith papur i gyd yn cael ei ryddhau." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Addasu darpariaeth i'r cwricwlwm newydd**

6.14 Efallai oherwydd ymwybyddiaeth sylfaenol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd mewn lleoliadau, teimlodd nifer bach iawn eu bod yn gallu gwneud sylw ar sut y byddai angen iddynt addasu eu darpariaeth.

6.15 Nid oedd ychydig o ymatebwyr yn rhagweld gorfod addasu eu darpariaeth llawer, os o gwbl, i alluogi iddynt gyflenwi neu gynorthwyo'r cwricwlwm newydd gan fod y cwricwlwm newydd hefyd yn ymgorffori egwyddorion allweddol y Cyfnod Sylfaen o ddysgu drwy chwarae neu ddysgu drwy brofiad. Byddai eu profiad helaeth o addasu darpariaeth hefyd yn eu helpu i wneud y newidiadau oedd eu hangen.

> "Mae'r ethos yn newid ond nid cymaint i ni gan ei fod yn dysgu drwy wneud." (Cyfweliad â lleoliad)

> "Hyd yn oed ar gyfer ein plant dwy flwydd oed, rydym yn gwahaniaethu ein gwaith cynllunio ar gyfer yr oedran hwnnw hefyd." (Cyfweliad â lleoliad)

6.16 Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw hefyd at y ffaith na ddylai fod angen i leoliadau addasu eu darpariaeth llawer pe byddent eisoes yn cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel ac roeddent yn bwriadu rhoi sicrwydd iddynt am hyn mewn gwaith ymgysylltu â’r sector yn y dyfodol.

> "Dydw i ddim am iddynt feddwl mai rhywbeth cwbl newydd iddynt ydyw, oherwydd os oes ganddynt ddarpariaeth ac addysgeg o ansawdd da yn eu lleoliad, dyna am beth yw'r cwricwlwm. Rydym yn mynd i gael hyfforddiant yn nhymor yr haf ar y cwricwlwm newydd a byddwn yn dechrau siarad â nhw amdano, a byddwn yn dweud mwy neu lai, ‘Drychwch, chi'n neud lot o hyn yn barod.’" (Cyfweliad â rhanddeiliad)


6.17 Fodd bynnag, nodwyd y bydd angen i leoliadau newid y ffordd maent yn meddwl a'u dull gweithredu i raddau helaeth i alluogi iddynt addasu eu darpariaeth gan fod y cwricwlwm sy'n bodoli eisoes yn rhagnodol tra bydd y cwricwlwm newydd yn mynnu bod lleoliadau yn cynllunio eu darpariaeth eu hunain yn erbyn y fframwaith. Nodwyd ganddynt y bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos ag awdurdodau lleol, consortia addysg a sefydliadau ymbarél penodol i roi cymorth addas wedi’i deilwra.

> "Y bwlch gwir sydd angen ei lenwi yw bod yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw rhywfaint o gwricwlwm rhagnodol … Nid yw'r newid diwylliannol mawr fan hyn yn ymwneud â rhoi popeth i [leoliadau] ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud o ddydd i ddydd ond i'w hannog i feddwl dros eu hunain ynglŷn â sut olwg sydd ar y cwricwlwm." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cynorthwyo lleoliadau i gyflenwi'r cwricwlwm newydd**

6.18 Gofynnwyd i leoliadau yn ystod yr arolwg ar-lein a'r cyfweliadau manwl dilynol ynglŷn â'r cymorth y byddai angen arnynt o bosib. Rhoddwyd safbwyntiau gan randdeiliaid hefyd.

**Ffigur 10: Pa wybodaeth neu gymorth ydych chi'n credu y bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd?**




Sampl 214 = 22* o gylchoedd chwarae cyn ysgol; 61 o gylchoedd meithrin; 67 o feithrinfeydd dydd; 67 o warchodwyr plant (*rhybudd - sampl isel)

6.19 Nodwyd hyfforddiant gan yr holl (100%) ymatebwyr o gylchoedd chwarae cyn ysgol i fod yn fath o gymorth a oedd ei angen i helpu i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd. Fe'i nodwyd hefyd gan y rhan fwyaf o warchodwyr plant (84%), cylchoedd meithrin (82%) a meithrinfeydd dydd (81%).

6.20 Pan ofynnwyd pa hyfforddiant penodol y byddent yn ei hoffi i helpu i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd, 'hyfforddiant cyffredinol' (23%) oedd y mwyaf cyffredin a nodwyd. Yn ôl pob golwg, roedd ymatebwyr ond am gael mynediad i'r wybodaeth gywir, yn hytrach na rhestru anghenion hyfforddiant penodol.

6.21 Cymorth gan athrawon ymgynghorol oedd yr hyn a gafodd ei sylwi fwyaf aml gan ymatebwyr i'r arolwg o gylchoedd meithrin (72%). Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr o gylchoedd meithrin (51%) a gwarchodwyr plant (61%) y byddai angen cymorth gyda darparu offer o'u cymharu â mathau eraill o leoliadau. Dywedodd oddeutu hanner (49%) o warchodwyr plant y byddai angen cymorth ariannol arnynt.

6.22 Heb fawr o syndod, efallai, roedd y lleoliadau ag ymwybyddiaeth isel yn ansicr ynglŷn â pha wybodaeth a chymorth, os unrhyw rai o gwbl, y byddai angen arnynt i'w cyflawni hyn o bosib.

6.23 Roedd rhai lleoliadau â llai o ymwybyddiaeth yn poeni y byddai'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn gosod gofynion ychwanegol arnynt ac roeddent yn aneglur o ba le y byddai'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt yn dod.

> "Mae angen mwy o wybodaeth arnom ynglŷn â'r hyn sydd angen ei newid. A fydd yn ariannol? A fydd hyfforddiant staff yn costio arian i ni? Faint mwy o waith papur bydd hyn yn golygu i ni? A fydd llai o waith papur? Dwi'n amau hynny'n fawr. A hefyd, pwy fydd yn ein cynorthwyo i wneud y newidiadau hyn? Ai'r Mudiad neu gyngor y sir a fydd yn gwneud hyn neu a fydd y ddau ohonom yn ein cefnogi? (Cyfweliad â lleoliad)

6.24 Esboniodd nifer o randdeiliaid y byddent yn addasu eu dull o gefnogi lleoliadau unwaith iddynt gael y cyfle i fynd i'r afael â'r hyn y byddai'r newidiadau yn eu golygu iddynt. Pwysleisiodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru y byddai eu digwyddiadau ymgysylltu arfaethedig yn eu galluogi i nodi anghenion cymorth y dyfodol.

6.25 O ran pynciau eraill, pwysleisiodd nifer o leoliadau y dylai lleoliadau nas cynhelir ac a gynhelir gael eu cefnogi yn yr un modd i'w gilydd i alluogi iddynt gyflenwi addysg gynnar i'r un safonau. Roedd argraff nad yw'r sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir wedi cael eu trin yn yr un modd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fel awdurdodau lleol wrth baratoi ar gyfer lansio'r cwricwlwm newydd.

> "Rhaid i awdurdodau lleol ddangos cymorth i'r meithrinfeydd dydd. Yn amlwg, byddant yn rhoi cymorth i'r ysgolion, ond mae angen iddynt roi cymorth i'r meithrinfeydd dydd. Maent yn chwarae rhan fawr iawn mewn addysg gynnar." (Cyfweliad â lleoliad)

6.26 Amlygodd rhai rhanddeiliaid y byddai'r newidiadau ar y gweill yn cyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i ehangu gwaith partner rhwng lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir i sicrhau bod y ddau yn derbyn yr un negeseuon ac yn cyflenwi darpariaeth gyson.

> "Byddai'n wych pe bawn yn gallu ei gyflawni fel bo dim darpariaeth ar wahân ar gyfer y rheini nas cynhelir. Fel arall, rwyt ond yn parhau â’r gwahaniad presennol … Mae rhai enghreifftiau gwych o [leoliadau] a gynhelir a nas cynhelir yn gweithio'n agos iawn â'i gilydd. Mae enghreifftiau anhygoel o ddarpariaeth wedi'i chyd-leoli, lle bo'r pennaeth ac arweinwr y lleoliad yn ei ddeall yn llwyr gan eu bod yn gallu gweld y manteision ohoni." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Hyfforddiant, digwyddiadau a chymorth arall sydd ei angen**

6.27 Dywedodd bron i bob leoliad oedd â rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd y byddai angen hyfforddiant arnynt i’w helpu i addasu eu darpariaeth. Awgrymodd rhai y gallai eu sefydliadau ymbarél ddarparu rhywfaint o hyn. Teimlodd eraill y dylai fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r consortia addysg, yn dibynnu ar y pwnc dan sylw.

6.28 Roedd lleoliadau oedd yn llai ymwybodol o'r newidiadau ar y gweill yn ansicr o ran y math o hyfforddiant y gallai fod ei angen arnynt.

> "Dwi'n meddwl y gallai fod eisiau inni gael hyfforddiant ar yr hyn sy'n newid o bosib a'r hyn sy'n ofynnol gennym o fewn y cwricwlwm newydd. Nid wyf yn gwybod unrhyw beth am y cwricwlwm newydd felly mae'n anodd ei ddweud." (Cyfweliad â lleoliad)

6.29 Roedd pynciau penodol a argymhellwyd ar gyfer hyfforddiant i gyflenwi'r cwricwlwm newydd yn cynnwys y canlynol:

- **Rhoi enghreifftiau o arfer effeithiol** wrth gyflenwi agweddau gwahanol y cwricwlwm.
- **Arweiniad ar deilwra'r cwricwlwm i'r Blynyddoedd Cynnar:** awgrymodd rhanddeiliaid y byddai angen cymorth ar leoliadau i ddehongli manylion mân y newidiadau ac i ddeall sut maent yn berthnasol iddynt.

- **Prosesau asesu:** er y dywedodd rhai lleoliadau eu bod yn defnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd i asesu plant, roeddent yn disgwyl i'r dull hwn newid yn unol â'r newidiadau ehangach i'r cwricwlwm. Gwnaethant dynnu sylw at yr angen i'r holl aelodau staff mewn lleoliadau nas cynhelir dderbyn gwybodaeth gyson ynghylch yr holl newidiadau i drefniadau asesu sydd ar y gweill. Adleisiodd rhanddeiliaid o sefydliadau ymbarél yr angen am gymorth manwl i ddeall a gweithredu'r newidiadau i drefniadau asesu.
- **Arweiniad ar gynllunio i gyflwyno'r cwricwlwm o fewn** lleoliadau: roedd hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau ymlaen llaw a sicrhau eu bod yn adlewyrchu deilliannau dysgu'r cwricwlwm yn llawn. Mae angen i hyn hefyd fod mewn iaith hygyrch gan fod arweiniad presennol gan awdurdodau lleol wedi'i anelu at ysgolion yn hytrach na'r sector nas cynhelir. Byddai lleoliadau yn hoffi mwy o eglurhad ar sut i weithredu a dehongli'r arweiniad.
- **Anghenion dysgu ychwanegol:** byddai lleoliadau yn croesawu hyfforddiant a chymorth arbenigol ar sut i nodi anghenion dysgu ychwanegol a rhoi cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad i'r cwricwlwm.

"Nid oedd y ddogfen oedd gennym ar y trefniadau drafft ar gyfer asesu yn ddigon clir er mwyn edrych ar y sector nas cynhelir, yn fy marn i. Roedd gennym y camau cynnydd, ac ar hyn o bryd mae gennym broffil y Cyfnod Sylfaen, y mae pobl wedi rhoi sylw iddo. O'r diwedd, rydym wedi derbyn yr asesiad hwnnw sy'n cysylltu â'r deilliannau mewn gwirionedd. Mae pawb ond yn dod i'w ddeall, a nawr rydym yn edrych ar newid pethau eto. Dwi'n meddwl bod gwir angen i ryw fath o gymorth pan fyddwn yn edrych ar yr asesiad hwnnw sy'n cysylltu â'r cam cynnydd cychwynnol cyntaf hwnnw ac sy'n gweithio tuag ato." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.30 Awgrymodd rhai lleoliadau a rhanddeiliaid y byddai pwyllgorau neu ddigwyddiadau rhanbarthol ynghylch y cwricwlwm newydd yn fuddiol a dylid eu trefnu neu'u hwyluso gan Lywodraeth Cymru, sefydliadau ymbarél ac awdurdodau lleol mewn partneriaeth. Dywedodd y lleoliadau a rhanddeiliaid hyn y dylai'r digwyddiadau hyn:

- Amlinellu sut y disgwylir i leoliadau nas cynhelir gyflenwi a/neu gefnogi’r cwricwlwm newydd
- Sicrhau bod lleoliadau yn derbyn gwybodaeth gyson
- Rhoi cyfleoedd hyfforddi ar y cyd ar gyfer mathau gwahanol o leoliadau
- Rhoi cyfleoedd i'r sector rwydweithio a chyfnewid syniadau.

6.31 Pwysleisiodd lleoliadau'r angen am adnoddau, gwybodaeth a chymorth gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ac y dylai hyn fod yn gyson rhwng mathau o leoliadau i'w galluogi i gyflenwi'r cwricwlwm newydd i'r un safonau. Cytunodd nifer o randdeiliaid, gan awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau y derbynnir gwybodaeth gyson gan leoliadau a gynhelir a nas cynhelir. Gwnaethant nodi y byddai angen i hyn gael ei gyflwyno ychydig ar y tro er mwyn osgoi gorlwytho lleoliadau.


> "Pan ddechreuodd Y Cyfnod Sylfaen, roedd cymaint o waith papur, ac roedd yn rhaid i ni roi cymaint o wybodaeth iddynt ar y Cyfnod Sylfaen. Yn y diwedd, roedd siwtces llawn o bapur bron. Gyda'r cwricwlwm newydd, bydd angen i'r holl waith papur hwn gael ei ddiweddaru, felly rhaid inni fod yn ofalus o ran faint o wybodaeth rydym yn ei rhoi iddynt." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.32 Rhaid i’r holl wybodaeth a roddir i leoliadau er mwyn eu cynorthwyo â’r gwaith o gyflenwi'r cwricwlwm newydd fod yn glir, yn gryno ac yn hawdd ei deall, a chael ei chreu mewn iaith hygyrch, yn ôl rhanddeiliaid. Gan nad yw'r rhan fwyaf o staff mewn lleoliadau yn athrawon cymwys, roedd rhai rhanddeiliaid yn rhagweld y gallent ei chael yn anodd deall terminoleg addysgol benodol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir esbonio hefyd pam na ddylid defnyddio'r term "Cyfnod Sylfaen" o hyn ymlaen.

**Model plentyndod a gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar**

6.33 Gofynnwyd i leoliadau yn yr arolwg ar-lein a'r cyfweliadau manwl dilynol ynglŷn ag ymwybyddiaeth o Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a pha gymorth y gallai fod ei angen arnynt. Rhoddwyd safbwyntiau gan randdeiliaid hefyd.

**Ffigur 11: Yn yr hirdymor, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r syniad hwn?**




Sampl 215 = 62 o gylchoedd meithrin; 68 o warchodwyr plant; 21* o gylchoedd chwarae cyn ysgol; 67 o gylchoedd meithrin (*rhybudd - sampl isel)

6.34 Yn yr arolwg, roedd ymwybyddiaeth o Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn isel ar draws yr holl fathau o leoliadau. Er ei fod o hyd yn isel, roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf ymysg ymatebwyr o gylchoedd meithrin (roedd 46% ohonynt o leiaf ychydig yn ymwybodol).

6.35 Yn ystod y cyfweliadau manwl, roedd bron yr holl leoliadau yn anymwybodol o'r model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar. Rhagwelodd y rhan fwyaf o randdeiliaid dyma fyddai'r achos ond teimlon y byddai ymwybyddiaeth yn amrywio o leoliad i leoliad yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad staff unigol.

6.36 Pan esboniwyd egwyddorion sylfaenol y model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar i ymatebwyr lleoliadau, dywedodd nifer eu bod eisoes yn cyflenwi addysg a gofal plant di-dor.

"Dwi ddim yn meddwl bod y gwahaniad yno o reidrwydd beth bynnag. Pan fyddwn yn cyflenwi addysg, caiff ei chyflenwi ar draws y bwrdd ac nid yn unig i blant tair oed. Mae gennym bethau yn eu lle felly mae amrywiaeth o ran yr addysg rydym yn ei chyflenwi hefyd, ac mae gofal plant yn dod ochr yn ochr â hynny." (Cyfweliad â lleoliad)

6.37 I'r gwrthwyneb, tynnodd lleoliadau eraill sylw at yr anghysondebau presennol rhwng cyflenwi addysg a gofal plant yng Nghymru, gan awgrymu y gallai model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar helpu i ddod â gwell cysondeb rhwng y ddau endid.

"Dylai pawb gael yr un addysg a gofal os dyma'r hyn a olygir ganddynt. Mae anghysondeb mawr hyd yn oed rhwng ysgolion, ond oes? Cynorthwywyr addysgu i ddechrau, mae gan rai ysgolion 15 ohonynt a rhai ohonynt dri. Rwy'n gwybod bod hynny i'w wneud â chyllid, ond nid oes cysondeb yno." (Cyfweliad â lleoliad)

6.38 Roedd y rhan fwyaf o'r nifer bach iawn o leoliadau a oedd eisoes yn ymwybodol o Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn argymell ei roi ar waith yn y dyfodol oherwydd y byddai'n rhoi darpariaeth gynhwysol, gyson a symlach ar gyfer plant drwy gydol yr amrediad oedran.


"Rydw i wastad wedi annog rhywbeth fel hyn. Ni ellir gwahaniaethu yn erbyn [plant]. Maent yn dysgu'n syth o'r adeg byddant yn dod i mewn i leoliad gofal neu addysg. Byddai system nad yw'n gorffen yn dair [blwydd oed] o werth. Rydym yn dilyn y cynlluniau o enedigaeth hyd at dair oed. Ni ddylai fod o enedigaeth hyd at dair oed, ond o enedigaeth ac uwch. Mae angen iddo adeiladu ar hynny wrth symud ymlaen" (Cyfweliad â lleoliad)

6.39 Roedd un rhanddeiliad yn argymell yn gryf y dylid symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, gan nodi bod aelodau eisoes yn cyflenwi addysg a gofal di-dor.

"Yr hyn maent yn ei ddweud yw nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng addysg a gofal ar hyn o bryd felly mae'n gwneud synnwyr perffaith iddynt a dyna fel y dylai fod. Mae cymorth gan [sefydliad ymbarél] a'r hyn rydym wedi'i glywed gan aelodau. I aelodau, pan fyddant yn ei ystyried o safbwynt syml iawn, nid ydynt yn gallu deall pam nad yw fel hynny yn barod." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cefnogi lleoliadau i baratoi ar gyfer y model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar**

**Ffigur 12: Pa fath o gymorth ydych chi'n meddwl y bydd angen arnoch efallai i baratoi ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn eich lleoliad?**




Sampl = 59 o ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar

6.40 Y peth mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ymwybodol o fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar oedd hyfforddiant fel math o gymorth angenrheidiol er mwyn paratoi. Nodwyd cymorth ariannol gan oddeutu hanner yr ymatebwyr (51%), gyda chymorth gan athrawon ymgynghorol (42%) y trydydd math o gymorth a soniwyd amdano amlaf.

6.41 Dywedodd dau draean (66%) o’r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar eu bod yn meddwl mai timau Blynyddoedd Cynnar awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i roi'r cymorth hwn. Nodwyd 59% ohonynt mai sefydliadau ymbarél sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni hyn, a dywedodd 41% mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau.

### Hyfforddiant a chymorth arall sydd ei angen

6.42 Heb fawr o syndod, efallai, o ganlyniad i'w hymwybyddiaeth isel o’r model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, ond ychydig iawn o leoliadau a oedd yn gallu gwneud sylwadau ar y cymorth y gallai fod ei angen arnynt i'w helpu i baratoi amdano. Amlygwyd yr angen am ymgynghoriad cyflawn a chynnar.

> “Byddai angen yr wybodaeth a'r cyfle i ymateb hefyd arnom cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, drwy ymgynghoriadau ac ati." (Cyfweliad â lleoliad)

6.43 Pwysleisiodd lleoliadau y byddai hyfforddiant cychwynnol a dilynol hygyrch o ansawdd uchel ei angen er mwyn helpu i baratoi ar gyfer unrhyw newid i fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, ac i sicrhau eu bod yn ei ddeall yn llawn ac yn hyderus o ran cyflawni gwaith yn unol ag ef.

> "Dwi'n meddwl efallai bach o hyfforddiant pob nawr ac yn y man … Dwi'n meddwl y byddai mor hawdd i unigolyn fynd i sesiwn hyfforddi, a pheidio â'i wir ddeall, ac wedyn cael trafferth yn ei gyflwyno. Wedyn dyma arolygiadau a phethau tebyg lle mae trafferthion yn gallu codi; mae pobl yn sgorio'n isel. Dwi'n meddwl os oes rhywun yno i'w gymeradwyo neu hyd yn oed holi'r cwestiwn, "Beth ydych wedi ei gael ohono?" Pe byddech yn gallu dweud yn glir, er enghraifft, fod yr unigolyn hwn wedi gwneud hyn neu'r llall ac mae wedi ei ddeall, byddai llawer llai o drafferth yn y dyfodol." (Cyfweliad â lleoliad)

6.44 Yn yr un modd â bron yr holl bynciau eraill a drafodwyd, pwysleisiodd lleoliadau a rhanddeiliaid yr angen i drin lleoliadau nas cynhelir ac a gynhelir yn gyfartal wrth ystyried unrhyw gam tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae hyn yn ymwneud â'r ymagwedd tuag at ymgynghori, gwybodaeth, cyngor a chymorth.

> "Bydd amrywioldeb gennych bob tro, ac, ar ddiwedd y dydd, mae pawb yn gweithredu ychydig yn wahanol i'w gilydd, ac mae gan bawb fodel busnes gwahanol. Mae angen i'r un elfen graidd o gymorth fod yno ar gyfer pawb, wedyn, os oes rhwystrau a chymorth ychwanegol, dwi'n meddwl y dylai'r sefydliadau ymbarél ac athrawon ymgynghorol gydweithio i lenwi'r bylchau hynny." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Ystyriaethau wrth weithredu**

6.45 Mae ychydig o bryderon ymysg lleoliadau y gallai symud i fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar arwain at leoliadau nas cynhelir yn colli plant i leoliadau a gynhelir, a allai arwain at rai lleoliadau nas cynhelir yn dod yn anghynaladwy.

> "Gallaf ddychmygu y byddai hynny'n gwneud synnwyr mewn rhai ardaloedd. Mae'n dibynnu ar ble rydych a'r ddarpariaeth sydd ar gael. Pe baech yn eu huno, gallai fod posibilrwydd y byddai cylchoedd yn colli plant, efallai, ac wedyn byddai'n fwy tebygol y byddent yn aros yn y feithrinfa yn lle mynd i gylch meithrin i gael addysg a gofal plant." (Cyfweliad â lleoliad)

6.46 Er i'r rhan fwyaf deimlo hefyd ei fod yn rhy gynnar i ddweud pa gymorth y gallai fod ei angen ar leoliadau i'w helpu i weithredu'r model Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, roedd ychydig o randdeiliaid yn hyderus y byddai lleoliadau yn addasu gyda brwdfrydedd i unrhyw gam tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar. Gwnaethant nodi bod lleoliadau wedi ymdopi'n dda â'r nifer o newidiadau mewn polisi yn y blynyddoedd diwethaf ac roedd disgwyl iddynt ymateb mewn ffordd debyg i unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

> "Dwi'n meddwl bod y sector wedi ymdopi â nifer uchel o bolisïau ar hyd y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn sector sy'n llwyddo i addasu ein gwasanaeth a derbyn newidiadau. Ers i mi fod yn [sefydliad ymbarél], rydym wedi cael arolygiad gan Estyn, arolygiad gan AGC a newidiadau i'r cymwysterau - rydym wedi profi cymaint o newidiadau. Rydym yn sector hyblyg ac ymaddasol." (Cyfweliad â rhanddeiliad)


6.47 Rhybuddiodd rhai bod angen gofalu nad yw lleoliadau yn cael eu gorlwytho gyda newidiadau polisi newydd wrth iddynt barhau i weithio i addasu i'r pentwr o bolisïau newydd a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhaid ystyried amseriad unrhyw bolisïau newydd yn ofalus.

> "Un o'r pethau rwy'n ymwybodol ohono yw … eu bod wedi gweld llawer o newidiadau … mae angen inni fod yn ymwybodol o'u gallu i amsugno hynny i gyd wrth geisio rhedeg busnes, a'i wneud mewn hinsawdd economaidd lle bo ganddynt heriau fel cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol. Rhaid inni fod yn ofalus o ran eu capasiti i ddelio â hyn i gyd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cymraeg 2050**

6.48 Gofynnwyd i leoliadau yn yr arolwg ar-lein a'r cyfweliadau manwl dilynol ynglŷn ag ymwybyddiaeth o Cymraeg 2050 a pha gymorth y gallai fod ei angen arnynt i'w gweithredu. Rhoddwyd safbwyntiau gan randdeiliaid hefyd.

**Ffigur 13: Pa mor ymwybodol ydych chi o'r newidiadau y bydd angen i chi/eich lleoliad eu gwneud i'ch helpu chi i gyfrannu tuag at y gwaith o gyflawni nodau Cymraeg 2050?**




Sampl 215 = 22* o gylchoedd chwarae cyn ysgol; 62 o gylchoedd meithrin; 67 o feithrinfeydd dydd; 67 o warchodwyr plant; (*rhybudd - sampl isel)

6.49 Roedd ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd eu hangen i helpu i gyfrannu tuag at 'Cymraeg 2050' uchaf ymhlith ymatebwyr o gylchoedd chwarae cyn ysgol (roedd 88% o leiaf ychydig yn ymwybodol ohoni) a'r isaf ymysg gwarchodwyr plant (roedd o leiaf 51% ychydig yn ymwybodol).

6.50 Yn ystod y cyfweliadau manwl, roedd y rhan fwyaf o gylchoedd meithrin yn ymwybodol iawn o 'Cymraeg 2050' a'r newidiadau y byddai angen eu gwneud i alluogi iddynt gyfrannu at gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ond roedd ychydig o gylchoedd meithrin yn llai ymwybodol.

"Pe bawn yn gwybod yr hyn oedd ar y gweill a'r newidiadau byddai angen eu gwneud, gallwn wneud sylw arno. Dydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw newidiadau. Does gen i ddim manylion o'r newidiadau sydd angen eu gwneud." (Cyfweliad â lleoliad)

6.51 Roedd y rhan fwyaf o leoliadau eraill yn ymwybodol o 'Cymraeg 2050', ei hamcanion, a'u rôl o ran helpu i'w cyflawni, er bod cyfran fach yn llai sicr ohoni.

"Dwi'n meddwl fy mod i wedi clywed rhywbeth amdani. Mae [aelod staff] yn ymweld â ni o Flynyddoedd Cynnar Cymru i wneud ychydig o weithgareddau yn y Gymraeg gyda ni. Mae hefyd yn ein helpu os oes angen gwirio unrhyw beth. Ond mae'r hyn rwyt newydd sôn amdani, rydw i wedi clywed amdani, ond dydw i ddim yn gwybod unrhyw beth amdani." (Cyfweliad â lleoliad)

6.52 Yn ôl rhanddeiliaid, ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o leoliadau yn ymwybodol o 'Cymraeg 2050' a'i nodau ond yn teimlo bod hyn yn amrywio, yn dibynnu ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn y lleoliad ac yn yr ardal leol. Roeddent yn rhagweld y byddai cylchoedd meithrin mewn ardaloedd lle bo defnydd eang o'r Gymraeg yn fwy ymwybodol na lleoliadau eraill.

6.53 Roedd nifer o randdeiliaid wedi cyflenwi hyfforddiant ar 'Cymraeg 2050', ac roedd rhai ohonynt wedi dynodi staff i gefnogi lleoliadau i ddatblygu eu darpariaeth o'r Gymraeg.

6.54 Dywedodd ychydig o randdeiliaid eu bod yn rhannu syniadau â lleoliadau i'w hannog i integreiddio'r defnydd o Gymraeg i weithgareddau bob dydd, yn lle cadw'r iaith ar gyfer amserau neu sesiynau penodol, gyda'r bwriad o hybu hyder staff i siarad mwy o Gymraeg.


"Weithiau, byddwch yn ffeindio, os oes diffyg hyder arnynt, maent yn meddwl "maybe we'll do Welsh now", ond rydym am weld defnydd ohoni drwy gydol y gweithgareddau. Rydym yn ceisio rhoi syniadau gwahanol iddynt gyda themâu gwahanol er mwyn iddynt fod yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydol y dydd, yn lle meddwl "now sitting down doing songs in Welsh". Hynny yw, rhoi cymorth gwirioneddol iddynt er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith gydag unrhyw themâu maent yn eu gwneud." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.55 Amlinellodd nifer o leoliadau sy'n gweithredu yn bennaf yn Saesneg sut maent yn hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd eu darpariaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cyflogi siaradwyr Cymraeg rhugl i arwain ar ddatblygu'r Gymraeg yn y lleoliad
- Hyfforddi staff i ddeall a defnyddio Cymraeg sylfaenol gyda'r plant, fel caneuon, cyfarchion, y tywydd, a diwrnodau'r wythnos
- Creu arddangosfeydd, labeli, posteri a byrddau gwybodaeth dwyieithog
- Mynd â phlant i gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg.

**Cefnogi lleoliadau i gyflenwi/paratoi ar gyfer Cymraeg 2050**

**Ffigur 14: Pa wybodaeth neu gymorth, os o gwbl, ydych chi'n credu y bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyfrannu at gyflawni nodau Cymraeg 2050?**




Sampl 207 = 22* o gylchoedd chwarae cyn ysgol; 56 o gylchoedd meithrin; 66 o feithrinfeydd dydd; 67 o warchodwyr plant (*rhybudd - sampl isel)

6.56 Yn yr arolwg, soniwyd yn fwyaf aml am hyfforddiant fel math o gymorth yr oedd ei angen i helpu i gyfrannu tuag at Cymraeg 2050 gan ymatebwyr o gylchoedd chwarae cyn ysgol (68%), cylchoedd meithrin (57%) a gwarchodwyr plant (70%). Roedd y rhan fwyaf (67%) o ymatebwyr o feithrinfa dydd yn crybwyll cymorth Cymraeg.

6.57 Pan ofynnwyd pa fathau penodol o hyfforddiant byddent yn eu hoffi, y math o hyfforddiant a nodwyd gan amlaf oedd hyfforddiant Cymraeg (38%).

6.58 Yn ystod y cyfweliadau manwl â lleoliadau, dywedodd y rhan fwyaf o’r cylchoedd meithrin a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg nad oedd angen cymorth neu fod angen y cymorth lleiaf i'w helpu i gyflenwi neu baratoi ar gyfer Cymraeg 2050, hyd yn oed pe baent yn llai ymwybodol o nodau penodol y polisi. Y rheswm dros hyn oedd bod holl staff y lleoliad yn siarad Cymraeg yn rhugl a bod y rhan fwyaf o'r plant yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Atgyfnerthwyd hyn gan randdeiliaid eraill, a dynnodd sylw at y ffaith fod llawer o waith yn cael ei wneud i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn y lleoliadau hyn.

> "Gwneir popeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dosbarthir popeth i rieni a gofalwyr yn ddwyieithog. Rydym yn annog rhieni a gwarchodwyr plant [rydym yn eu gweld] i ddysgu'r iaith ac rydych ond yn gobeithio am y gorau a'n bod hefyd yn dangos enghraifft dda drwy drafod a defnyddio'r Gymraeg drwy'r amser. Dydw i ddim yn hollol sicr am yr hyn bydd angen i ni ei newid i gyflenwi'r polisi hwnnw."
> (Cyfweliad â lleoliad)

**Rhoi cymorth i leoliadau i hyrwyddo'r Gymraeg gyda rhieni**

6.59 Byddai nifer o leoliadau a leolir mewn ardaloedd lle bo llai o siaradwyr Cymraeg yn croesawu mwy o gymorth a chanllawiau i'w helpu i hyrwyddo'r Gymraeg gyda rhieni. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at ffaith fod rhai gwaith effeithiol eisoes yn mynd rhagddo o ran annog rhieni i ddefnyddio mwy o Gymraeg, ond roedd angen iddo gael ei ehangu a'i gydlynu.

> "Gallwch greu lleoliadau, sy'n beth gwych, ond mae rhieni am deimlo fel eu bod yn rhan ohoni er mwyn rhoi hyder i'w plant i siarad Cymraeg. Mae hyn hefyd yn

gyfle i rieni gwrdd â rhieni eraill. Efallai bod y ffaith fod eu plant yn mynd i Ti a Fi[13] yn gwneud iddynt deimlo ei bod yn bosib ei gyflawni. Dydyn ni ddim yn siarad lot o Gymraeg yn y cartref, ond byddant yn dysgu Cymraeg ac efallai yn mynd i ysgol Gymraeg wedyn. Mae'r cyfan oll fel jig-so cymhleth, hynny yw, cael popeth i gyd-fynd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.60 Nododd lleoliadau'r heriau eu bod yn eu hwynebu mewn perthynas â'r mater hwn:

- Gallai unrhyw Gymraeg fod plant yn dysgu gael ei cholli pe byddent yn symud i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, yn enwedig pe na siaredid Cymraeg gartref
- Mae angen perswadio rhai rhieni o werth addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hun
- Byddai wybodaeth i rannu â rhieni ar fanteision addysg Gymraeg yn werthfawr a byddai'n cyfrannu at nodau Cymraeg 2050.
- Mae rhai lleoliadau yn teimlo nad nhw sy'n gyfrifol am hyrwyddo addysg cyfrwng cyfrwng Cymraeg i rieni.

**Mae angen hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg pellach ar leoliadau**

6.61 Tynnodd y rhan fwyaf o leoliadau sylw at yr angen am fwy o hyfforddiant yn y Gymraeg ar staff i'w helpu i gyfrannu'n llawn at gyflawni nodau 'Cymraeg 2050'. Roedd rhyw fath o deimlad y dylai'r hyfforddiant hwn gael ei roi gan Lywodraeth Cymru (a Mudiad Meithrin mewn ychydig o achosion). Roedd hyn oherwydd eu bod yn teimlo mai'r llywodraeth yn y pendraw sy'n gyfrifol am sicrhau bod nodau Cymraeg 2050 yn cael eu cyflawni.

"Os oes gan y llywodraeth ei tharged, byddai'n braf iawn ei gweld yn talu ychydig yn fwy tuag ato neu gynnig grantiau i wneud cais amdanynt. Os ydych am ddefnyddio'r Gymraeg yn eich lleoliad, gallent roi arian i'ch helpu i fynychu cyrsiau ar amrywiaeth o lefelau. Erbyn hyn, rwyf wedi talu tua £500 ar fy hyfforddiant Cymraeg, sy'n swm mawr o arian, yn enwedig pan fyddwch ond yn ennill £40 y dydd, ond mae'n rhywbeth fy mod yn ei werthfawrogi ac yn ei weld yn

[13] Mae Ti a Fi yn gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan Fudiad Meithrin, y mae rhieni yn eu mynychu gyda'u plant.

bwysig, ond nid oes gan yr holl warchodwyr plant o reidrwydd yr hyblygrwydd yn eu hincwm, na'r ysgogiad, i barhau ag ef." (Cyfweliad â lleoliad)

6.62 Amrywiodd lefel dwyster yr hyfforddiant y byddai ei hangen er mwyn bodloni gofynion Cymraeg 2050 rhwng lleoliadau. Roedd lleoliadau yn aml yn teimlo bod angen hyfforddiant mwy dwys, manwl, yn enwedig mewn ardaloedd lle bo llai o Gymraeg yn cael ei siarad, a lle bo ychydig o staff sy'n siarad Cymraeg. Esboniodd rhai ohonynt fod angen hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg ar staff y tu hwnt i'r lefel sylfaenol a allai ehangu geirfa staff a phlant, yn enwedig ar gyfer y rhai a fydd o bosib yn mynd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Gyda mwy o hyfforddiant, byddai hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg hefyd yn codi, gan gynnwys y rheini sy'n siarad peth Cymraeg ond heb ei siarad yn y gwaith.

"Mae gennym o leiaf tri neu bedwar aelod o staff sy'n dweud nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, ond dwi'n gwybod eu bod yn gallu. Felly, mae hyder yr unigolyn a sut mae'n gwerthu ei hun yn her." (Cyfweliad â lleoliad)

6.63 Fodd bynnag, teimlodd rhai lleoliadau lle bo gan staff ychydig bach neu ddim gwybodaeth am y Gymraeg y byddai ond angen hyfforddiant sylfaenol yn yr achos cyntaf i roi hyder iddynt ei defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Gwnaethant dynnu sylw at angen am gyrsiau Cymraeg sylfaenol yn lle gwersi dwys.

6.64 Gan adleisio'r pwyntiau a godwyd mewn mannau eraill, pwysleisiodd rhai lleoliadau y dylai staff allu cael mynediad at hyfforddiant yn hawdd, gan ei wneud o gwmpas eu gwaith a'u hymrwymiadau teuluol. Nodwyd gan rai y byddai staff yn ei chael hi'n haws pe bai mynediad at hyfforddiant ar-lein neu o bell yn lle wyneb i wyneb, ond pwysleisiodd un arall yr angen i ynganiadau cywir gael eu haddysgu, a allai fod yn anodd eu deall ar-lein.

"Gellid cael gweminarau, rhywbeth lle y gellid dysgu ar-lein a dilyn y modiwl. Gallent wneud fideo bach lle gallech ei anfon nôl i rywun ar yr ochr arall fel eu bod yn gallu ei asesu, ac fel eich bod yn gallu dangos eu bod yn wirioneddol dysgu'r Gymraeg sylfaenol gyda'r plant." (Cyfweliad â lleoliad)

6.65 Byddai lleoliadau yn hoffi derbyn adnoddau cyfrwng Cymraeg i'w cefnogi i wella gallu staff yn y Gymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliad. Roedd adnoddau penodol a nodwyd yn cynnwys llyfrau, posteri a CDs. Lle mynychir

cyrsiau hyfforddi, byddai adnoddau i fynd adref â nhw yn helpu i atgyfnerthu a datblygu’r defnydd o Gymraeg gyda’r plant – er enghraifft, geiriau a thiwniau caneuon Cymraeg.

6.66 Gwnaeth eraill nodi adnoddau defnyddiol a dderbyniwyd mewn hyfforddiant gan y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) ar ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai lleoliadau yn hoffi gweld mynediad haws a mwy cyson i adnoddau Cymraeg am ddim i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau nas cynhelir.

> "Mae yna lawer o adnoddau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, gyda'r gost, rhaid eu hariannu'ch hunain neu fod yn y man priodol ar yr adeg briodol i dderbyn y poster hyfryd gyda'r wyddor, lliwiau a rhifau Cymraeg arno. Dwi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe bai pecyn y gallai gwarchodwyr plant danysgrifio iddo, neu, eto, pe baent yn gallu mynychu hyfforddiant." (Cyfweliad â lleoliad)

**Mae dod o hyd i staff â sgiliau iaith addas yn her**

6.67 Mae rhai lleoliadau a rhanddeiliaid yn nodi bod dod o hyd i staff sy'n siarad Cymraeg â'r cymwysterau a phrofiad cywir yn her. Nodwyd ganddynt fod hyn yn fater parhaus sy'n effeithio ar y sector cyfan a fyddai'n dod yn bwysicach yng ngoleuni nodau Cymraeg 2050 oherwydd yr adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen i'w cyflenwi.

**Mae rhannu arfer a chydweithio effeithiol hefyd yn bwysig**

6.68 Nododd rhanddeiliaid y byddai rhannu arfer effeithiol rhwng lleoliadau nas cynhelir yn bwysig o ran cefnogi'r holl fathau o leoliadau mewn ffordd gyfartal i gyfrannu at gyflawni nodau Cymraeg 2050.

> "Mae angen mwy o rannu arfer da yn y Gymraeg. Rhannu astudiaethau achos, tynnu mwy o sylw at y pethau hynod o gadarnhaol sy'n cael eu cyflawni. Lleoliadau cyfrwng Saesneg – mae pethau bach y gallant eu gwneud sydd wir yn helpu plant gyda'u Cymraeg." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

6.69 Gwnaethant rybuddio hefyd fod perygl y byddai cyfrifoldeb am hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn cael ei adael i Fudiad Meithrin a chylchoedd meithrin, pan ddylai'r holl leoliadau rannu cyfrifoldeb dros symud hyn ymlaen.

6.70 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai cymorth ar gyfer lleoliadau i weithio tuag at gyflawni nodau Cymraeg 2050 gael ei roi mewn dull haenog, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y rhwydwaith Cwlwm, awdurdodau lleol, consortia addysg, a sefydliadau ymbarél. Roedd angen i drafodaethau ddigwydd ar bob lefel i gyflawni dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau pob parti.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Teimlwyd bod cydnabyddiaeth rhanddeiliaid o’r gwahaniaethau a wynebwyd gan leoliadau nas cynhelir ac a gynhelir wrth gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn anfoddhaol. Mae angen delio â hyn drwy roi cyllid, gwybodaeth ac adnoddau cyfartal i leoliadau nas cynhelir ac a gynhelir.
- Dylai polisiau'r dyfodol barhau i roi cymorth i'r sector, ac nid rhoi baich arno, yn ôl rhanddeiliaid.
- Nododd lleoliadau fod ymgynghori â’r sector nas cynhelir wedi gwella ond rhaid iddo barhau.
- Mae gofynion arolygiadau deuol yn anodd i leoliadau ymdopi â nhw.
- Roedd canfyddiad fod angen i gymwysterau newid i sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir.

## 7. Cefnogi buddiannau'r sector nas cynhelir

7.1 Yn y cyfweliadau manwl, gofynnwyd i leoliadau a rhanddeiliaid sut dylai Llywodraeth Cymru gefnogi buddiannau’r sector nas cynhelir yn y dyfodol. Nodwyd yr argymhellion canlynol.

**Trin lleoliadau nas cynhelir yn gyfartal i leoliadau a gynhelir ac annog awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i wneud yr un peth, wrth gydnabod eu gwahaniaethau a'r heriau maent yn eu hwynebu o ran cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen**

7.2 Trwy gydol y trafodaethau, tynnodd nifer o leoliadau a rhanddeiliaid sylw at eu canfyddiad fod lleoliadau nas cynhelir yn cael eu trin a'u hystyried yn llai ffafriol o'u cymharu â lleoliadau a gynhelir.

7.3 Roedd nifer o leoliadau am i Lywodraeth Cymru roi'r un wybodaeth, adnoddau a chymorth iddynt ag a derbynnir gan leoliadau a gynhelir, ac annog rhanddeiliaid eraill fel awdurdodau lleol i wneud yr un peth.

> "Gan mai ni sy'n rhoi'r addysg gynnar gyntaf honno, mae cylchoedd chwarae ar gyfer plant rhwng dau a thair oed yn rhoi'r holl sgiliau sylfaenol hynny iddynt fod eu hangen arnynt er mwyn iddynt ddatblygu a bod yn hapus yn y feithrinfa. Dwi'n teimlo weithiau nad yw hynny'n cael ei werthfawrogi gan y llywodraeth. Dwi'n siŵr fod rhywbeth y gallent ei wneud i roi gwell cymorth i staff ac i gael mwy o gydnabyddiaeth am yr hyn rydym yn ei wneud oherwydd byddai'n drueni mawr pe bawn yn colli'r holl gylchoedd chwarae o ganlyniad i ddiffyg cyllid." (Cyfweliad â lleoliad)

7.4 Dywedodd lleoliadau eu bod yn wynebu heriau ychwanegol o'u cymharu ag ysgolion wrth roi addysg gynnar, nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol na'r consortia addysg yn eu barn nhw. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith fod gofynion darparu lleoedd addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn gosod pwysau ychwanegol ar staff, yn enwedig o ganlyniad i'r gwaith papur, sy'n effeithio ar ysbryd staff ac, yn y bôn, ar eu gallu i gadw staff.

> "Mae meithrinfa mewn ysgol yn lleoliad cwbl wahanol i gylch meithrin fel ni. Mae sut maent yn cyflenwi’r gwasanaeth yn yr ysgol yn canolbwyntio'n fawr ar

addysg, ond … mae'r elfen o ofal plant yn rhan o'n lleoliad hefyd, a dydw i ddim yn meddwl eu bod o reidrwydd wedi ystyried hynny bob tro a'r gofynion sydd ar staff mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar." (Cyfweliad â lleoliad)

7.5 Teimlodd nifer o randdeiliaid a lleoliadau fod lleoliadau nas cynhelir yn cael eu gweld yn israddol i leoliadau a gynhelir o ran safonau'r addysg a roddwyd ac ansawdd y staff. Roedd rhai lleoliadau yn amau bod hyn yn adlewyrchu agenda ehangach i ond adael i leoliadau a gynhelir gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, gan eithrio lleoliadau nas cynhelir rhag cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn gyfan gwbl. Nododd rhai fod y diffyg ymgysylltiad ar y cwricwlwm newydd â'r sector nas cynhelir, o'i gymharu â'r ymgysylltiad ag ysgolion, wedi codi cwestiynau ynglŷn â'r gwerth a osodwyd ar y sector nas cynhelir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi addysg gynnar yn y dyfodol.

"Dwi'n meddwl bod pobl yn ein hanghofio … Rydym yn gwneud yr un swydd, ond nid ydym yn cael ein cydnabod fel gwneud yr un swydd. Mae cyfraddau gennym fod angen i ni eu dilyn. Dwi'n meddwl y gall hynny fod yn annymunol i bobl. Dwi'n mynd i nifer o grwpiau babanod nad ydynt yn wir yn deall beth yw gwarchodwyr plant – maent yn meddwl yn syth am feithrinfeydd a gofal dydd. Dwi'n meddwl y gellid bod mwy o sylw a chymorth ar gyfer gwarchodwyr plant. Rydym yn rhan mor fawr o ofal plant … Rydym wedi ein hyfforddi â chymwysterau; rydym yn gwneud y cyfan oll mewn gwirionedd ac mae rhai ohonom hyd yn oed yn ei wneud ar ein hunain." (Cyfweliad â lleoliad)

7.6 Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid rôl hanfodol a chyfraniad pwysig y sector nas cynhelir wrth gyflenwi addysg gynnar a gofal plant a'r heriau mae'n eu hwynebu. Nododd rhai ei fod wedi "ei diystyru a'i anwybyddu" yn y gorffennol. Teimlodd eraill fod newid wedi bod o ran cydnabod y sector yn ddiweddarach, ond gwnaethant bwysleisio y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu ei dealltwriaeth o'r sector nas cynhelir a'i rôl mewn datblygiad plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

"Mae angen cydnabyddiaeth lawer gwell ar draws ystod o bolisïau sy'n ymwneud â'r Blynyddoedd Cynnar … Os nad ydych yn rhoi sylfaen dda iawn i blentyn yn yr achos cyntaf, bydd yn cymryd blynyddoedd iddo sefydlu'r sylfaen honno a gollwyd … Gan fod pob punt o gyllid sy'n cael ei dychwelyd i'r economi o

ganlyniad i’r  sector gofal plant, o rieni sy'n defnyddio gofal plant, sy'n gallu gweithio, yr enillion, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar yr economi. Mae'r lleoliadau hynny yn fusnesau sy'n cyflogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

7.7 Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid hefyd fod yn rhaid i holl bolisïau'r dyfodol roi cymorth yn lle rhoi baich ar y sector a bod yn rhaid iddynt fod yn effeithiol ac yn bwrpasol a helpu'r gweithlu yn lle creu gwaith ychwanegol. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith fod awdurdodau lleol yn dehongli ac yn gweithredu polisïau mewn ffyrdd gwahanol, sy'n arwain at anghydraddoldebau o ran cyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar fath o leoliad. Gwnaethant dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod polisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru gan yr holl awdurdodau lleol.

"Y broblem yw bod gennym bolisïau Llywodraeth Cymru, ond wedyn dyma awdurdodau lleol yn derbyn y gallu i’w cyflawni a’u rhaeadru fel y mynnant … Pan fo gennych ddyddiad dechrau neu ddyddiad cofrestru i allu derbyn plentyn ar y Cyfnod Sylfaen sy'n wahanol, dyna rywbeth sy'n ei gwneud hi'n anodd i leoliad. Mae mannau lle bo angen y cysondeb hwnnw ar draws awdurdodau lleol, ac ond Llywodraeth Cymru a all alluogi i hynny ddigwydd." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Cynnwys lleoliadau nas cynhelir yn llawn mewn ymgynghoriadau**

7.8 Byddai ymgynghori â'r sector nas cynhelir ynglŷn â newidiadau posibl mewn polisi ac arfer yn adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru fod lleoliadau nas cynhelir yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi cystal â lleoliadau a gynhelir fel cyflenwyr addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

"Trwy ymwneud mwy a derbyn gwell adborth gan ein hunain a lleoliadau tebyg, yn hytrach na chyffredinoli amdanom fel cyflenwyr addysg yn unig." (Cyfweliad â lleoliad)

"Sicrhewch ein bod wedi ein cynnwys mewn unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau gan ein bod mor bwysig ag unrhyw feithrinfa neu ysgol arall. Mewn gwirionedd, dwi'n meddwl ein bod hyd yn oed yn bwysicach gan ein bod yn

gofalu amdanynt yn gynnar iawn yn eu bywydau. Dylent gynnig bach mwy o help i ni." (Cyfweliad â lleoliad)

7.9 Dywedodd rhai lleoliadau fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynnwys lleoliadau nas cynhelir yn fwy mewn ymgynghoriadau ynglŷn â pholisi a newidiadau i arfer a fyddai'n effeithio arnynt. Er eu bod yn gwerthfawrogi hyn, gwnaethant bwysleisio hefyd fod yn rhaid i hyn barhau yn y dyfodol.

> "Mae bob amser angen i leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar gael eu cynnwys yn eu polisïau … Os nad ydynt, bydd meithrinfeydd yn mynd i mewn i ddwylo gweinyddwyr … Maent [wedi] ymchwilio i bobl meithrinfeydd ac roeddem yn deall ein pryderon ynghylch cynaliadwyedd. Nid yw meithrinfeydd yn rhad. Mae ceisio cynnal meithrinfa o ansawdd uchel yn gostus iawn a rhaid parchu hyn. Os ydynt am roi gofal plant fforddiadwy, rhaid iddo gael ei gefnogi." (Cyfweliad â lleoliad)

**Cyllid ar gyfer hawl i addysg gynnar a gofal plant**

7.10 Byddai ymatebwyr yn hoffi gweld cydraddoldeb o ran cyllid ar gyfer addysg gynnar a gofal waeth beth fo lleoliad y teulu, y statws cyflogadwyedd neu’r incwm. Teimlodd nifer o leoliadau a rhanddeiliaid y dylai addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant dderbyn cyllid cyfartal yn y dyfodol. Rhannodd rhai lleoliadau'r safbwynt fod ond ariannu rhieni sy'n gweithio neu reini sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig weithiau yn golygu bod y plant a'r teuluoedd oedd angen y cymorth fwyaf yn colli allan.

**Ystyried gofynion y broses arolygu ar leoliadau nas cynhelir**

7.11 Dywedodd rhai lleoliadau eu bod yn cael trafferth yn ymdopi â gofynion arolygiadau Estyn a/neu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r diffyg rhybudd yn enwedig yn anodd, yn ogystal â'r cyfanswm o dystiolaeth fod disgwyl iddynt ei chyflwyno o fewn y cyfnod o ddwy awr. Yn ogystal, gwnaethant adrodd fod y ddau arolygiad weithiau yn arwain at ganlyniadau gwrthgyferbyniol neu ddryslyd nad ydynt o fudd i leoliadau wrth gynllunio sut i fynd i'r afael â’r argymhellion.

> "Mae'r pethau y mae disgwyl i ni eu rhoi o fewn sesiwn dwy awr yn ormod. Mae angen i ni fynd y tu allan bob dydd, mae angen i ni gael dau amser stori, mae angen i ni olchi eu dwylo'n fwy aml … Os bydd angen i ni wneud cymaint o

bethau, mae'n colli golwg o'r ffaith mai plant bach iawn yw'r rhain rydym yn eu haddysgu." (Cyfweliad â lleoliad)

**Parhau i ariannu sefydliadau ymbarél yn ddigonol er mwyn eu galluogi i barhau i gynorthwyo lleoliadau nas cynhelir**

7.12 Dywedodd ychydig o randdeiliaid, er eu bod yn gwerthfawrogi'r cyllid maent yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi cymorth i leoliadau nas cynhelir i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, roedd ei angen arnynt i alluogi iddynt barhau i gyflawni eu dyletswyddau.

"Byddwn yn dweud, fel fy mod yn siŵr y bydd pobl eraill yn ei ddweud, mae'r lefel o gyllid rydym yn ei derbyn yn wych, ond mewn gwirionedd mae'r lefel o gyllid rydym wedi ei derbyn wedi parhau'r un peth ers blynyddoedd. Rydym wedi derbyn ychydig mwy o arian ar gyfer peth gwaith ychwanegol am rwydwaith y Cyfnod Sylfaen, sy'n wych. Ond dwi'n meddwl bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sylweddoli, oherwydd cyni, fod pethau'n costio ychydig yn fwy, sy'n golygu nad ydym yn gallu gwneud cymaint." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Newid camsyniadau ynglŷn ag ansawdd gofal plant ac addysg yn y sector nas cynhelir**

7.13 Teimlodd rhai rhanddeiliaid fod camsyniadau yn bodoli ynghylch dealltwriaeth rhieni o nodau, gwerthoedd ac ansawdd addysg gynnar, y dylai polisïau'r dyfodol geisio eu chwalu. Gwnaethant nodi bod buddion addysg gynnar yn cael eu cuddio gan yr awydd i ddychwelyd rhieni i'r gwaith i gyflawni amcanion economaidd.

"Mae gennym y frwydr honno ynglŷn â chael rhieni i ddeall buddion addysg ac, yn yr ystyr hwnnw, cefnogi eu plentyn ar ei daith datblygiad plentyn yn hytrach nag yn ei gael i ddyfynnu theorem Pythagoras pan yw’n bedair oed. Mae'n ymwneud â'ch canfyddiad o’r hyn a olygir wrth addysg." (Cyfweliad â rhanddeiliad)

**Symleiddio ac egluro cymwysterau yn y sector addysg gynnar**

7.14 Adroddodd nifer o leoliadau fod angen i gymwysterau presennol newid i sicrhau bod gan staff sy'n dechrau yn y sector addysg gynnar a gofal plant y wybodaeth a'r

sgiliau sydd eu hangen i gyflenwi holl agweddau eu rôl. Gwnaethant esbonio bod gan staff newydd eu cymhwyso ddealltwriaeth dda yn gyffredinol o sut i gyflenwi addysg gynnar ond eu bod yn cael trafferth ag agweddau eu rolau a oedd yn ymwneud ag asesu, arsylwi a dogfennu, gan gynnwys ymdrin ag atgyfeiriadau i weithwyr proffesiynol eraill yn y sector addysg ac iechyd. Gwnaethant nodi y byddai symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn gofyn bod staff yn ymgymryd â mwy o'r dyletswyddau hyn, a allai achosi problemau yn y dyfodol pe na fyddai staff wedi derbyn hyfforddiant llawn i'w gwneud.

> "Hyd yn oed unwaith iddynt gymhwyso a bod â chymhwysedd lefel tri, mae o hyd angen llawer o gymorth arnynt i wneud y tasgau dyddiol o fewn y lleoliadau, ac ochr gwaith papur pethau. Nid yr ymgysylltu â'r plant a'r rhyngweithio a'r gweithgareddau, ond gallu cwblhau gweithgareddau cynllunio ac arsylwadau a thrafod materion a chymorth ychwanegol a gweithwyr proffesiynol eraill. Yr ochr honno sy'n cael ei dileu o gymwysterau ar hyn o bryd ac mae'n paratoi pobl i fethu mewn gwirionedd." (Cyfweliad â lleoliad)

7.15 Nododd rhai rhanddeiliaid yr angen i wneud lleoliadau nas cynhelir yn “broffesiynol” i sicrhau bod y sgiliau, cymwysterau a phrofiad cywir ganddynt i gyflenwi addysg gynnar yn y dyfodol.

> "Pe bai rhestr ddymuniadau gen i, byddai mwy o arian i ariannu'r lleoliadau, er mwyn eu gwneud yn broffesiynol, mae angen buddsoddi ynddynt fel gweithlu fel eu bod ar yr un lefel neu ar lefel debyg i athrawon, gan eu bod yn cyflenwi'r un cwricwlwm ac yn cael eu harolygu yn seiliedig ar yr un fframwaith/telerau ag Estyn." (Cyfweliad â rhanddeiliaid)

7.16 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cydnabod bod angen i gymwysterau o fewn gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar gael eu diweddaru a gwnaethant amlinellu sut roeddent yn gweithio ar hyn o bryd i gyflawni hyn fel rhan o strategaeth gweithlu deng mlynedd Llywodraeth Cymru.

> "Dros y blynyddoedd, bu ystod eang o gymwysterau y gallwch eu gwneud, yn dibynnu ar ba fathau o ofal plant roeddech am eu cynnig. Yn raddol, wrth i ni geisio gwneud y sector yn fwyfwy proffesiynol, mae rhai ohonynt wedi cael eu

hanghofio. Rydym yn ail-lansio'r cymwysterau newydd yn ddiweddarach eleni."
(Cyfweliad â rhanddeiliad)

# 8. Sylwadau i gloi

8.1 Mae'r adroddiad hwn wedi nodi nifer o faterion a phwyntiau i'w hystyried mewn perthynas â rôl Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen o ran cefnogi’r sector nas cynhelir i gyflenwi addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Caiff canfyddiadau'r adroddiad hwn eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â gwybodaeth berthnasol arall a chaiff eu defnyddio i lywio penderfyniadau polisi ar sut orau i gefnogi'r sector nas cynhelir yn y dyfodol.

8.2 Hoffem ddiolch i'r rheini a gymerodd yr amser i gymryd rhan yn yr ymchwil hon. Rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad manwl ac ystyrlon yn fawr.

**Cyfeiriadau**


Dallimore, D. (2019) Addysg a Gofal Plentyndod: Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad: Briff Ymchwil Caerdydd: ynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwil y Senedd

Dallimore, D. (2019). Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd Briff Ymchwil Caerdydd: ynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwil y Senedd

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S. (2018). Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Siraj, I. (2014). Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) (2015). Gwerthuso'r Cyfnod Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2014). Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2015). Fframwaith y Cyfnod Sylfaen Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2016). Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2017). Addysg yng Nghymru:Cenhadaeth ein cenedl: Cynllun gweithredu 2017–21. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2019). Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Comisiynydd y Gymraeg (2017). Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

**Atodiad 1: Canllaw pwnc ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol**

## Canllaw pwnc i randdeiliaid:

## Ymchwil i lywio anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir.

**Cyflwyniad**

Bore/prynhawn da. ____, ydw i, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil o Strategic Research and Insight (SRI) Ltd. Diolch am gytuno i gymryd rhan mewn cyfweliad â mi heddiw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni wneud ychydig o waith ymchwil i lywio anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir. Byddwn yn siarad â rhanddeiliaid a rhai lleoliadau nas cynhelir ledled Cymru i archwilio eu barn a'u profiadau. Byddwn hefyd yn gwneud arolwg o'r holl leoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru ar hyn o bryd, a sampl o'r lleoliadau nas cynhelir nad ydynt yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, ond y mae'n ofynnol iddynt gymhwyso egwyddorion y Cyfnod Sylfaen o dan y trefniadau a roddwyd yn eu lle gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad ar ein canfyddiadau yn hwyrach yn 2019 a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fyddwn yn eich enwi chi na'ch sefydliad yn yr adroddiad.

Mae'r ymchwil yn bwysig oherwydd bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol, deall sut y gallai gefnogi lleoliadau nas cynhelir yn y ffordd orau i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd i Gymru wrth symud ymlaen. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gyda'r newidiadau diweddar i'r Cynnig Gofal Plant, a'r newidiadau ar ddod i'r cwricwlwm a phrosesau asesu.

Ni fydd y cyfweliad heddiw yn para'n hirach nag awr. Hoffwn recordio'r cyfweliad i gyd-fynd â'm nodiadau. Ydy hyn yn iawn? Os hoffech ddweud unrhyw beth "yn answyddogol", rhowch wybod imi. A oes gennych unrhyw gwestiynau i mi?

**[Ymchwilydd: Sylwch na fydd rhai cwestiynau yn berthnasol i rai rhanddeiliad gan y bydd ganddynt wahanol lefelau o gysylltiad â chefnogi'r Cyfnod Sylfaen a/neu'r cynnig gofal plant. Teilwrwch y cwestiynau a ofynnwch yn unol ag ymateb cyfranogwyr i gwestiwn 1]**

### Cymorth presennol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir

1. Sut ydych chi/sut mae eich sefydliad yn rhoi cymorth i leoliadau nas cynhelir a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd?

2. Sut, os o gwbl, ydych chi/eich sefydliad yn rhoi cymorth i leoliadau nas cynhelir nad ydynt yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, ond y mae'n ofynnol iddynt o hyd i

sicrhau fod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cymhwyso o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

3. Gan feddwl am y ffyrdd penodol yr ydych chi/y mae eich sefydliad yn rhoi cymorth i leoliadau nas cynhelir a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, beth sy'n gweithio'n arbennig o dda yn eich barn chi a pham?

*Awgrym: Pa fath o gymorth y mae lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn ei werthfawrogi fwyaf? Cymorth ariannol? Anghenion hyfforddiant? Cymorth staffio? Darparu cyfarpar? Cymorth gan athrawon ymgynghorol? Cymorth â'r Gymraeg/dwyieithrwydd? Cymorth gweinyddol? Mathau eraill o gymorth?*

*[Os yn berthnasol]: A oes rhai mathau o gymorth yn gweithio'n well ar gyfer lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu Cyfnod Sylfaen o'i gymharu â'r rheini sydd ddim?*

4. Gan feddwl am y ffyrdd penodol yr ydych chi/y mae eich sefydliad yn rhoi cymorth i leoliadau nas cynhelir a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, beth, os unrhyw beth, nad yw'n gweithio cystal, a pham?

*Awgrym: [Os yn berthnasol] A yw hynny'n wahanol i leoliadau nas cynhelir sydd, ac sydd ddim, yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd?*

5. Tua pha gyfran o leoliadau nas cynhelir nad ydynt yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, ond yr hoffent wneud hynny?

*Awgrym: Pam felly?*

6. Beth yw'r prif alluogwyr a rhwystrau i ddarparu cymorth i leoliadau nas cynhelir a ariennir?

*Awgrym: [Ymchwilydd: Cyfeiriwch yn ôl at ateb y cyfweleion i gwestiwn 5] A yw'r rhwystrau a'r galluogwyr yn wahanol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir ar hyn o bryd i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, a'r rheini sydd ddim?*

7. A oes unrhyw fathau o gymorth sydd eu hangen ar leoliadau nas cynhelir a ariennir ar hyn o bryd, ond nad ydynt yn eu derbyn, i'w galluogi i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen? Os felly, pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth hwn neu pwy ddylai fod yn gyfrifol?

*Awgrym: Pa fathau o gymorth: Cymorth ariannol? Anghenion hyfforddiant? Cymorth staffio? Cymorth gan athrawon ymgynghorol? Cymorth â'r Gymraeg/dwyieithrwydd? Cymorth gweinyddol? Mathau eraill o gymorth?*

*[Os yn berthnasol]: A yw'r mathau o gymorth yn wahanol i leoliadau sydd yn, ac sydd ddim, yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd?*

*Pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu'r cymorth hwn: Llywodraeth Cymru? Sefydliadau ymbarél* (*PACEY/NDNA/Mudiad Meithrin/Blynyddoedd Cynnar Cymru)? Sefydliadau neu unigolion eraill?*

8. Wrth feddwl am y mathau o gymorth sydd eu hangen ar leoliadau nas cynhelir ond nad ydynt yn eu derbyn ar hyn o bryd i'w galluogi i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, sut y mae'r anghenion cymorth hyn yn amrywio o ran math o leoliad?

*Awgrym: Categori Iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog)? Lleoliad? Cefndir economaidd-gymdeithasol/amddifadedd neu gyfoeth yr ardal? Maint neu strwythur y lleoliad?*

*[Os yn berthnasol]: A yw'r mathau o gymorth yn wahanol i leoliadau sydd yn, ac sydd ddim, yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd?*

### Cymorth y dyfodol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir

9. Pa mor ymwybodol yw lleoliadau nas cynhelir a ariennir ynglŷn â'r cwricwlwm newydd a newidiadau cysylltiedig i'r broses asesu, a sut y bydd angen iddynt addasu eu darpariaeth yn unol â hyn?

10. Sut y bydd angen i leoliadau nas cynhelir a ariennir addasu eu darpariaeth yn unol â'r cwricwlwm newydd a'r newidiadau cysylltiedig i'r broses asesu?

*Awgrym: A fydd angen i wahanol fathau o leoliadau nas cynhelir a ariennir addasu mewn ffyrdd gwahanol? Os felly, sut?*

*[Ymchwilydd: Cyfeiriwch yn ôl at nodweddion lleoliad a gafodd ei grybwyll yn y cwestiwn blaenorol: Categori Iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog)? Lleoliad? Cefndir economaidd-gymdeithasol/amddifadedd neu gyfoeth yr ardal? Maint neu strwythur y lleoliad?]*

11. Pa gymorth y byddech yn disgwyl i leoliadau nas cynhelir a ariennir fod ei angen i'w galluogi i addasu eu darpariaeth yn unol â'r cwricwlwm newydd a newidiadau cysylltiedig i'r broses asesu? Pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth hwn neu pwy ddylai fod yn gyfrifol? Sut y dylid strwythuro'r cymorth hwn?

*Awgrym: A fydd gan wahanol fathau o leoliadau wahanol anghenion cymorth? [Ymchwilydd: Cyfeiriwch yn ôl at atebion ac awgrymiadau blaenorol, os oes angen]*

12. Pa mor barod yw lleoliadau nas cynhelir a ariennir i ymateb i unrhyw newidiadau posibl mewn polisi yn y dyfodol megis symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC)?

*Awgrym: A fydd gan wahanol fathau o leoliadau wahanol anghenion cymorth? Sut y dylid strwythuro'r cymorth hwn?*

13. Pa mor ymwybodol yw lleoliadau nas cynhelir a ariennir ynglŷn â pholisïau trawsbynciol fel Cymraeg 2050, a sut y bydd angen iddynt addasu eu darpariaeth yn unol â'r rheini?

14. Pa mor barod yw lleoliadau nas cynhelir a ariennir i ymateb i'r polisïau trawsbynciol hyn?

*Awgrym: A yw gwahanol fathau o leoliadau yn fwy parod nag eraill?*

15. Pa gymorth bydd ei angen ar leoliadau nas cynhelir a ariennir i'w galluogi i ymateb i bolisïau trawsbynciol fel Cymraeg 2050?

*Awgrym: A fydd gan wahanol fathau o leoliadau wahanol anghenion cymorth? Sut y dylid strwythuro'r cymorth hwn?*

### Cymorth ar gyfer lleoliadau nas cynhelir nad ydynt yn cael eu hariannu i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen (ond y mae'n ofynnol iddynt gymhwyso'r egwyddorion trwy'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol)

[Ymchwilydd: Cyfeiriwch yn ôl at ateb y cyfweleion i gwestiwn 2 yma]

Gwnaethoch ddweud wrthyf yn gynharach fod eich sefydliad ar hyn o bryd yn rhoi cymorth/ ddim yn rhoi cymorth i leoliadau nas cynhelir nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, ond y mae'n ofynnol iddynt o hyd i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cymhwyso o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

16. [Ymchwilydd: Dylech ond ofyn hwn os yw'r cyfwelai **yn** rhoi cymorth i'r lleoliadau hyn]

Allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am y cymorth hwn?

*Awgrym: Ydych chi'n eu cyfeirio at adnoddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol?*

17. [Ymchwilydd: Dylech ond ofyn hwn os yw'r cyfwelai **yn** rhoi cymorth i'r lleoliadau hyn]

I ba raddau y mae'r cymorth a ddarparwch/y mae eich sefydliad yn ei ddarparu yn diwallu anghenion y lleoliadau hyn yn eich barn chi?

*Awgrym: Pa gymorth ychwanegol sydd ei angen ar y lleoliadau hyn yn eich barn chi i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cymhwyso o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol? A oes angen unrhyw gymorth penodol arnynt gyda'r Gymraeg?*

18. [Ymchwilydd: Dylech ond ofyn hwn os **nad yw'r** cyfwelai'n rhoi cymorth i'r lleoliadau hyn]

Ydych chi'n credu y dylai lleoliadau nas cynhelir, <u>nad ydynt</u> yn darparu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, dderbyn mwy o gymorth i'w galluogi i gymhwyso egwyddorion y Cyfnod Sylfaen o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

***Awgrym: Pwy ddylai ddarparu'r cymorth hwn?***

***[Ymchwilydd: Gofynnwch gwestiynau 19 i 22 i sefydliadau ymbarél a chonsortia yn unig, nid rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru]***

### Cymorth i Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen

19. Sut mae rôl Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf?

*Awgrym: Pam mae’r rôl wedi newid?*

20. Sut ydych chi'n meddwl y bydd angen i rôl Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen newid yn y dyfodol?

*Awgrym: Sut y bydd angen i rôl Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen newid yn unol â'r cwricwlwm newydd a phrosesau asesu? Newidiadau i’r broses asesu? Y cynnig gofal plant?*

21. Pa gymorth y bydd ei angen ar Swyddog Datblygu’r Cyfnod Sylfaen i ymateb i'r newidiadau hyn? Pwy ddylai ddarparu'r cymorth hwn?
22. Sut y gellir cryfhau’r cydweithio rhwng Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru?

*Awgrym: Cyfarfodydd rheolaidd? Fforwm rhyngweithiol? Ffyrdd eraill?*

### Casgliad

23. Sut ydych chi'n meddwl y dylai polisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gefnogi buddiannau’r sector nas cynhelir?

24. A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu ynglŷn ag anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir?

**Diolch am eich amser**

**Atodiad 2: Arolwg ar-lein a ffôn**

## Arolwg Llywodraeth Cymru: Anghenion cymorth ar gyfer darparu addysg gynnar nawr ac yn y dyfodol

Cwmni ymchwil annibynnol o'r enw Strategic Research and Insight Ltd (SRI) ydym ni. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ddod o hyd i'r ffordd orau y gallant gefnogi darparwyr blynyddoedd cynnar fel chi i ddarparu addysg gynnar, nawr ac yn y dyfodol. Hoffem glywed eich barn ar hyn.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan leoliadau sy'n darparu addysg gynnar ar hyn o bryd neu a hoffai ddarparu addysg gynnar (addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen) yng Nghymru er mwyn iddynt gwblhau'r arolwg hwn.

Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i Lywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu. Hoffem gasglu gwybodaeth am leoliadau i gymharu'r ymatebion y byddwn yn eu cael gan leoliadau ledled Cymru. Fodd bynnag, ni fyddwn yn eich enwi chi na'ch sefydliad yn yr adroddiad. Gallwch weld rhagor o fanylion yn yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer y prosiect hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag arweinydd y prosiect ar xxxx.

Diolch.

**Amdanoch chi a'ch lleoliad**

Q1. Teipiwch eich cod post. Bydd hwn dim ond yn cael ei ddefnyddio i gymharu canlyniadau darparwyr mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru.

[YMATEB AGORED]

Q2. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi neu eich sefydliad orau?

- Cylch chwarae cyn ysgol
- Cylch Meithrin
- Meithrinfa ddydd (preifat)
- Gwarchodydd plant
- Arall

Nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q3. Ym mha awdurdod lleol mae eich lleoliad?

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol os oes gennych, neu os ydych yn gweithio mewn, nifer o leoliadau ledled gwahanol siroedd*

- Ynys Môn
- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr

- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Casnewydd
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

Q4. Pa iaith/ieithoedd ydych chi / mae eich lleoliad yn ei/eu defnyddio i ddarparu gofal plant ac addysg gynnar?

- Cymraeg
- Saesneg
- Dwyieithiog (Cymraeg a Saesneg)

Q5. Faint o staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio yn eich lleoliad i gyd? (gan gynnwys eich hun)

- 1-5
- 6-10
- 11-20
- Mwy nag 20

**Darpariaeth addysg gynnar gyfredol**

Addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yw'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r amser y mae plant yn ei dreulio mewn addysg cyn ysgol pan fyddant rhwng tair a phedair blwydd oed.

Mae gan blant yr hawl i gael o leiaf deng awr yr wythnos o addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen sydd yn rhan-amser ac wedi'i hariannu. Gallai hon fod mewn ysgol, neu mewn meithrinfa, cylch chwarae neu gylch meithrin, neu gyda gwarchodwr plant sydd wedi'i gymeradwyo a'i ariannu gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg gynnar.

Mae plant yn dechrau addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Q6. A ydych chi wedi eich cymeradwyo gan eich awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, h.y. a ydych chi'n Ddarparwr Addysg Cofrestredig sy'n cael ei arolygu gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)?

- Ydw / Ydym
- Yng nghanol y broses gofrestru nawr
- Nac ydw / Nac ydym

Q7. A ydych wedi ystyried dod yn Ddarparwr Addysg Cofrestredig cymeradwy?

- Ydw / Ydym
- Nac ydw / Nac ydym

Q8. Pam nad ydych chi'n Ddarparwr Addysg Cofrestredig cymeradwy ar hyn o bryd?

*Nodwch bob un sy'n berthnasol*

- Nid oes gennyf ddigon o staff
- Nid oes gennyf fynediad at yr hyfforddiant neu'r adnoddau cywir
- Nid oes gennyf y llety a/neu'r offer cywir
- Nid yw'r awdurdod lleol yn caniatáu i ddarparwyr nas cynhelir ddarparu addysg gynnar
- Mae gan yr awdurdod lleol ddarpariaeth addysg gynnar ddigonol yn yr ardal
- Rhesymau ariannol / diffyg cymorth ariannol
- Nid wyf yn gwybod digon am yr hyn sy'n gysylltiedig ag ef
- Nid wyf eisiau bod yn Ddarparwr Addysg Cofrestredig ar hyn o bryd
- Nid wyf wedi cael cyfle i ymgeisio eto, ond rwy'n bwriadu gwneud hynny
- Ddim yn gwybod
- Rheswm arall/rhesymau eraill

Os rheswm arall/rhesymau eraill, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q9. A ydych chi'n aelod o un neu ragor o'r sefydliadau canlynol ar hyn o bryd?

- Mudiad Meithrin
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)
- PACEY (Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar)
- Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt)
- Ansicr

Q10. A oeddech chi'n gwybod bod y sefydliadau hyn yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i leoliadau i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen?

- Oeddwn
- Nac oeddwn
- Ansicr

Q11. A oeddech chi'n gwybod bod gan y sefydliadau hyn aelodau staff penodol sy'n darparu cymorth Cyfnod Sylfaen i'w haelodau?

- Oeddwn
- Nac oeddwn

- Ansicr

**Gwybodaeth a chefnogaeth penodol ar ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen**

Q12. A ydych chi wedi derbyn unrhyw wybodaeth neu gymorth am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen gan unrhyw un o'r canlynol?

- Mudiad Meithrin
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)
- PACEY (Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar)
- Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt)
- Heb gael cymorth na gwybodaeth am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen
- Ffynonellau eraill

Os ffynonellau eraill, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q13. Pa wybodaeth neu gymorth ynglŷn â darparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ydych chi wedi'i dderbyn?

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Cymorth ariannol
- Hyfforddiant
- Cymorth staffio, e.e. recriwtio, rheoli perfformiad
- Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Deunyddiau, adnoddau ac arweiniad i gefnogi’r gwaith o ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, e.e. astudiaethau achos ymarfer rhagorol, cyngor ar ddysgu yn yr awyr agored, cyflenwi addysgeg y Cyfnod Sylfaen
- Darparu offer, e.e. llyfrau, teganau, cyfarpar chwarae
- Llety
- Cymorth gan athrawon ymgynghorol
- Cymorth gyda'r Gymraeg
- Cymorth gweinyddol
- Cyfeirio at adnoddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol
- Mathau eraill o gymorth

Os fathau eraill o gymorth, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q14. Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth neu'r cymorth rydych wedi'i dderbyn am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen?

| | Defnyddiol tu hwnt | Defnyddiol iawn | Gweddol ddefnyddiol | Eithaf defnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth ariannol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hyfforddiant | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymorth staffio, e.e. recriwtio, rheoli perfformiad | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Deunyddiau, adnoddau ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, e.e. astudiaethau achos ymarfer rhagorol, cyngor ar ddysgu yn yr awyr agored, cyflenwi addysgeg y Cyfnod Sylfaen | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Darparu offer, e.e. llyfrau, teganau, cyfarpar chwarae | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Llety | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymorth gan athrawon ymgynghorol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymorth gyda'r Gymraeg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymorth gweinyddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfeirio at adnoddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mathau eraill o gymorth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Q15. Beth, os unrhyw beth, fyddai'n gwneud yr wybodaeth a'r cymorth rydych wedi'u derbyn am ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen yn fwy defnyddiol?

[YMATEB AGORED]

Q16. A oes angen unrhyw fathau eraill o wybodaeth neu gymorth arnoch i'ch helpu chi i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen nad ydych yn eu cael ar hyn o bryd?

- Oes
- Nac Oes
- Ddim yn gwybod

Q17. Nodwch pa wybodaeth neu gymorth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnig i'ch helpu chi i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen.

[YMATEB AGORED]

**Darparu addysg gynnar yn y dyfodol**

Fel y gwyddoch o bosibl, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cwricwlwm a threfniadau asesu newydd ar gyfer Cymru y bydd yn rhaid i bob lleoliad addysg eu cyflenwi o 2022 ymlaen. Yr un fydd egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, ond bydd yn dod yn rhan o un cwricwlwm di-dor i blant rhwng tair ac 16 mlwydd oed, gan ddarparu dysgu mwy cydgysylltiedig.

Q18. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch galluogi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd?

- Ymwybodol iawn
- Eithaf ymwybodol
- Gweddol ymwybodol
- Rhywfaint yn ymwybodol
- Ddim yn ymwybodol o gwbl
- Ddim yn gwybod

Q19. Pa wybodaeth neu gymorth ydych chi'n credu bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd?

- Cymorth ariannol
- Hyfforddiant
- Cymorth staffio, e.e. recriwtio, rheoli perfformiad
- Darparu offer, e.e. llyfrau, teganau, cyfarpar chwarae
- Llety
- Cymorth gan athrawon ymgynghorol
- Cymorth gyda'r Gymraeg
- Cymorth gweinyddol
- Cyfeirio at adnoddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol
- Ddim yn gwybod
- Mathau eraill o wybodaeth neu gymorth

Os fathau eraill o wybodaeth neu gymorth, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q20. Pa hyfforddiant penodol fyddech chi'n hoffi ei gael i'ch helpu chi / eich lleoliad i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd?

[YMATEB AGORED]

Fel yr amlinellwyd yn ei pholisi Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru eisiau i nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyrraedd un filiwn erbyn 2050. Bydd ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg trwy greu 150 o gylchoedd meithrin ychwanegol dros y ddegawd nesaf yn allweddol i hyn.

Q21. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch helpu chi i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nod hwn?

- Ymwybodol iawn
- Eithaf ymwybodol
- Gweddol ymwybodol
- Rhywfaint yn ymwybodol
- Ddim yn ymwybodol o gwbl
- Ddim ym gwybod

Q22. Pa wybodaeth neu gymorth, os o gwbl, ydych chi'n credu bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nod hwn?

- Cymorth ariannol
- Hyfforddiant

- Cymorth staffio, e.e. recriwtio, rheoli perfformiad
- Darparu offer, e.e. llyfrau, teganau, cyfarpar chwarae
- Llety
- Cymorth gan athrawon ymgynghorol
- Cymorth gyda'r Gymraeg
- Cymorth gweinyddol
- Cyfeirio at adnoddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol
- Ddim yn gwybod
- Mathau eraill o wybodaeth neu gymorth

Os fathau eraill o wybodaeth neu gymorth, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q23. Pa hyfforddiant penodol fyddech chi'n hoffi ei gael i'ch helpu chi / eich lleoliad i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nod hwn?

[YMATEB AGORED]

Yn yr hirdymor, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar.

Q24. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r syniad hwn?

- Ymwybodol iawn
- Eithaf ymwybodol
- Gweddol ymwybodol
- Rhywfaint yn ymwybodol
- Ddim yn ymwybodol o gwbl
- Ddim yn gwybod

Q25. Pa fath o gymorth ydych chi'n credu y gallai fod ei angen arnoch i baratoi ar gyfer Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn eich lleoliad?

- Cymorth ariannol
- Hyfforddiant
- Cymorth staffio, e.e. recriwtio, rheoli perfformiad
- Darparu offer, e.e. llyfrau, teganau, cyfarpar chwarae
- Llety
- Cymorth gan athrawon ymgynghorol
- Cymorth gyda'r Gymraeg
- Cymorth gweinyddol
- Cyfeirio at adnoddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol
- Ddim yn gwybod
- Mathau eraill o gymorth

Os fathau eraill o gymorth, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

Q26. Pa hyfforddiant penodol fyddech chi'n hoffi ei gael i'ch helpu chi / eich lleoliad i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nod hwn?

[YMATEB AGORED]

Q27. Pwy ydych chi'n credu fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r cymorth hwn?

- Llywodraeth Cymru
- Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol
- Consortia addysg rhanbarthol Cymru (e.e. GwE, ERW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De)
- Sefydliadau ymbarél (h.y. Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt)
- Ansicr
- Sefydliad neu unigolyn arall

Os sefydliad neu unigolyn arall, nodwch, os gwelwch yn dda [YMATEB AGORED]

**Casgliad**

Q28. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud ynghylch eich anghenion cymorth chi neu eich sefydliad o ran darparu addysg gynnar yn y dyfodol? [YMATEB AGORED]

Hoffem siarad â rhai darparwyr er mwyn edrych ar rai o'r materion hyn mewn mwy o fanylder. Byddai un o'n cyfwelwyr yn ffonio ar amser sy'n gyfleus i chi i gynnal cyfweliad cyfrinachol untro byr â chi dros y ffôn, a disgwylir i hwn bara am tua 20 munud.

Q29. A ydych chi'n fodlon cymryd rhan?

- Ydw
- Nac ydw

Diolch. Nodwch eich manylion cyswllt isod. Byddwn dim ond yn defnyddio'r rhain i gysylltu â chi ynghylch yr ail ran hon o'n gwaith ymchwil. Gallwn eich sicrhau chi na fyddwn yn eich enwi yn ein hadroddiad.

Enw [YMATEB AGORED]

Sefydliad [YMATEB AGORED]

Cod post [YMATEB AGORED]

E-bost [YMATEB AGORED]

Rhif ffôn [YMATEB AGORED]

Cliciwch y tic i anfon eich arolwg atom ar ôl i chi ei orffen..

Diolch am eich help

**Atodiad 3: Canllaw pwnc ‘lleoliadau heb eu cynnal’**

## Canllaw pwnc i leoliadau nas cynhelir:

## Ymchwil i lywio anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir

**Ymchwilydd: Cyn pob cyfweliad, adolygwch arolwg y sawl sy'n cael ei gyfweld ar ôl iddo ei gwblhau.Sicrhewch hefyd fod gennych gopi o'r arolwg a gwblhawyd wrth law. Bydd angen i chi gyfeirio ato drwy gydol y cyfweliad er mwyn cael mewnolwg manylach i atebion y sawl sy'n cael ei gyfweld.**

### Cefndir

1. A allwch chi ddweud wrthyf beth yw eich rôl yn y lleoliad?
2. Mae gennyf yr wybodaeth ganlynol am eich lleoliad. A allwch chi ddweud wrthyf a yw hyn yn gywir?

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn fyr yr wybodaeth hon am y lleoliad o'r arolwg a gwblhawyd:

- math o leoliad (C2)
- cyfrwng/cyfryngau iaith (C4)
- maint/nifer y staff (C5)
- awdurdod/awdurdodau lleol a gynhwysir (C3)
- aelodaeth o sefydliadau ymbarél (C9)

### Cymorth cyfredol a dderbynnir i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn fyr yr ymatebion arolwg i **C10, C11, C12, C13, C14** a **C15** (ymwybyddiaeth o rôl sefydliadau ymbarél a Swyddogion Datblygu’r Cyfnod Sylfaen; y mathau o gymorth a dderbyniwyd a pha mor ddefnyddiol oeddent).

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod / nad oeddech yn ymwybodol o rôl [sefydliadau ymbarél] o ran cefnogi lleoliadau i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ac rydych / nid ydych wedi derbyn cymorth gan [sefydliad(au) ymbarél].

[Os rhestrwyd mathau penodol o gymorth] O'r mathau hyn o gymorth, [rhowch grynodeb cryno o ymatebion yr arolwg].

3. A allwch ddweud ychydig yn fwy i mi am y rhain ac am unrhyw fathau eraill o gymorth rydych yn eu derbyn ar hyn o bryd ar gyfer darparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen, a pha mor ddefnyddiol oedd y rhain?

*Awgrym: Pwy ddarparodd y mathau hyn o gymorth?*

- *Llywodraeth Cymru*
- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*

- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd: mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt); sefydliadau ymbarél mwy eang;*
  *rhywun arall / sefydliad arall*

*Beth yw cryfderau a gwendidau pob math o gymorth rydych wedi'i dderbyn?*

*Pam fod rhai mathau o gymorth wedi bod yn fwy effeithiol nag eraill?*

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn gryno ymatebion yr arolwg i **C16** a **C17** (os oes angen unrhyw fathau eraill o wybodaeth a chymorth arnoch i'ch helpu chi i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen). Holwch ymhellach ynghylch pob math o gymorth a nodir. Os na nodir unrhyw fathau o gymorth, edrychwch ar y rheswm dros hyn.

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym fod arnoch angen / nad oes arnoch angen mathau eraill o wybodaeth a/neu gymorth i'ch helpu chi i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd. Awgrym: Os nad ydych yn ymwneud â darparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, beth yw'r rhwystrau i hyn?

4. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?
5. [Os nad atebwyd hyn yng nghwestiwn 4] Pwy ddylai ddarparu'r wybodaeth a/neu'r cymorth hwn a pham?

- *Llywodraeth Cymru*
- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*
- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd: mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt);sefydliadau ymbarél mwy eang; rhywun arall / sefydliad arall*

### Cymorth sydd ei angen yn y dyfodol i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn gryno ymateb yr arolwg i **C18** (ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd a'r newidiadau y bydd angen i leoliadau eu gwneud i'w galluogi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd).

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn ymwybodol iawn / yn eithaf ymwybodol / yn ymwybodol i ryw raddau / ychydig yn ymwybodol / ddim yn ymwybodol o

gwbl o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch galluogi chi i gyflenwi'r cwricwlwm newydd.

6. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn fyr ymatebion yr arolwg i **C19** (pa wybodaeth neu gymorth ydych chi'n credu bydd ei angen arnoch chi / eich lleoliad i'ch helpu chi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd?). Holwch ymhellach ynghylch pob math o gymorth a nodir.

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn credu y bydd angen arnoch chi / ar eich lleoliad y math(au) canlynol o wybodaeth neu gymorth i'ch helpu chi i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd.

7. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?
8. *[Os nad atebwyd hyn yng nghwestiwn 7] Pwy ddylai ddarparu'r wybodaeth a/neu'r cymorth hwn a pham?*

- *Llywodraeth Cymru*
- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*
- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd:mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt);sefydliadau ymbarél mwy eang; rhywun arall / sefydliad arall*

**Ymchwilydd:** Gofynnwch C9 a C10 dim ond os gwnaeth y sawl sy'n cael ei gyfweld roi tic am 'hyfforddiant' ar gyfer C19 yn yr arolwg.

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym yr hoffech gael hyfforddiant penodol i'ch helpu chi / eich lleoliad i gyflenwi neu gefnogi'r cwricwlwm newydd.

9. Pa fath o hyfforddiant yr hoffech chi ei gael a pham?
10. [*Os nad atebwyd hyn yng nghwestiwn 9*] Pwy ddylai ddarparu'r hyfforddiant hwn?

- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*
- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd:mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt);sefydliadau ymbarél mwy eang; rhywun arall / sefydliad arall*

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn gryno'r ymateb yn yr arolwg i **C21** (ymwybyddiaeth o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch helpu chi i gyfrannu at nod

Llywodraeth Cymru o gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel yr amlinellwyd yn ei pholisi Cymraeg 2050).

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn ymwybodol iawn / yn eithaf ymwybodol / yn ymwybodol i ryw raddau / ychydig yn ymwybodol / ddim yn ymwybodol o gwbl o'r newidiadau y bydd angen i chi / eich lleoliad eu gwneud i'ch galluogi chi i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel yr amlinellwyd yn ei pholisi Cymraeg 2050.

11. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?

**Ymchwilydd:** Gofynnwch C12 a C13 dim ond os gwnaeth y sawl sy'n cael ei gyfweld roi tic am 'hyfforddiant' ar gyfer C22 yn yr arolwg.

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym yr hoffech gael hyfforddiant penodol i'ch helpu chi / eich lleoliad i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

12. Pa hyfforddiant yr hoffech chi ei gael a pham?
13. [Os nad atebwyd hyn yng nghwestiwn 12] Pwy ddylai ddarparu'r hyfforddiant hwn a pham?

- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*
- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd:mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt); sefydliadau ymbarél mwy eang; rhywun arall / sefydliad arall*

**Ymchwilydd:** Crynhowch yn gryno ymateb yr arolwg i **C25** (ymwybyddiaeth o'r syniad fod Llywodraeth Cymru yn ystyried symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar).

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn ymwybodol iawn / yn eithaf ymwybodol / yn ymwybodol i ryw raddau / ychydig yn ymwybodol / ddim yn ymwybodol o gwbl o'r syniad fod Llywodraeth Cymru yn ystyried symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar.

14. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?

**Ymchwilydd:** Gofynnwch C15 dim ond os oes gan y sawl sy'n cael ei gyfweld ychydig o ymwybyddiaeth o'r syniad fod Llywodraeth Cymru yn ystyried symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar.

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn credu y bydd angen cymorth arnoch chi / eich lleoliad o bosib gyda xxx i'ch helpu chi / eich lleoliad i baratoi ar gyfer symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

15. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?
16. [Os nad atebwyd hyn yng nghwestiwn 15] Pwy ddylai ddarparu'r cymorth hwn a pham?

- *Llywodraeth Cymru*
- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*
- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd:mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt);sefydliadau ymbarél mwy eang; rhywun arall / sefydliad arall*

**Ymchwilydd:** Gofynnwch C17 dim ond os gwnaeth y sawl sy'n cael ei gyfweld roi tic am 'hyfforddiant' ar gyfer C26 yn yr arolwg.

Yn yr arolwg, gwnaethoch ddweud wrthym yr hoffech gael hyfforddiant penodol mewn xxx i'ch helpu chi / eich lleoliad i baratoi ar gyfer symud tuag at fodel Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

17. A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am hyn?
18. [Os nad atebwyd hyn yng nghwestiwn 17] Pwy ddylai ddarparu'r hyfforddiant hwn a pham?

- *Timau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol*
- *Consortia addysg rhanbarthol Cymru (GwE, ErW, GCA, Consortiwm Canolbarth y De) [Ymchwilydd:mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'r term hwn. Eglurwch fod y consortia yn grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau addysg]*
- *Swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen neu staff dynodedig o sefydliadau ymbarél (Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ynghynt);sefydliadau ymbarél mwy eang; rhywun arall / sefydliad arall*

## Casgliad

19. Sut allai polisïau Llywodraeth Cymru gefnogi eich buddiannau chi / buddiannau eich lleoliad orau yn y dyfodol?

20. [Ymchwilydd: Gofynnwch dim ond os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn aelod o un sefydliad ymbarél neu ragor] Sut allai polisïau Llywodraeth Cymru gefnogi buddiannau [eich sefydliad(au) ymbarél] orau yn y dyfodol?

21. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud ynghylch eich anghenion cymorth chi neu eich sefydliad o ran darparu addysg gynnar yn y dyfodol?

**Diolch am gymryd rhan.**